Pecyn Dogfen Cyhoeddus

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

At: Aelodau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau

Dyddiad: 13 Ionawr 2022

Rhif Union: 01824 712554

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, DYDD IAU, 20 IONAWR 2022** am **10.00 am** yn **TRWY GYNHADLEDD FIDEO**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN CYSYLLTIAD** (Tudalennau 5 - 6)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a drafodir yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION** (Tudalennau 7 - 16)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr 2021 (copi ynghlwm).

**10.05 – 10.10 a.m.**

**5 POLISÏAU CYNNAL A CHADW PRIFFYRDD AR GYFER FFYRDD DIDDOSBARTH** (Tudalennau 17 - 22)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Asedau a Risgiau Priffyrdd (copi ynghlwm) sy'n cyflwyno polisi'r Cyngor ar gyfer cynnal a chadw ffyrdd diddosbarth ynghyd â'r meini prawf a'r fformiwla a fydd yn cael eu defnyddio i ddyrannu a gwario'r cyllid ychwanegol sydd wedi'i neilltuo ar gyfer priffyrdd y sir.

**10.10 – 11.00 a.m.**

**6 DIOGELU ENWAU LLEOEDD CYMRAEG YN SIR DDINBYCH** (Tudalennau 23 - 84)

Ystyried adroddiad gan Arweinydd Tîm y Cyngor ar gyfer Lleoedd a Gwasanaethau Cyfreithiol, AD, a Democrataidd (copi ynghlwm) sy'n cyflwyno'r sefyllfa gyfreithiol mewn perthynas â diogelu enwau lleoedd ac enwau strydoedd Cymraeg yn Sir Ddinbych.

**11.00 – 11.50 a.m.**

**7 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR CRAFFU** (Tudalennau 85 - 106)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynydd Craffu (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am faterion perthnasol.

**11.50 – 12.10 p.m.**

**8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR**

Derbyn y wybodaeth ddiweddaraf gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar Fyrddau a Grwpiau amrywiol y Cyngor.

**12.10 – 12.15 p.m.**

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Y Cynghorydd Huw Williams (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Graham Timms (Is-Gadeirydd)

Brian Blakeley
Gwyneth Ellis
Alan Hughes
Hugh Irving
Tina Jones
Merfyn Parry
Anton Sampson
Peter Scott
Cheryl Williams

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

**Cod Ymddygiad Aelodau**

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

| | |
|---|---|
| Rwyf i,<br>(enw) | |
| *Aelod /Aelod cyfetholedig o<br>*(*dileuer un)* | **Cyngor Sir Ddinbych** |

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
*(*dileuer un)*

| | |
|---|---|
| Dyddiad Datgelu: | |
| Pwyllgor (nodwch): | |
| Agenda eitem | |
| Pwnc: | |
| Natur y Buddiant:<br>*(Gweler y nodyn isod)** | |
| Llofnod | |
| Dyddiad | |

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU**

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd trwy gynhadledd fideo ddydd Iau, 9 Rhagfyr 2021 am 10.00am.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Brian Blakeley, Alan Hughes, Hugh Irving, Tina Jones, Merfyn Parry, Anton Sampson, Peter Scott, Glenn Swingler, Graham Timms (Is-gadeirydd) a Cheryl Williams.

Y Cynghorydd Brian Jones - Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd
Y Cynghorydd Mark Young, Aelod Arweiniol Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd, Cymunedau Mwy Diogel a Cham-drin Domestig.

Arsylwyr – y Cynghorwyr Gwyneth Ellis, Christine Marston, Gwyneth Kensler, Meirick Lloyd Davies ac Emrys Wynne.

Roedd y Cynghorydd Barry Mellor yn bresennol ar wahoddiad y Pwyllgor i gyflwyno eitem 9 ar y rhaglen.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd (Swyddog Monitro) (GW), Peiriannydd Risg Llifogydd (WH), Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol (TW), Rheolwr Gwastraff ac Ailgylchu (TD), Pennaeth Cynllunio a Gwasanaethau Cyhoeddus (EJ), Pennaeth Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata (LG), Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai (AL), Cydlynydd Craffu (RhE) a Gweinyddwyr Pwyllorau (SJ ac RTJ).

**1 YMDDIHEURIADAU**

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd Huw O Williams (Cadeirydd). Cadeiriwyd y cyfarfod gan yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Graham Timms yn ei absenoldeb.

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o gysylltiad ar y cam hwn. Datganodd y Cynghorydd Merfyn Parry gysylltiad personol yn ystod eitem 6: 'Diweddariad Cyffredinol ar y Model Gweithredu Gwastraff ac Ailgylchu Newydd a chynnydd o ran Cyfathrebiadau'.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Nid oedd unrhyw faterion brys wedi'u codi gyda'r Cadeirydd na'r Is-gadeirydd cyn y cyfarfod.

**4 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar 21st Ionawr 2021.

Materion yn codi:

Dywedodd y Cynghorydd Brian Blakeney ei fod wedi cyflwyno ei ymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod ond nad oedd hynny wedi'i nodi yn y cofnodion.

Cyfeiriodd y Cydlynydd Craffu'r aelodau at y ddogfen 'Briff Gwybodaeth' a ddosbarthwyd yn gynharach yn yr wythnos a oedd yn rhoi diweddariad ar y camau gweithredu neu'r ceisiadau a ddeilliodd o'r cyfarfod uchod a chynnydd o ran eu gweithredu a'u darparu. Felly:

***Penderfynwyd:* - yn amodol ar nodi'r ymddiheuriad uchod, bod cofnodion y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2021 yn cael eu derbyn a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.**

**5 GWEITHGAREDD YMGYSYLLTU Â'R GYMUNED/BUDD-DDEILIAID AR GYFER CYNLLUNIAU AMDDIFFYN YR ARFORDIR POSIBL YNG NGHANOL Y RHYL A CHANOL PRESTATYN**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd, ar y cyd â'r Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd a'r Amgylchedd a'r Peiriannydd Risg Llifogydd y gweithgaredd ymgysylltu â Rhanddeiliaid/Cymunedau ar Gynlluniau Amddiffyn yr Arfordir posibl ar gyfer Canol y Rhyl a Chanol Prestatyn (a ddosbarthwyd eisoes).

Yn ystod y cyflwyniad eglurodd yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion bod Craffu wedi gofyn am yr adroddiad er mwyn cael gwybodaeth am gasgliadau'r ymgynghoriad cymunedol. Diolchwyd i Matthew Hazelwood – Rheolwr Prosiect a oedd wedi cadeirio'r holl gyfarfodydd yn y Rhyl ac wedi gwneud llawer o waith ar y cynllun.

Dywedwyd wrth yr aelodau bod sesiwn ymgynghori 'galw heibio' gyhoeddus ar gynllun amddiffyn arfordir Canol Prestatyn i'w chynnal ar 13 Rhagfyr 2021. Atgoffodd swyddogion yr aelodau bod adroddiad blaenorol wedi'i gyflwyno i'r aelodau ac y gwnaed cais am adroddiad dilynol ar yr ymarfer ymgysylltu.

Mewn ymateb i gwestiynau aelodau'r Pwyllgor rhoddwyd y manylion canlynol:

- Mater technegol yng nghyfarfod diwethaf Grŵp Ardal Aelodau Prestatyn arweiniodd at orfod trefnu'r diweddariad.
- Yng nghlwb golff y Rhyl y mae'r risg pennaf. Bydd cynnal a chadw gweddill y gwaith arfordirol gyda gobaith yn rhoi 50 mlynedd yn fwy o amddiffyniad. Pryder a gododd y swyddogion oedd y twyni yng Ngronant. Roedd archwiliadau a monitro rheolaidd yn digwydd yn y safle a chaiff prosiectau'r dyfodol eu trafod.
- Mae'r ciosgau ger y traeth yn y Rhyl yn cael eu trafod ar hyn o bryd. Mae'r tîm eiddo corfforaethol yn siarad â thenantiaid a gweithredwyr y ciosgau. Ni fydd yn bosibl symud ymlaen â'r cynllun gyda'r ciosgau presennol yn eu lle.

- Mae cydweithio agos yn digwydd gydag adrannau eraill ar gynlluniau posibl ar gyfer promenâd y Rhyl a bydd hyn yn parhau i sicrhau bod yr holl gynlluniau a datblygiadau yn yr ardal yn cydblethu.
- Bydd ymgysylltiad yn parhau drwy ddatblygu'r cynllun gyda phreswylwyr a gweithredwyr busnesau yn yr ardal. Bydd trafodaethau gyda rhanddeiliaid allweddol yn parhau drwy gydol y camau datblygu ac adeiladu ac os bydd angen gellid ystyried cynigion ar gyfer addasiadau fel sy'n briodol.
- Yn ddibynnol ar y tywydd ac amodau'r tir rhagwelir y bydd Cynllun Canol y Rhyl yn cymryd hyd at ddwy flynedd a hanner i'w gwblhau, gyda Chynllun Canol Prestatyn yn cymryd tua thair blynedd i'w gwblhau. Bydd yn rhaid ymgymryd â Chynllun Canol Prestatyn, a fydd yn symud yn ei flaen yn seiliedig ar amodau'r tir yn yr ardal, ar gyflymder arafach.
- Mae gostyngiad mewn carbon wedi'i nodi fel rhywbeth a fydd yn cael effaith gadarnhaol yn yr Asesiadau o Effaith ar Les ar gyfer y ddau gynllun.

Diolchodd aelodau i'r swyddogion a'r contractwyr am eu gwaith ar y cynllun.

Ar ddiwedd y drafodaeth, yn amodol ar y sylwadau uchod:

***<u>Penderfynwyd:</u> - Bod y Pwyllgor -***

***(i) ar ôl archwilio cwmpas a chasgliadau'r ymgynghoriadau gyda rhanddeiliaid a'r cyhoedd ar y cynlluniau, yn argymell i'r Cabinet ei fod yn fodlon â'r modd y cynhaliwyd yr ymgynghoriadau ac â'u casgliadau; a***
***(ii) cadarnhau ei fod, fel rhan o'i ystyriaethau, wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiadau o Effaith ar Les (ynghlwm yn Atodiadau 3a a 3b yr adroddiad).***

**6 Y WYBODAETH DDIWEDDARAF YN GYFFREDINOL A CHYFATHREBU YNGLŶN Â CHYNNYDD Y MODEL GWEITHREDU GWASTRAFF AC AILGYLCHU NEWYDD**

Aeth yr Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd ar y cyd â'r Pennaeth Priffyrdd a'r Amgylchedd a Rheolwr y Gwasanaethau Gwastraff ac Ailgylchu a'r aelodau drwy'r adroddiad (a ddosbarthwyd eisoes). Pwysleisiwyd y cyflwynwyd yr eitem ar y model gwastraff i'r pwyllgor hwn eisoes a bod swyddogion yn awyddus i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd i'r aelodau. Dywedodd yr Aelod Arweiniol y trafodwyd y model gwastraff yn gyntaf ym mis Rhagfyr 2018 oherwydd y pwysau ariannol yr oedd yr awdurdod yn ei wynebu.
Cadarnhaodd y Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol mai'r rheswm dros yr adroddiad oedd rhoi gwybod i'r aelodau ar ba gam yr oedd y model newydd o ran ei ddatblygiad a'i sefydliad, a pha waith sydd wedi digwydd ers y cyflwyniad diwethaf i'r pwyllgor. Mae llawer o waith a chynnydd wedi'i wneud. Mae'r depo newydd yn Ninbych, sydd ar ystâd ddiwydiannol Colomendy, yn ddatblygiad allweddol yn y cynllun. Roedd manteision y prosiect wedi dod yn amlwg mewn ymweliad safle diweddar. Roedd y rhain yn cynnwys y manteision i fusnesau sydd eisoes ar yr ystad - wrth ddatblygu'r tir a ddefnyddiwyd ar gyfer y depo bu modd i'r Cyngor ddatgloi darn o dir y tu ôl i nifer o fusnesau preifat gan roi cyfle i'r busnesau hyn ehangu. Roedd pawb wedi croesawu'r cyfle hwn.

Cafodd yr aelodau adolygiad o bob un o’r atodiadau a ddarparwyd er ystyriaeth a gwybodaeth yr aelodau.

Mewn ymateb i gwestiynau aelodau'r Pwyllgor rhoddodd yr Aelod Arweiniol a’r swyddogion y manylion canlynol:

- Wedi’i gynnwys yn yr adroddiad yn atodiad 2.b roedd tabl yn amlygu'r newidiadau arfaethedig i'r polisïau Casglu Gwastraff Domestig presennol. Pe bai’r Pwyllgor yn cytuno â’r newidiadau arfaethedig byddai’r polisïau newydd yn cael eu cymeradwyo drwy’r broses penderfyniadau dirprwyedig erbyn Mawrth 2022;
- Roedd rhedeg y gwasanaeth bin glas (ailgylchu cymysg) a du (gwastraff gweddilliol) wedi mynd yn ariannol anymarferol. Byddai cyfathrebu gyda phreswylwyr i egluro’r rhesymeg y tu ôl i’r model newydd a'u helpu i ddeall pam ei fod yn cael ei gyflwyno yn hanfodol i weithrediad y trefniadau newydd.
- Roedd y rhesymau dros newid y model a’r system wedi’u trafod mewn manylder cyn i’r penderfyniad i newid gael ei wneud. Roedd y manteision wedi’u nodi yn atodiad 5. Nid oedd y model cyfredol yn gynaliadwy yn ariannol nac amgylcheddol.
- Roedd swyddogion wedi edrych ar, ac wedi dysgu gan awdurdodau eraill a oedd eisoes yn defnyddio modelau ailgylchu a thrin gwastraff tebyg.
- Byddai’r model newydd yn galluogi staff i ennill gwybodaeth newydd a datblygu ac ehangu profiadau. Bydd hefyd yn galluogi cyflogi  mwy o staff ar wahanol lefelau;
- Roedd bwriad i gasgliadau tecstilau fod ar gael ar draws y sir naill ai drwy drefniadau ar y cyd neu gasglwyr CSDd. Dywedwyd wrth yr aelodau y llwyddwyd i gael arian gan Lywodraeth Cymru cyn Covid i ymestyn casgliadau tecstilau i fwy o gartrefi yn y sir ond bod y pandemig wedi oedi hyn.  Gobeithir y bydd y gwasanaeth yn ailgychwyn pan fydd yr economi'n dechrau dod ato’i hun.
- Fel rhan o’r gwasanaeth casglu sbwriel bydd dros 44,000 o aelwydydd yn cael troli bocs. Roedd swyddogion yn teimlo mai sach cardbord fyddai fwyaf addas ar gyfer ailgylchu a bydd y rhain yn cael eu dosbarthu i aelwydydd. Gellid prynu cynwysyddion ailgylchu ychwanegol neu ddarparu sachau ychwanegol.
- Cadarnhawyd y bu rhywfaint o oedi mewn caffael y cerbydau trydanol. Pwysleisiwyd na fyddai hyn yn achosi oedi  yn ngweithrediad y system newydd.
- Mae cost gwaredu gwastraff mewn biniau du yn uwch na chost anfon eitemau i ffwrdd i'w hailgylchu. Bydd ailgylchu mwy o eitemau yn hytrach na’u rhoi mewn bin du yn arbed mwy o arian. Mae’n bwysig felly addysgu preswylwyr am ailgylchu. Mae biniau du a throliau  newydd yn cael eu cynhyrchu o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu.  Mae modd hefyd ailgylchu’r biniau a'r bocsys troli eu hunain (ar wahân i’r fflapiau agor/cau).
- Bydd casgliadau â chymorth yn parhau o dan y model newydd;
- Roedd swyddogion yn teimlo bod angen codi am finiau newydd. Dywedwyd wrth yr aelodau y codir tâl ar hyn o bryd o dan y model presennol am finiau newydd. Fel rhan o roi’r model newydd ar waith bydd yr holl finiau newydd a

roddir i ddechrau yn rhad ac am ddim a bydd cyfnod o 12 mis i bobl wneud cais am finiau gwahanol. Ni chodir tâl am fynd â biniau diangen i ffwrdd o aelwydydd.

- Mae'r contract presennol ar gyfer ailgylchu gwastraff yr awdurdod yn ei le hyn y dyddiad arfaethedig ar gyfer cyflwyno'r model newydd.
- Mae'r term tecstilau yn cyfeirio at unrhyw eitem o ddillad neu bethau wedi'u gwneud o ddefnydd. Byddai'r Co-options, y cwmni sy'n casglu'r tecstiliau yn Sir Ddinbych, yn ailddefnyddio ac yn gwerthu unrhyw eitemau addas ac yn anfon unrhyw beth nad oes modd ei ailddefnyddio i'w ailgylchu. Mae Co-options yn cynnig casgliadau tecstiliau ymyl y palmant yn bennaf yng ngogledd y sir ar hyn o bryd.
- Bydd microsglodion ar finiau yn galluogi adnabod pa fin sy'n perthyn i pa eiddo. Byddai hyn yn galluogi swyddogion i ddynodi materion fel biniau ar goll, eiddo gwag neu aelwydydd sydd ddim yn defnyddio eu biniau. Nid bwriad hyn yw cadw golwg ar yr eitemau sy'n cael eu rhoi mewn biniau. Dechreuodd y broses o gynorthwyo ac addysgu preswylwyr am ailgylchu gyda'r cynllun 'Cadw i fyny a'r Jonesiaid' a lansiwyd yn 2019.
- Nid yw geiriad ffyrdd heb eu mabwysiadu yn y polisi yn newid. Roedd swyddogion yn teimlo fod hwn yn bolisi y bydd angen ailedrych arno pan gaiff y model newydd ei roi ar waith;
- Bydd treial bach gyda biniau â microsglodion yn dechrau yng Ngorllewin y Rhyl ym mis Chwefror 2022 Bydd yr aelodau'n cael adroddiad ar y canlyniadau. Dim ond biniau du a sachau fydd yn cael microsglodyn ar hyn o bryd. Mae nifer o wahanol opsiynau y gellir eu rhoi i preswylwyr ac mae swyddogion yn hapus i asesu eu hanghenion.
- Mae'r Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd yn rhoi arweiniad ar gyfer preswylwyr a busnesau. Mae'n rhoi gwybodaeth i'r awdurdod ar gamau gorfodi. Mae contract gorfodi yn ei le gyda District Enforcement ar gyfer patrolau sbwriel a baw cŵn.
- Awgrymwyd bod aelodau etholedig yn cael profiad o'r 'gwasanaeth safonol' ym mis Chwefror a mis Mawrth 2022. Byddai hyn yn caniatáu i aelodau sydd ar hyn o bryd yn defnyddio'r gwasanaeth bin glas/du ymyl y palmant brofi'r gwasanaeth newydd am wyth wythnos. Byddai adborth defnyddwyr ar y gwasanaeth 'newydd' yn ddefnyddiol i gynllunio ar gyfer gweithrediad llawn y gwasanaeth maes o law.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion a'r Aelod Arweiniol am yr ymateb manwl i bryderon a chwestiynau'r aelodau.

Ar ôl i'r Pwyllgor ystyried y wybodaeth fanwl a gyflwynwyd i'r aelodau ac ar ôl trafodaeth fanwl ar y cynnwys

***<u>Penderfynwyd:</u>* - yn amodol ar y sylwadau uchod -**

***(i) nodi'r cynnydd y mae Tîm y Prosiect wedi'i wneud hyd yma er mwyn cyflwyno'r Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu newydd i breswylwyr erbyn haf 2023.***

***(ii) cymeradwyo'r gyfres o bolisïau gwastraff cartref ac ailgylchu (Atodiad II) a nodi bwriad y Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol i***

***sicrhau y caiff y polisïau eu mabwysiadu drwy'r broses penderfyniadau dirprwyedig erbyn mis Mawrth 2022, a***

***(iii)gofyn bod y Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol yn cyflwyno adroddiad arall i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar ganlyniadau'r prosiectau peilot yng Ngorllewin y Rhyl (defnyddio microsglodion mewn cynwysyddion gwastraff), Bron y Crêst (newid i'r gwasanaeth biniau cyffredin) a mentrau Profiad Ailgylchu Aelodau Etholedig.***

## 7 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Cyflwynodd y Cydlynydd Craffu (SC) adroddiad (wedi'i rannu eisoes) yn gofyn i'r aelodau adolygu Rhaglen Waith y Pwyllgor ac yn rhoi diweddariad ar y materion perthnasol.

Cafwyd trafodaeth ar y materion canlynol:-

- Dywedodd SC y bydd pedair eitem bwysig yn cael ei thrafod yn y cyfarfod nesaf. Ni soniwyd am unrhyw eitemau eraill ar gyfer y cyfarfod hwn.
- Ni chyfeiriwyd unrhyw eitemau ychwanegol o'r cyfarfod diwethaf o Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2021.
- Yn y cyfarfod diwethaf y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu, trafododd yr aelodau'r posibilrwydd o beidio cynnal cyfarfodydd Craffu yn y cyfnod cyn yr etholiad ym mis Mai 2022. Yn y 6 wythnos cyn yr etholiadau ni fyddai unrhyw benderfyniadau cynhennus yn cael eu gwneud. Cytunwyd na fyddai cyfarfodydd Craffu yn cael eu cynnal yn ystod y cyfnod hwnnw oni bai bod eitem frys yn codi. Bydd cyfarfod olaf y Pwyllgor hwn cyn y cyfnod cyn-etholiad hwnnw yn cael ei gynnal ar 10 Mawrth 2022.
- Atgoffwyd yr aelodau bod angen iddynt lenwi ffurflen cynnig pwnc craffu os oes unrhyw fater y maent am iddo gael ei archwilio mewn manylder.
- Rhoddodd SC ddiweddariad i'r aelodau o'r cyfarfod diwethaf ar Ffos y Rhyl a Gwter Prestatyn ac a yw'r awdurdod yn berchennog ar unrhyw dir torlannol yno. Cadarnhaodd SC mai perchnogion y tir sy'n gyfrifol am gynnal ffiniau sy'n cyffinio â'r ffos/gwter. Yn yr adroddiad a gafodd yr aelodau roedd lluniau'n dangos y tir sy'n eiddo i CSDd.

Felly:

***<u>Penderfynwyd:</u>  - Yn amodol ar y sylwadau uchod y dylid cymeradwyo rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor***

## 8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Ni chafwyd unrhyw adborth gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar unrhyw rai o Fyrddau na Grwpiau'r Cyngor.

**Ar y pwynt hwn (12.05 p.m.) cafwyd egwyl am 55 munud.**

**Ailddechreuodd y cyfarfod am 13.00 p.m.**

## 9 ASESIAD LLETY SIPSIWN A THEITHWYR SIR DDINBYCH (2021)

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd, Cymunedau Mwy Diogel a Cham-drin Domestig ochr yn ochr â'r Pennaeth Cynllunio, Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad, y Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai a'r Cynghorydd Barry Mellor, Cadeirydd y Grŵp Tasg a Gorffen Asesu Anghenion Llety Sipsiwn a Theithiwyr adroddiad ar y broses a ddilynwyd i ymgymryd ag Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Sir Ddinbych (2021). Hefyd ynghlwm â'r adroddiad (a ddosbarthwyd eisoes) roedd yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr drafft ar gyfer Sir Ddinbych.

Rhoddodd yr Aelod Arweiniol Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd, Cymunedau Mwy Diogel a Cham-drin Domestig ychydig o gefndir i'r Pwyllgor ar gynhyrchiad yr adroddiad. Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn rhoi dyletswydd gyfreithiol ar Awdurdodau Lleol i asesu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr (Adran 101) ac yna bodloni'r anghenion hynny (Adran 103). Mae yna ofyniad cyfreithiol (Deddf Tai (Cymru) 2014 i gynnal Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr o leiaf bob 5 mlynedd felly roedd yn ofynnol yn awr i'r Cyngor gynnal Asesiad newydd. Mae Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr diweddar hefyd yn ofynnol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr i Lywodraeth Cymru yw 24 Chwefror 2022.

Mae dull rheoli prosiectau cadarn wedi'i fabwysiadu drwy sefydliad Bwrdd Prosiect o dan arweiniad Aelod, gyda'r Arweinydd a'r Aelod Arweiniol yn gweithio gydag Uwch Swyddogion i gyfeirio'r gwaith i sicrhau ymgysylltiad Aelodau, agoredrwydd a thryloywder drwy gydol y broses.

Roedd Aelodau Etholedig a'r Pwyllgor Craffu wedi codi pryderon eisoes ynghylch y lefel o ymgynghoriad gyda chymunedau Sipsiwn a Theithwyr a'r angen i ymgysylltu'n gynnar gyda'r Aelodau. O ganlyniad i hyn, yn ei gyfarfod ar 13 Mai 2021, cytunodd y Pwyllgor Craffu Cymunedau y dylid sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen i ddarparu cefnogaeth ar gyfer datblygiad y Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr newydd.

Dywedodd y Cynghorydd Barry Mellor, Caderydd y Grŵp Tasg a Gorffen wrth y Pwyllgor bod y Grwŵp Tasg a Gorffen wedi cyfarfod chwe gwaith. Roedd ei drafodaethau wedi cynnwys pob agwedd ar fethodoleg Llywodraeth Cymru. Edrychwyd ar ar gynnydd yr asesiad, cyfathrebiadau â rhanddeiliaid a chasgliadau'r adroddiad Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr drafft. Roedd eu hadroddiad terfynol ynghlwm wrth yr adroddiad fel Atodiad 1.

Roedd y Briff Gwaith a'r Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid yn cynnwys gweithgareddau i ddiwallu gofynion methodoleg Llywodraeth Cymru yn ogystal â gweithgareddau ychwanegol a ddynodwyd fel rhai pwysig i'r Cyngor, Roedd y rhain yn darparu'r fframwaith ar gyfer ymgymryd â'r Asesiad o Anghenion Llety. Roedd yr amrywiaeth o weithgareddau ychwanegol yn cynnwys arolwg ar-lein ar gyfer aelodau ac aelodau'n chware rhan mewn hyrwyddo'r arolwg – sicrhau bod aelodau'n fwy ymgysylltiedig o'r camau cynharaf. Fe wnaeth penodiad Swyddog Cyswllt Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ystod mis Awst hefyd sicrhau bod teuluoedd teithiol oedd yn y sir yn ystod cyfnod yr Asesiad wedi cael gwybod amdano.

I gloi dywedodd y Cynghorydd Barry Mellor bod casgliadau ac argymhellion drafft yr Asesiad o Anghenion wedi'u cyflwyno i'r Grŵp Tasg a Gorffen yn ei gyfarfod ar 15 Tachwedd. Yn y cyfarfod hwnnw cytunodd y Grŵp eu bod yn fodlon y defnyddiwyd methodoleg Llywodraeth Cymru yn briodol wrth ddadansoddi'r angen a bod y gweithgareddau ychwanegol a nododd Craffu eisoes wedi'u hymgymryd â nhw. Er bod y gwaith wedi gofyn am gryn ymrwymiad gan y Grŵp Tasg a Gorffen yn ystod y misoedd diwethaf, roedd pawb yn teimlo bod y dull o weithredu wedi gweithio'n dda. O ganlyniad, roedd y Grŵp wedi gwneud cais bod dull tebyg cael ei fabwysiadu yn y dyfodol wrth ystyried safleoedd posibl ar gyfer lleiniau.

Diolchodd yr Aelod Arweiniol Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd, Cymunedau Mwy Diogel a Cham-drin Domestig i'r Cynghorydd Mellor a'r Grŵp Tasg a Gorffen am eu holl waith caled. Aeth ati wedyn i gyflwyno casgliadau'r Asesiad sef:

- bod angen 8 llain breswyl i ddiwallu anghenion dynodedig 3 aelwyd/grwpiau teulu estynedig yn y sir, a
- nad oes tystiolaeth o'r angen am safle tramwy parhaol oherwydd niferoedd isel gwersylloedd diawdurdod, natur tymor byr y math yma o wersylloedd a'r ffaith nad oedd cyfweliadau gyda'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr wedi dynodi'r angen am ddarpariaeth dramwy barhaol yn lleol. Argymhellwyd y gellid datblygu ymhellach y dull seiliedig ar reolaeth a ddefnyddir gyda gwersylloedd diawdurdod yn seiliedig ar arfer gorau o bob rhan o'r DU, a allai gynnwys 'aros drwy drafodaeth'.
- Rhagwelir mai'r twf mewn teuluoedd yn y dyfodol fydd 4 teulu ychwanegol o 2026 i 2033.

Dywedodd yr Aelod Arweiniol Cynllunio, Diogelu'r Cyhoedd, Cymunedau Mwy Diogel a Cham-drin Domestig y byddai'r trafodaethau yn y cyfarfod presennol yn cael eu hadrodd i'r Cabinet ar 14 Rhagfyr a'r bwriad oedd ceisio cymeradwyaeth yn y cyfarfod hwnnw i gyflwyno'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Drafft i Lywodraeth Cymru er cymeradwyaeth.

Trafododd Aelodau'r canlynol mewn mwy o fanylder:

- Holodd y pwyllgor ynghylch is-bennawd 7.5 'Mynd i'r Afael ag Anghenion a Ddynodwyd' yn yr Asesiad o Anghenion Drafft. Gofynnodd yr aelodau am eglurhad ynghylch yr hyn yr oedd 'dymuniad i ddiwallu eu hanghenion eu hunain' yn ei olygu. Dywedodd yr Aelod Arweiniol bod y cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr wedi dweud y byddai'n well ganddynt ddewis eu safleoedd eu hunain yn hytrach na byw ar safleoedd cyhoeddus.
- Holodd y Pwyllgor a allai'r grŵp Tasg a Gorffen barhau â'i waith yn y dyfodol i helpu'r Cyngor i ddewis safleoedd posibl, oherwydd bod gan aelodau'r Grŵp fewnwelediad i anghenion a dymuniadau'r cymunedau hyn. Mewn ymateb, dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd bod cynhyrchu'r Asesiad o Anghenion a dewis safleoedd posibl yn ddwy broses ar wahân. Dywedodd pe bai Grŵp Tasg a Gorffen yn rhan o'r gwaith yna byddai'n rhaid penderfynu yn ystod tymor y Cyngor newydd pa bryd y byddai'r broses honno'n digwydd.

- Eglurodd yr Aelod Arweiniol bod Travelling Ahead (Sefydliad Eiriolaeth Sipsiwn a Theithwyr) yn sefydliad cenedlaethol ond bod ganddo gynrychiolaeth ranbarthol. Roedd y sefydliad wedi ymgysylltu â'r broses asesu ac roedd yn parhau i gysylltu â'r Cyngor.
- Cadarnhawyd unwaith eto mai casgliad yr asesiad oedd nad oes angen safle tramwy parhaol yn yr ardal.

Ar ddiwedd trafodaeth y Pwyllgor:

***Penderfynwyd yn unfrydol: -***

***(i) y dylid cymeradwyo casgliadau'r Grŵp Tasg a Gorffen -***
  - ***(a) bod gwaith ar yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr wedi cwrdd â gofynion y Briff Gwaith a'r Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 26 Gorffennaf; a***
  - ***(b) bod methodoleg Llywodraeth Cymru wedi'i roi ar waith yn briodol ar yr asesiad o anghenion***

***(ii) cadarnhau ei gefnogaeth i'r dull o fabwysiadwyd i gyflawni Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Sir Ddinbych fel un cadarn ac un a oedd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru;***

***(iii) cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 3 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau, ac***

***(iv) argymell i'r Cabinet y dylid cymeradwyo'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr drafft i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.***

Mynegodd y Cadeirydd a'r holl aelodau etholedig a oedd yn bresennol eu diolch i'r Cadeirydd ac aelodau'r Grŵp Tasg a Gorffen am eu gwaith diwyd yn cefnogi cyflawniad y gwaith uchod. Cydnabu'r aelodau bod y broses asesu gyfan wedi cymryd cryn amser ac ymdrech ar ran swyddogion ac aelodau i'w gynllunio, ei fonitro a'i ddarparu i'r safon angenrheidiol.

**Daeth y cyfarfod i ben am 1.30pm**

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Craffu Cymunedau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod** | **20 Ionawr 2022** |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog** | **Y Cynghorydd Brian Jones: Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd / Tony Ward: Pennaeth Priffyrdd a'r Amgylchedd** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Tim Towers: Rheolwr Priffyrdd, Asedau a Risg** |
| **Teitl** | **Polisïau Cynnal a Chadw Priffyrdd ar gyfer Ffyrdd Di-ddosbarth** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Edrych ar bolisi'r Cyngor ar gynnal ffyrdd di-ddosbarth ynghyd â'r meini prawf a'r fformiwla a ddefnyddir ar gyfer dyrannu a gwario'r arian ychwanegol a ddyrannir tuag at ffyrdd yn y sir.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Darparu dealltwriaeth i Aelodau o sut y dilynir y ddyletswydd statudol i gynnal ffyrdd ar gyfer ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel. Mae'r adroddiad yn cynnwys esboniad o'r strategaeth gyffredinol a ddefnyddir er mwyn i unrhyw gyfleoedd cyllid gael yr effaith fwyaf.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad a chadarnhau eu bod yn fodlon y defnyddir y dull cywir o ran cynnal priffyrdd er mwyn cael yr aliniad gorau rhwng y risg i ddefnyddwyr a'r arian sydd ar gael.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae cynnal y ffyrdd yn Ddyletswydd Statudol a osodir gan y Ddeddf Priffyrdd, 1980, ond mae ychydig o ddehongli o ran beth yw'r 'safon' gan fod pob Awdurdod Priffordd (y mae Cyngor Sir Ddinbych yn un ohonynt) yn cael eu cyfyngu gan gyfyngiadau

cyllidebol; adnoddau; y defnydd (a’r math o ddefnydd) y mae’r rhwydwaith yn ei gael; a rhai ystyriaethau eraill. Am y rheswm hwn, mae bob Awdurdod yn gosod ei safonau isafswm mewn Cod Ymarfer. Cymeradwywyd Cod Ymarfer Sir Ddinbych gan y Cabinet ar 21 Ionawr 2020.

4.2. Mae’r cod ymarfer yn cynnwys materion megis hierarchaeth ffyrdd; diffinio nam; cylchoedd arolygu; ac amseroedd ymateb atgyweirio. Mae safon y gwaith cynnal a chadw a nodir yn y cod ymarfer yr un fath ledled y sir, waeth beth fo dosbarth y ffordd h.y. mae twll yn y ffordd yr un fath ar ffordd A ag y mae ar ffordd wledig, ac mae’r amser atgyweirio diffiniedig yr un fath hefyd. Yr unig wahaniaeth yw nifer yr archwiliadau; mae ffyrdd gwledig di-ddosbarth yn cael eu harchwilio yn ffurfiol ddwywaith y flwyddyn, ac mae ffyrdd trefol di-ddosbarth yn cael eu harchwilio bob tri mis.

4.3. Mae gan Sir Ddinbych 1,418 cilometr o ffyrdd a dengys y tabl isod gynnwys y rhwydwaith o ran dosbarthiad ffyrdd a’r rhaniad rhwng gwledig a threfol. Mae’r ffigyrau mewn cilometrau.

| Dosbarthiad | Trefol | Gwledig | Cyfanswm |
|---|---:|---:|---:|
| **Ffyrdd A** | 29.7 | 110.1 | 139.8 |
| **Ffyrdd B** | 18.2 | 115.5 | 133.7 |
| **Ffyrdd C** | 31.7 | 489.9 | 521.6 |
| **Di-ddosbarth** | 222.2 | 401.2 | 623.4 |
| **Cyfanswm** | **301.8** | **1116.7** | **1418.5** |

4.4. Ni ystyrir ffyrdd A a B yn yr adroddiad hwn. Mae’r Cyngor yn cynnal arolwg o 50% o’u ffyrdd C bob blwyddyn a gwneir hyn trwy ddefnyddio offer arbenigol gan gyflenwr allanol. Dengys hyn y gyfran o ffyrdd mewn cyflwr ‘Gwael’ (y diffiniad yw angen gwaith cynnal yn fuan). Yn 2017, roedd y ffigwr hwn yn 10.2%, a wellodd i 8.3% yn 2019, a gwella ymhellach yn 2021 pan roedd yn 7.6%. Fodd bynnag, mae 7.6% o ffyrdd C dal yn gyfwerth â 40 cilometr o ffyrdd sydd angen gwaith.

4.5. Mae'n llawer anos gwerthuso cyflwr ffyrdd di-ddosbarth ond, ers 2011, rydym wedi defnyddio system pwyntiau yn seiliedig ar ymddangosiad gweledol gyda sgoriau uchel yn golygu bod yr arwyneb yn wael yn weledol h.y. twll yn y ffordd ac angen trwsio / arwyneb newydd. Yn anffodus, oherwydd Covid, roedd rhaid atal y dull hwn am rai misoedd felly nid yw gwerthusiad diweddar ar gael. Fodd bynnag, dangosodd y tuedd diweddaraf (ar ôl gwelliant o 2011 i 2016) fod y ffyrdd hyn yn gwaethygu. Disgwyliwn y bydd ffigyrau newydd yn dangos bod y ffyrdd yn ôl i, neu'n waeth na, sefyllfa 2011.

4.6. Mae'r holl werthusiadau yn dangos fod gwahaniaeth amlwg rhwng cyflwr ffyrdd trefol a rhai gwledig, gyda'r rhai tu allan i'r cyfyngiad 30 milltir yr awr y rhai gwaethaf. Felly mae'r prif feysydd o bryder yn ymwneud â ffyrdd gwledig, sy'n ffurfio cyfran llawer mwy o'r rhwydwaith, fel y gwelir yn y tabl yn 4.3. Mae ein gwerthusiad ni hefyd o ganlyniad i'r gwahaniaeth mewn ymholiadau a gawn gan breswylwyr a defnyddwyr ffyrdd ble mae'r pwyslais eto ar dyllau yn y ffyrdd tu allan i'r trefi.

4.7. Gofynnodd y Pwyllgor am feini prawf a/neu fformiwla ar gyfer dyrannu cyllid, ond mae hyn yn anodd ei grynhoi i rywbeth penodol. Yn hanesyddol, mae'r Rheolwr Asedau wedi penderfynu pa ffyrdd fydd yn mynd ar y rhaglen ac, ar ôl cysylltu'r rhain â'r gyllideb oedd ar gael, wedi cytuno ar y rhestr hon gyda'r holl Gynghorwyr. Ni chofnodwyd y 'meini prawf' ar gyfer penderfynu beth ddylai fod ar y rhestr ac mae'n anodd ei ddiffinio, ond roedd bob amser yn seiliedig ar sicrhau fod o leiaf un ffordd o ansawdd dda ar gyfer y gymuned. Fel arfer hon oedd y cyswllt prysuraf i'r ardal er mwyn i'r nifer uchaf o ddefnyddwyr elwa. Roedd hefyd yn sicrhau bod y risg i ddefnyddwyr yn isel, fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf Priffyrdd. Rhan arall o'r strategaeth oedd trin ffyrdd a oedd ar fin dechrau methu er mwyn targedu'r methiant cyn iddo ddod yn llawer drytach.

4.8. Rhagwelir y bydd arian cyfalaf ychwanegol yn caniatáu mwy o ddefnydd o'r strategau a nodir ym mharagraff 4.5. Fodd bynnag, byddwn hefyd yn defnyddio'r strategaeth flaenoriaethu a gytunwyd ym Mhwyllgor Craffu Perfformiad ar 7 Rhagfyr 2017, ac sydd bellach yng Nghod Ymarfer Priffyrdd CSDd, sef:

a) Byddwn yn canolbwyntio ar strategaeth atal ac yn defnyddio'r cyllid sydd ar gael i ddiogelu cymaint o ffyrdd â phosibl sydd mewn cyflwr eithaf da Mae diogelu/atal dirywiad ffyrdd yn darparu gwell gwerth am arian na'u trwsio

b) Byddwn yn blaenoriaethu triniaethau arwyneb i selio ffyrdd i’w cadw mewn cyflwr da

c) Bydd gwaith llenwi tyllau ac ati yn dal yn rhan bwysig o’r rhaglen

d) Byddwn yn nodi safleoedd lle bydd selio uniadau yn ddigon i atal dirywiad mawr

e) Byddwn yn defnyddio cyllidebau refeniw yn effeithiol er mwyn sicrhau bod systemau draenio yn effeithlon i gadw cymaint o ddŵr â phosibl oddi ar y ffyrdd

f) Byddwn yn defnyddio’r peiriant Jetpatcher i drin ffyrdd gwledig sydd wedi dirywio

g) Byddwn yn gweithio gyda gwasanaethau eraill i gael y gwerth gorau yn defnyddio’r cyllid sydd ar gael

h) Byddwn yn ceisio cael cyllid gan Lywodraeth Cymru i fynd i’r afael â materion sylweddol nad ydym yn gallu eu cyllido

4.9. Mae’r adroddiad hwn hefyd yn gyfle i hysbysu Aelodau fod y Gwasanaeth hefyd yn edrych ar strategau eraill a ddylai hefyd olygu gwell cynnal a chadw dros y blynyddoedd nesaf. Mae gwagu gylïau, clirio ac ysgubo ffosydd i gyd yn cael eu hariannu gan refeniw, yn ogystal â llenwi tyllau yn y ffyrdd. Ein nod yw cael llai o dyllau yn y ffyrdd (oherwydd gwell arwynebau ffyrdd) ac yna gellir buddsoddi’r arian hwn (yn rhannol) mewn gweithgareddau eraill i gefnogi cynnal a chadw cyffredinol. Yn ogystal â hyn, rydym yn bwriadu targedu systemau draenio problemus yn fwy effeithiol er mwyn cadw dŵr oddi ar y ffyrdd a lleihau dirywiad. Eleni rydym eisoes wedi cychwyn strategaeth o gau rhannau o ffyrdd er mwyn gwneud mwy o waith sylfaenol megis trwsio arwyneb ffordd, clirio ceuffos a gwelliannau ffosydd er mwyn cyflawni buddion mwy hirdymor. Dros amser, wrth i’r rhwydwaith wella oherwydd gwell buddsoddiad, bydd hyn yn cael ei ymestyn er mwyn cael gwell gwerth am arian.

4.10. Er bod yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ffyrdd gwledig, mae’n bwysig nodi bod y strategau a nodir yn yr adroddiad hwn ar gyfer pob ffordd gan eu bod oll yn dod o dan yr un Ddyletswydd. Bydd y cyllid cyfalaf ychwanegol, ynghyd â newid canolbwynt, yn caniatáu i ni ddatblygu rhwydwaith ffordd cadarn o ansawdd da ledled y sir. Er fod hwn yn nod hirdymor, mae ein strategaeth yn un a fydd hefyd yn cyflawni buddion byr dymor a groesawir gan breswylwyr cyn gynted ag y byddant yn

dod yn ymwybodol fod gwaith ar fin digwydd ar nifer o’r ffyrdd problematig hirdymor bu rhaid iddynt eu defnyddio.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae “Buddsoddi mewn ffyrdd a phontydd i gynnal isadeiledd hyfyw, cynaliadwy” yn ymrwymiad amlwg yn y Cynllun Corfforaethol cyfredol, ac yn ffurfio rhan o’r Flaenoriaeth Gorfforaethol Cysylltu Cymunedau.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw effaith sylweddol ar wasanaethau eraill. Bydd y drefn a nodir yn y papur hwn yn cael ei chyflawni o fewn cyllidebau sy’n bodoli.

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o’r Effaith ar Les?

7.1. Ni ofynnir am benderfyniad yn yr adroddiad hwn, felly ni chynhaliwyd Asesiadau Effaith ar Les.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae egwyddorion y dull hwn wedi eu trafod gydag Aelodau ar sawl achlysur, yn cynnwys: Pwyllgor Craffu Perfformiad ar 7 Rhagfyr 2017; Cabinet ar 21 Ionawr 2020 (ble cymeradwywyd Cod Ymarfer CSDd); Gweithdy Aelodau ar 9 Chwefror 2021; ac yn flynyddol ym mhob cyfarfod Grŵp Ardal Aelodau ble ymgynghorir ar y Rhaglen Gyfalaf flynyddol.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Mae'r Cyngor wedi darparu £4 miliwn ar gyfer Priffyrdd yn 2021/22 ac mae'r cynigion y gyllideb sy’n mynd i’r Cabinet a’r Cyngor yn Ionawr yn darparu £4 miliwn yn ychwanegol ar gyfer 2022/23. Mae dyhead i ddarparu £4 miliwn arall am y 3 mlynedd wedi hynny. Byddai hyn yn golygu buddsoddiad sylweddol a fyddai, er y'i croesawir, yn cael effaith ar allu'r Cyngor i ariannu prosiectau eraill. Mae’n amlwg fod gan y Gwasanaeth y sgiliau a'r gallu technegol i sicrhau bod y cyllid hwn yn cael ei flaenoriaethu’n effeithiol ac y cyflawnir gwerth am arian. Credaf fod yr adroddiad hwn yn ffurfio rhan hanfodol o’r sicrwydd hwnnw ac fe’i croesawir.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae’r cynnig a nodir yn y papur hwn wedi ei ddylunio'n benodol i reoli risg, yn unol â’n dyletswydd o dan y Ddeddf Priffyrdd.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000.

11.2. Mae Adran 7.4.1 Cyfansoddiad y Cyngor yn manylu ar bwerau’r Pwyllgor Craffu o ran datblygu ac adolygu polisi.

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Craffu Cymunedau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **20 Ionawr 2022** |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog:** | **Y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Tim Dillon, Arweinydd Tîm Lleoedd, Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd** |
| **Teitl:** | **Diogelu Enwau Lleoedd Cymraeg yn Sir Ddinbych** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Ystyried sefyllfa gyfreithiol mewn perthynas â diogelu'r Gymraeg o ran enwau lleoedd a strydoedd ac os yw'r cyngor yn bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol. Yn benodol, ystyried na ddylai enwau Cymraeg gael eu newid neu eu disodli gydag enwau Saesneg.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Egluro dyletswyddau a rôl y Cyngor i ddiogelu enwau lleoedd Cymraeg a hanesyddol yn y sir.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod yr Aelodau yn trafod cynnwys yr adroddiad; a

3.2. chadarnhau eu bod yn fodlon fod y Cyngor yn defnyddio ei holl bwerau o ran diogelu enwau Cymraeg a hanesyddol yn yr amgylchedd naturiol ac adeiledig.

# 4. Manylion yr adroddiad

## Cefndir

4.1. Mae Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 (“y Ddeddf”) yn nodi fod rhaid i Weinidogion Cymru lunio a chadw cofnod amgylchedd hanesyddol cyfredol ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Mae cofnodion amgylchedd hanesyddol o’r fath, yn rhannol, er wyn diogelu treftadaeth a’r iaith Gymraeg.

4.2. Mae’r Ddeddf (yn ogystal â’r Canllawiau a nodir isod) hefyd yn nodi sut all awdurdodau lleol ac eraill gyfrannu i gofnodion amgylchedd hanesyddol a sut ddylent ddefnyddio’r cofnodion hyn i ymarfer eu swyddogaethau.

4.3. Mae cofnodion amgylchedd hanesyddol yn cynnwys holl agweddau amgylchynol sydd wedi ei adeiladu, ffurfio neu ddylanwadu gan weithgarwch dynol o’r cyfnodau cynharaf i’r mwyaf diweddar. Mae cofnodion amgylchedd hanesyddol yn cael eu cadw a’u diweddaru er lles y cyhoedd a gall unrhyw un gael mynediad atynt. Mae cofnodion amgylchedd hanesyddol Cymru yn cynnwys gwybodaeth am dirluniau, adeiladau, a safleoedd a darganfyddiadau archeolegol hanesyddol, yn ogystal â chofnodion o ymchwiliadau a rheolaeth yr amgylchedd hanesyddol megis cloddiadau archeolegol, astudiaethau hanesyddol a rhaglenni cadwraeth. Byddai’r cofnodion amgylchedd hanesyddol yn ymestyn i enwau lleoedd a gynhelir gan Weinidog Cymru.

4.4. Mae’r cofnodion amgylchedd hanesyddol wedi’u rhannu i 4 rhanbarth Cymru. Maent yn cynnwys cofnod amgylchedd hanesyddol Clwyd-Powys sy’n cynnwys Sir Ddinbych yn ogystal â Sir y Fflint, Wrecsam, Powys a rhan o Gonwy.

## Cyfrifoldebau’r Awdurdod Lleol

4.5. Yn gymwys yma, mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb am enwi ac ailenwi lleoedd yn eu hardal. Mae ganddynt hefyd rôl statudol allweddol i ystyried cynigion i enwi lleoedd neu strydoedd newydd, yn ogystal â cheisiadau i newid enwau strydoedd ac eiddo. Mae’r ddarpariaeth cyfreithiol ar gyfer hyn rhinwedd Deddf Iechyd Cyhoeddus 1925 (ar gyfer enwi strydoedd) a Deddf Cymalau Gwella Trefi 1847 (ar gyfer rhifo eiddo).

4.6. Yn benodol, mae gan awdurdodau lleol o dan y Ddeddf ddyletswydd i roi ystyriaeth a sylw dyledus i'r cofnod amgylchedd hanesyddol a'r rhestrau sydd ynddo wrth enwi neu ailenwi lleoedd a cheisiadau mewn perthynas ag enwi strydoedd ac eiddo. Byddai hynny yn sicrhau fod yr enw yn gyson gyda threftadaeth a hanes lleol yr ardal.

4.7. Yn ei hanfod, y ddyletswydd gyfreithiol sydd ar awdurdodau lleol yw ystyried cofnod amgylchedd hanesyddol a'i restr yn unig. Fodd bynnag, nid oes dyletswydd penodol i lynu'n llym at enwau Cymraeg.

## Canllawiau

4.8. O dan Ganllawiau Statudol Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru: Llunio a Defnydd ("y Canllawiau") sy'n cefnogi'r Ddeddf, mae canllawiau penodol yn cael ei roi i'r awdurdodau lleol yng nghyd-destun enwi ac ailenwi strydoedd ac eiddo. Mae'r Canllawiau yn y rhan Atodiad yn nodi:-

*Bydd y Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol, sydd ar gael drwy'r cofnodion amgylchedd hanesyddol, yn helpu'r awdurdodau lleol wrth iddynt ystyried ceisiadau i enwi ac ailenwi strydoedd ac eiddo.*

Mae Atodiad y Canllawiau yn cyfeirio at bolisïau awdurdod lleol priodol sydd mewn lle:-

*Dylai fod gan bob awdurdod lleol yng Nghymru bolisïau ar enwi a rhifo strydoedd ac eiddo.*

Yna mae'n nodi, *dylai'r polisïau hyn gydnabod pwysigrwydd enwau lleoedd hanesyddol yn yr amgylchedd hanesyddol lleol, a dylid annog pobl i barhau i'w defnyddio, naill ai'n sail ar gyfer enwau newydd neu drwy gadw enwau sy'n bodoli eisoes.*

Yng nghyd-destun newid enwau eiddo, mae Atodiad y Canllawiau yn nodi:-

*Wrth ystyried ceisiadau i newid yr enw a ddefnyddir yng nghyfeiriad ffurfiol eiddo, dylai'r awdurdod lleol bellach gyfeirio hefyd at y rhestr o enwau lleoedd hanesyddol.*

Yng nghyd-destun newid enwau strydoedd, mae Atodiad y Canllawiau yn nodi:-

*Yr awdurdodau lleol sy’n gyfrifol am enwi strydoedd newydd y bydd angen eu cofnodi yn y Rhestr Tir ac Eiddo Lleol. Mae Llywodraeth Cymru yn annog yr awdurdodau lleol i ddefnyddio enwau lleoedd hanesyddol yn sail ar gyfer enwi strydoedd newydd neu ddatblygiadau eraill pryd bynnag y bo modd. Wrth ystyried cais gan ddatblygwr i enwi lle newydd, dylai’r awdurdod lleol gyfeirio at y rhestr o enwau lleoedd hanesyddol. Os oes enw hanesyddol priodol (er enghraifft, enw sy’n deillio o enw hanesyddol ar gyfer cae neu anheddiad), yna bydd y datblygwr yn cael gwybod hynny ac yn cael ei annog i’w ddefnyddio. Mater i’r awdurdod lleol yw’r penderfyniad terfynol ar enwi stryd.*

## Polisi

4.9. Yn eithaf diweddar mae Cyngor Sir Ddinbych wedi diweddaru eu polisi Enwi a Rhifo Strydoedd (“y Polisi”). Cafodd ei gymeradwyo gan y Cabinet a’i gyhoeddi yn Ionawr 2021. Diweddarwyd y Polisi i ddarparu strydoedd enwau Cymraeg yn unig ac na ddylid enwi ar ôl unigolion penodol.

4.10 Yn ei hanfod, mae’r Polisi yn nodi ei fod yn ddarostyngedig i’r darpariaethau a gynhwysir o fewn y Ddeddf. Mae’r Polisi yn cynnwys ystyriaethau Cymraeg allweddol yng nghyd-destun enwi strydoedd. Mae 5.3 y Polisi yn nodi:-

*Mae cynllun iaith Gymraeg yr Awdurdod yn sicrhau bod y Gymraeg a’r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal.*

Yn bwysig, ac yn hynod o berthnasol mae 5.4 y Polisi yn nodi:-

*Y polisi mewn perthynas ag enwau strydoedd fydd mabwysiadu enw Cymraeg sy'n cyd-fynd â threftadaeth leol a hanes yr ardal.*

## Cymhwyso swyddogaethau

4.11 Fe wnaeth ymgynghoriad â swyddogion y cyngor ac yn benodol, y swyddogion Datblygu Cymunedol sy’n rheoli ceisiadau o’r fath ac sy’n defnyddio’r polisi, gadarnhau ymlyniad tuag at y Polisi a’r Ddeddf, gan gynnwys ymlyniad penodol at ofynion y Gymraeg.

4.12 Cadarnhaodd y swyddogion, ers i’r Polisi gael ei fabwysiadu’r ffurfiol roedd dau achos lle gofynnwyd i’r tîm am gyngor a chyfarwyddyd mewn perthynas ag ailenwi

stryd a rhoi enwau newydd ar ffyrdd. Cawsom wybod bod y cyntaf yn drigolyn unigol a oedd yn dymuno mabwysiadu enw stryd gyda chyfeiriad hanesyddol i'r ardal. Cafodd yr unigolyn ei atgyfeirio at y polisi newydd a chael ei hysbysu fod rhai i unrhyw enw ar stryd wrth symud ymlaen lynu at y Polisi a bod yn enwau Cymraeg yn unig lle amlygwyd rhagddodiaid stryd Cymraeg i'r unigolyn. Cawsom wybod fod yr ail, a'r achos mwyaf diweddar gan ddatblygwr oedd yn adeiladu cartrefi yng ngogledd y sir ac wedi gofyn am gyngor o ran enwi stryd. Yn debyg i'r uchod, cadarnhaodd y swyddogion eu bod wedi ei atgyfeirio at y Polisi a bydd y datblygwr yn dod yn ôl at y swyddogion gyda chynigion ar gyfer enwau stryd yn fuan.

**Casgliad**

4.13 I gloi, yn dilyn gweithrediad y Polisi newydd ac ar ôl ymgynghori gyda'r swyddogion perthnasol mae'n ymddangos fod Cyngor Sir Ddinbych ar hyn o bryd yn cydymffurfio â'i ofynion cyfreithiol mewn perthynas ag enwi lleoedd a strydoedd. Yn wir, mae darpariaethau'r Polisi yn mynd ymhellach na'r Ddeddf ac yn nodi mai dim ond enwau Cymraeg fydd yn cael eu mabwysiadu ar gyfer enwau strydoedd newydd sy'n gyson gyda threftadaeth a hanes lleol yr ardal. Mae ymgynghoriad gyda swyddogion yn awgrymu er fod y Polisi yn eithaf newydd, mae'n cael ei ddilyn yn llym.

Atodiad A – Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru: Llunio a Defnydd

Atodiad B – Polisi Enwi a Rhifo Strydoedd (Ionawr 2021)

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Gweithio i sicrhau fod y Gymraeg yn ffynnu yn Sir Ddinbych a hyrwyddo gweledigaeth y cyngor ar gyfer y Gymraeg.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Ni ragwelir unrhyw oblygiadau o ran cost, er gwybodaeth yn unig.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Nid yw'n angenrheidiol ac nid yw asesiad effaith yn ofynnol o ystyried natur a chyd-destun yr adroddiad.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. I ddechrau, gyda Rheolwr Datblygu Cynllunio, Swyddogion Datblygu Cynllunio a Swyddogion y Gwasanaethau Democrataidd

8.2. Ymateb gan Ddatblygu Cymunedol sydd wedi ei grynhoi ym mhrif gorff yr adroddiad.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Amherthnasol

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Amherthnasol

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Adran 111 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972

11.2. Mae adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac adran 7.4.1 o Gyfansoddiad Cyngor Sir Ddinbych yn nodi grymoedd Archwilio o ran datblygu ac adolygu polisi.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru: Llunio a Defnyddio

**ATODIAD A**

## Canllawiau Statudol ar sut y dylai Awdurdodau Lleol, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Cyfoeth Naturiol Cymru ddefnyddio Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol a Chyfrannu at eu Llunio



Mai 2017

Cadw

# Datganiad o Ddiben

Mae cofnodion amgylchedd hanesyddol yn rhoi gwybodaeth fanwl am amgylchedd hanesyddol ardal benodol. Lluniwyd y cofnodion amgylchedd hanesyddol yng Nghymru o ganlyniad i ddegawdau o waith ymchwil ac ymchwiliadau. Cânt eu cynnal a'u diweddaru er budd y cyhoedd, a'u defnyddio yn unol â safonau cenedlaethol a rhyngwladol.

Canllawiau statudol yw *Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru: Llunio a Defnyddio,* sy'n esbonio'r canlynol:

- sut y gall cyrff cyhoeddus penodol yng Nghymru gyfrannu at lunio cofnodion amgylchedd hanesyddol a helpu i'w cadw'n gyfredol
- sut y dylai cyrff cyhoeddus penodol yng Nghymru ddefnyddio cofnodion amgylchedd hanesyddol wrth arfer eu swyddogaethau.

Y cyrff cyhoeddus yw:

- awdurdodau lleol yng Nghymru
- awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru.

Rhaid i'r cyrff hyn ystyried y canllawiau statudol hyn, a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan y pwerau yn adran 37 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016.[1]

Mae adrannau 35 a 36 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio cofnod amgylchedd hanesyddol sydd ar gael i'r cyhoedd ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru, a'i gadw'n gyfredol.[2]

Er i'r canllawiau hyn gael eu llunio yn benodol ar gyfer y cyrff a enwir yn adran 37 o'r Ddeddf, byddant yn berthnasol i ystod o gyrff cyhoeddus a gwirfoddol eraill, a chyrff eraill yn y sector preifat, yn ogystal ag unigolion â diddordeb yn amgylchedd hanesyddol Cymru.

Cadw

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Y Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol (Cadw)
Plas Carew
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd CF15 7QQ

Ffôn: 03000 256000
E-bost: cadw@wales.gsi.gov.uk

Cyhoeddwyd gyntaf gan Cadw yn 2017
ISBN Digidol 978 1 4734 8711 6

OGL © Hawlfraint y Goron 2017, Llywodraeth Cymru, Cadw, ac eithrio lle nodir yn wahanol. .WG26919

Gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru yw Cadw, sy'n gweithio i sicrhau bod amgylchedd hanesyddol Cymru yn hygyrch ac yn cael ei ddiogelu'n dda.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Llun y clawr: Mae siambr gladdu Gwern Einion yn heneb gofrestredig yng Ngwynedd (© Hawlfraint y Goron (2017), Croeso Cymru).

# Cynnwys


**Cyflwyniad**

**1 Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol**

1.1 Beth yw Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol?

1.2 At ba Ddiben y Caiff Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol eu Defnyddio?

**2 Rolau a Chyfrifoldebau**

2.1 Gweinidogion Cymru

2.2 Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru

2.3 Awdurdodau Lleol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru a Cyfoeth Naturiol Cymru

2.4 Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

2.5 Beth yw'r Cysylltiad Rhwng Cofnodion Amgylcheddol Hanesyddol a Chofnodion Eraill?

**3 Cynnwys Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru, a Sut y Maent yn cael eu Llunio**

3.1 Cadw Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru yn Gyfredol

3.2 Cynnwys Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru a Rôl Cyrff Cyhoeddus yn y Gwaith o'u Llunio

3.2.1 Asedau Hanesyddol sydd â Gwarchodaeth Statudol neu sydd wedi'u Cofrestru o dan Ddeddfau 1979 neu 1990

3.2.2 Safleoedd Gwrthdaro

3.2.3 Tirweddau Hanesyddol

3.2.4 Safleoedd Treftadaeth y Byd

3.2.5 Safleoedd Eraill o Ddiddordeb Hanesyddol, Archaeolegol neu Bensaernïol

3.2.6 Nodweddion Hanesyddol

3.2.7 Ymchwiliadau Perthnasol

3.2.8 Enwau Lleoedd Hanesyddol

**4 Defnyddio Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru**

4.1 Llywio Polisïau a Chynlluniau Strategol

4.2 Llywio Cynlluniau Datblygu

4.3 Llywio Penderfyniadau ynghylch Rheoli Datblygu

4.4 Llywio Prosiectau Cadwraeth a Rheoli

4.5 Llywio Ymatebion Addasol i Effaith Newid yn yr Hinsawdd

4.6 Llywio'r Gwaith o Enwi ac Ailenwi Lleoedd

4.7 Llywio Gwaith Adfywio a Arweinir gan Dreftadaeth

4.8 Cefnogi Twristiaeth Ddiwylliannol a Datblygu Economaidd

4.9 Cefnogi Addysg a Chynhwysiant Cymdeithasol

4.10 Cefnogi Cyfranogiad y Cyhoedd mewn Archwilio, Gwerthfawrogi a Mwynhau Treftadaeth Leol

4.11 Hybu Gwybodaeth a Dealltwriaeth

**Atodiad**

Canllawiau ar gyfer yr Awdurdodau Lleol ar Ddefnyddio'r Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol sydd ar gael drwy'r Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol

**Cyfeiriadau**

**Rhagor o Wybodaeth**

**Cysylltiadau**

# Cyflwyniad ¬

Ffurfiwyd amgylchedd hanesyddol Cymru gan genedlaethau'r gorffennol. Mae'n dangos o ble y daethom ac yn gwella ein hansawdd bywyd. Mae'r hanes sydd o'n cwmpas yn rhoi ymdeimlad o le i ni ac yn helpu i'n diffinio fel cenedl. Mae'r amgylchedd hanesyddol hefyd yn adnodd bregus, agored i niwed, anadnewyddadwy a chyfyngedig. Dibynna ein huchelgais i warchod a rheoli'r amgylchedd hanesyddol yn effeithiol ar y gallu i gael gwybodaeth awdurdodol o ansawdd da.

O dan ddarpariaethau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 (y Ddeddf),[3] rhaid i Weinidogion Cymru lunio cofnod amgylchedd hanesyddol ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru, a'i gadw'n gyfredol. Rhaid iddynt hefyd sicrhau bod y cofnodion amgylchedd hanesyddol ar gael i'r cyhoedd, a rhoi cyngor a chymorth i'r rhai sydd am gael gafael ar yr wybodaeth a geir ynddynt a'i deall.

Mae'r canllawiau hyn yn esbonio rôl a chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru, ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru, y cyrff cyhoeddus a enwir yn y Ddeddf a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru (y Comisiwn Brenhinol) mewn perthynas â chofnodion amgylchedd hanesyddol yng Nghymru. Mae hefyd yn esbonio sut y gall awdurdodau lleol ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru, a Cyfoeth Naturiol Cymru, gyfrannu at gofnodion amgylchedd hanesyddol a sut y dylent ddefnyddio'r cofnodion hyn wrth arfer eu swyddogaethau.

Er bod y canllawiau hyn wedi'u hanelu at y cyrff cyhoeddus a enwir yn y Ddeddf, maent yn berthnasol i ystod eang o gyrff eraill yn y sector cyhoeddus, a sefydliadau yn y sector preifat a'r trydydd sector. Gall hefyd fod yn ddefnyddiol i unigolion a grwpiau sy'n defnyddio'r cofnodion amgylchedd hanesyddol yn rheolaidd er mwyn ymchwilio i dreftadaeth eu cymunedau eu hunain, neu fel rhan o waith ymchwil neu archwilio personol.

# 1. Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol ¬

## 1.1 Beth yw Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol? ¬

Mae'r amgylchedd hanesyddol yn cynnwys pob agwedd ar yr amgylchedd o'n cwmpas a gafodd ei hadeiladu neu ei ffurfio gan weithgareddau dynol, neu y dylanwadwyd arni gan weithgareddau dynol, o'r cyfnodau cynharaf i'r mwyaf diweddar. Storfeydd o wybodaeth wedi'i threfnu'n systematig am yr amgylchedd hanesyddol mewn ardal benodol yw cofnodion amgylchedd hanesyddol, ac maent yn fynegai at wybodaeth am yr amgylchedd hanesyddol sydd ar gael mewn mannau eraill. Maent yn cael eu cynnal a'u diweddaru er budd y cyhoedd ac maent ar gael i bawb.

Mae cofnodion amgylchedd hanesyddol Cymru yn cynnwys gwybodaeth am safleoedd archaeolegol a thirweddau ac adeiladau hanesyddol, ac yn cyfeirio pobl at wybodaeth o'r fath. Maent hefyd yn cynnwys cofnodion o'r gwaith o reoli'r amgylchedd hanesyddol ac ymchwilio iddo, megis gwaith cloddio archaeolegol, astudiaethau hanesyddol a rhaglenni cadwraeth. Mae cynnwys cofnodion amgylchedd hanesyddol Cymru yn ffrwyth degawdau o gasglu a choladu gwybodaeth o ystod eang o ffynonellau, gan gynnwys gwybodaeth gan y cyhoedd a chanlyniadau gwaith maes archaeolegol.

Mae gwybodaeth allweddol a geir yng nghofnodion amgylchedd hanesyddol Cymru wedi cael ei dwyn ynghyd mewn cronfa ddata ddigidol sydd wedi'i chysylltu â system gwybodaeth ddaearyddol (GIS) sy'n galluogi defnyddwyr i weld yr wybodaeth destunol ochr yn ochr â mapiau. Ategir y gronfa ddata gan ddeunydd cyfeirio cysylltiedig a all fod yn ddigidol neu ar ffurf papur. Gall y deunydd hwn gynnwys ffotograffau o'r awyr, copïau o fapiau ac adroddiadau hynafiaethol cynnar, astudiaethau o nodweddion, adroddiadau heb eu cyhoeddi ('llenyddiaeth lwyd'), a ffynonellau cyhoeddedig a dogfennol eraill. Er hynny, yn wahanol i Gofnodion Henebion Cenedlaethol Cymru (gweler adran 2.4 isod) neu'r swyddfeydd cofnodion sirol, nid yw'r cofnodion amgylchedd hanesyddol yn archifau ffurfiol.

Mae cofnodion amgylchedd hanesyddol yn adnodd deinamig sy'n esblygu'n gyson, ac mae angen eu cadw a'u cynnal ac ychwanegu atynt wrth i wybodaeth newydd am yr amgylchedd hanesyddol ddod i'r amlwg. Fel y cyfryw, ni all cofnodion amgylchedd hanesyddol byth fod yn gofnod terfynol. Mae angen i gofnodion amgylchedd hanesyddol gael eu rheoli gan staff ymroddedig sy'n meddu ar y cymwysterau priodol ac sy'n gallu helpu'r cyrff cyhoeddus a enwir yn y Ddeddf, a'r cyhoedd yn ehangach, i'w defnyddio.

Mae'r cynnwys sylfaenol sy'n ofynnol ar gyfer cofnodion amgylchedd hanesyddol yng Nghymru, fel y'i hamlinellir yn Neddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016,[4] yn cael ei ddisgrifio yn adran 3.2.

## 1.2 At ba Ddiben y Caiff Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol eu Defnyddio? ¬

Mae cofnodion amgylchedd hanesyddol yn rhoi gwybodaeth am amgylchedd hanesyddol Cymru er budd y cyhoedd ac yn cyflawni amrywiaeth eang o swyddogaethau sy'n cynnwys:

- hybu gwybodaeth am yr amgylchedd hanesyddol a dealltwriaeth ohono
- cefnogi'r gwaith o warchod, rheoli a diogelu'r amgylchedd hanesyddol
- llywio polisïau strategol a chynlluniau datblygu
- llywio penderfyniadau ynghylch datblygiadau rheoli
- cefnogi gwaith adfywio a arweinir gan dreftadaeth, gwelliannau amgylcheddol a mentrau twristiaeth ddiwylliannol
- cyfrannu at addysg a chynhwysiant cymdeithasol
- hybu cyfranogiad y cyhoedd mewn archwilio, gwerthfawrogi a mwynhau treftadaeth leol
- hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth am enwau lleoedd hanesyddol.

Defnyddir cofnodion amgylchedd hanesyddol yn ddyddiol gan amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys y cyrff cyhoeddus a enwir yn y Ddeddf, yn ogystal â pherchenogion, datblygwyr, cynllunwyr, ymchwilwyr a'r cyhoedd.

# 2. Rolau a Chyfrifoldebau ¬

## 2.1 Gweinidogion Cymru ¬

O dan adrannau 35 a 36 o'r Ddeddf, mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio cofnod amgylchedd hanesyddol sydd ar gael i'r cyhoedd ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru, a'i gadw'n gyfredol.[5] Rhaid i gyngor a chymorth fod ar gael i'r rheini sydd am gael gafael ar yr wybodaeth mewn cofnodion amgylchedd hanesyddol, a deall yr wybodaeth honno.

Lle Gweinidogion Cymru yw penderfynu pa wybodaeth a gaiff ei chynnwys yn y cofnodion amgylchedd hanesyddol yn unol â manylion y cynnwys a nodir yn adran 35(2) o'r Ddeddf. Yn ymarferol, gan ddefnyddio cytundebau ffurfiol, mae Gweinidogion Cymru wedi dirprwyo'r gwaith o ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwn i'r pedair ymddiriedolaeth archaeolegol yng Nghymru. Mae'r cytundebau yn nodi'r safonau a'r meincnodau y disgwylir i bob un o'r cofnodion amgylchedd hanesyddol eu bodloni.[6]

O dan adran 37 o'r Ddeddf,[7] rhaid i Weinidogion Cymru roi'r canllawiau hyn ar lunio a defnyddio cofnodion amgylchedd hanesyddol i awdurdodau lleol ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru, a Cyfoeth Naturiol Cymru.

## 2.2 Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru ¬

Mae Gweinidogion Cymru wedi dewis cyflawni eu dyletswyddau o dan adrannau 35 a 36 o'r Ddeddf drwy gytundebau ffurfiol gyda'r pedair ymddiriedolaeth archaeolegol yng Nghymru (Clwyd-Powys, Dyfed, Morgannwg-Gwent a Gwynedd).

Mae pob ymddiriedolaeth archaeolegol yng Nghymru yn cynnal cofnod amgylchedd hanesyddol rhanbarthol. Man cychwyn y cofnodion hyn oedd y cofnodion o safleoedd a henebion a sefydlwyd yn y 1970au. Fe'u lluniwyd i helpu'r ymddiriedolaethau gyda'u

rhaglenni gwaith ac mewn ymateb i'r ffaith nad oedd gwybodaeth archaeolegol ar gael i berchenogion, datblygwyr a chynllunwyr, a bod olion archaeolegol yn cael eu colli o ganlyniad i ddatblygu trefol a gwledig.

Gyda'i gilydd, mae'r cofnodion amgylchedd hanesyddol hyn bellach yn adnodd cynhwysfawr ac ynddynt bron 300,000 o gofnodion unigol o ymchwiliadau archaeolegol a safleoedd ac asedau hanesyddol o bob cyfnod ledled Cymru.

Er mai setiau data archaeolegol oedd y cofnodion hyn i ddechrau, maent wedi ehangu yn ystod y blynyddoedd diwethaf i gynnwys rhagor o wybodaeth ar agweddau eraill ar yr amgylchedd hanesyddol, megis tirweddau hanesyddol ac adeiladau hanesyddol. Mae ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru yn parhau i ychwanegu at y cofnodion drwy gydweithio ag eraill, gan gynnwys y cyrff cyhoeddus a enwir yn y Ddeddf.

Gall y cyhoedd gael gafael ar yr wybodaeth graidd a geir yn y cofnodion amgylcheddol hanesyddol ar-lein drwy Archwilio.[8] Fodd bynnag, dylai defnyddwyr gysylltu â'r staff sy'n gyfrifol am yr amgylchedd hanesyddol yn yr ymddiriedolaeth archaeolegol berthnasol i gael rhagor o fanylion am eitemau unigol nad ydynt, efallai, ar gael drwy Archwilio. Hefyd, bydd y staff sy'n gyfrifol am yr amgylchedd hanesyddol yn yr ymddiriedolaethau yn rhoi cymorth a chyngor hanfodol ar ddehongli a defnyddio'r wybodaeth sydd yn y cofnodion amgylchedd hanesyddol.

Mae'r pedwar cofnod amgylchedd hanesyddol rhanbarthol yn cwmpasu'r ardaloedd awdurdod lleol canlynol:

- Mae cofnod amgylchedd hanesyddol Clwyd-Powys yn cwmpasu Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam, Powys a rhan o Gonwy
- Mae cofnod amgylchedd hanesyddol Dyfed yn cwmpasu Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion
- Mae cofnod amgylchedd hanesyddol Morgannwg-Gwent yn cwmpasu Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg, Caerdydd, Merthyr Tudful, Caerffili, Blaenau Gwent, Sir Fynwy, Torfaen a Chasnewydd
- Mae cofnod amgylchedd hanesyddol Gwynedd yn cwmpasu Ynys Môn, Gwynedd a rhan o Gonwy.

Ymhlith pethau eraill (gweler adran 1.2 uchod), mae ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru yn defnyddio'r wybodaeth yn y cofnodion amgylchedd hanesyddol i roi cyngor i awdurdodau cynllunio lleol ar baratoi cynlluniau ddatblygu lleol ac ar reoli datblygu.

## 2.3 Awdurdodau Lleol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru a Cyfoeth Naturiol Cymru ¬

O dan adran 37 o'r Ddeddf, rhaid i awdurdodau lleol ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru, a Cyfoeth Naturiol Cymru, i gyd roi sylw i'r canllawiau statudol hyn ar lunio a defnyddio cofnodion amgylchedd hanesyddol yng Nghymru. Mae gan y cyrff cyhoeddus hyn rôl bwysig i'w chwarae o ran rheoli a gwarchod yr amgylchedd hanesyddol, y ffordd y caiff ei hyrwyddo a'r ffordd y mae'r cyhoedd yn ei ddefnyddio a'i werthfawrogi. Mae'r swyddogaethau hyn yn dibynnu ar y gallu i gael gafael ar wybodaeth awdurdodol o ansawdd da am yr amgylchedd hanesyddol, megis yr wybodaeth a geir yn y cofnodion amgylchedd hanesyddol.

Mae'n hanfodol bod y cyrff hyn yn gwneud cyfraniad effeithiol at gynnwys y cofnodion amgylchedd hanesyddol (gweler adrannau 3.1 a 3.2). O'r herwydd, mae gan y cyrff hyn rôl allweddol i'w chwarae yn y gwaith o lunio'r cofnodion amgylcheddol hanesyddol. Mae cyfrifoldeb arnynt hefyd am y ffordd y cânt eu defnyddio wrth iddynt arfer eu swyddogaethau, a ddisgrifir yn adran 4. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen mynd ati o bryd i'w gilydd i drefnu cyfarfodydd cyswllt rhwng cyrff cyhoeddus a'r ymddiriedolaeth(au) archaeolegol perthnasol.

Mae'n bosibl bod gwybodaeth sy'n berthnasol i'r amgylchedd hanesyddol yn cael ei chadw hefyd mewn archifau ffurfiol sy'n cael eu rhedeg gan awdurdodau lleol, megis y swyddfeydd cofnodion sirol, yn ogystal ag mewn ffeiliau'n ymwneud â gwaith achos cyffredinol sy'n effeithio ar yr amgylchedd hanesyddol.

## 2.4 Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru ¬

Sefydlwyd y Comisiwn Brenhinol[9] ym 1908 ac mae ei rolau a'i gyfrifoldebau yn deillio o Warant Frenhinol a gyhoeddwyd yn 2000. Mae'n gweithio fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ac yn cael ei gyllid craidd gan Lywodraeth Cymru.

Ers 1964, mae'r Comisiwn Brenhinol wedi bod yn gyfrifol am guradu Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru. Dyma'r rhestr eiddo ac archif cyhoeddus cenedlaethol ar gyfer amgylchedd hanesyddol Cymru, sy'n debyg i archifau cyffelyb yn Lloegr a'r Alban. Mae'n cynnwys cofnodion a luniwyd drwy weithgareddau ymchwilio'r Comisiwn Brenhinol yn ogystal â chofnodion a gyfrannwyd gan ystod eang o sefydliadau eraill ac unigolion preifat. Caiff Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru ei gydnabod yn swyddogol o dan Ddeddf Cofnodion Cyhoeddus 1958[10] fel man adneuo ar gyfer cofnodion cyhoeddus. Mae'n cynnwys ffotograffau, lluniadau a dogfennau gwreiddiol sy'n ymwneud ag amgylchedd hanesyddol Cymru. Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru yw'r prif fan adneuo ar gyfer deunydd archif gwreiddiol a dogfennau sy'n ymwneud ag amgylchedd hanesyddol Cymru.

Mae'r Comisiwn Brenhinol hefyd yn curadu'r cofnod o safleoedd morwrol hanesyddol ar gyfer dyfroedd tiriogaethol Cymru, sy'n cynnwys damweiniau'n ymwneud ag awyrennau a llongau ar y môr ac ardaloedd o botensial archaeolegol morol uchel. Ar ran Gweinidogion Cymru, mae gan y Comisiwn Brenhinol hefyd gyfrifoldeb penodol am gynnal y rhestr o enwau lleoedd hanesyddol yng Nghymru a'r rhestr o feysydd brwydrau hanesyddol, ac am sicrhau bod yr wybodaeth hon ar gael drwy'r cofnodion amgylchedd hanesyddol.

O dan ei drefniadau gweithredu gyda Llywodraeth Cymru, mae'r Comisiwn Brenhinol yn gyfrifol am fonitro safonau a lefelau gwasanaeth y cofnodion amgylchedd hanesyddol[11]. Mae hyn yn cynnwys mynd ati, ar sail cylch pum mlynedd, i gydgysylltu a dilysu archwiliadau er mwyn adolygu ansawdd data, mesur perfformiad yn unol â dangosyddion penodedig a nodi agweddau y mae angen eu gwella. Cyhoeddir crynodeb o ganfyddiadau'r archwiliadau ar wefan Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru (Cadw).[12]

## 2.5 Beth yw'r Cysylltiad Rhwng Cofnodion Amgylcheddol Hanesyddol a Chofnodion Eraill? ¬

Mae gwybodaeth am amgylchedd hanesyddol Cymru ar gael o ffynonellau eraill. Mae rhai o'r ffynonellau hynny'n cyfrannu at y cofnodion amgylchedd hanesyddol. Llywodraeth Cymru yw'r brif ffynhonnell ar gyfer cofnodion sy'n ymwneud â henebion ac adeiladau dan ofal y Wladwriaeth ac asedau hanesyddol dynodedig o bwysigrwydd cenedlaethol neu ddiddordeb arbennig, gan gynnwys adeiladau rhestredig, henebion cofrestredig, llongddrylliadau dynodedig a pharciau, gerddi a thirweddau hanesyddol cofrestredig. Mae Cof Cymru – Asedau Hanesyddol Cenedlaethol Cymru, a gynhelir gan Cadw, yn galluogi'r cyhoedd i weld mapiau a gwybodaeth ddisgrifiadol ar-lein mewn perthynas â'r asedau hanesyddol hyn.[13]

Y Comisiwn Brenhinol sy'n cynnal Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru, sydd ar gael i'r cyhoedd drwy Coflein.[14] Mae perthynas waith ffurfiol rhwng Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru a'r cofnodion amgylchedd hanesyddol ac maent yn cyfnewid gwybodaeth graidd yn rheolaidd.

Mae gan sefydliadau eraill wybodaeth bwysig am yr amgylchedd hanesyddol hefyd, gan gynnwys Amgueddfa Cymru ac amgueddfeydd rhanbarthol a lleol, sy'n cadw cofnodion yn ymwneud â'r arteffactau archaeolegol a'r casgliadau hanesyddol sydd dan eu gofal. Mae gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol gofnodion yn ymwneud â'r asedau hanesyddol ar dir sy'n eiddo iddi ac mae'r rheini hefyd ar gael ar-lein.[15]

Mae'r cofnodion hanesyddol yn defnyddio gwybodaeth o'r holl ffynonellau hyn ac o ffynonellau eraill. Mae'r prif ddeiliaid cofnodion, gan gynnwys y cofnodion amgylchedd hanesyddol, wedi sefydlu Fframwaith Strategol ar gyfer Cofnodion yn Ymwneud ag Amgylchedd Hanesyddol Cymru,[16] er mwyn hwyluso cydweithio a rhannu data'n rheolaidd.

Ar ran partneriaid y fframwaith, mae'r Comisiwn Brenhinol yn cynnal ac yn datblygu Cymru Hanesyddol,[17] porth ar-lein at gofnodion cenedlaethol a rhanbarthol. Mae'n cynnwys map integredig sy'n dangos lleoliadau'r holl safleoedd archaeolegol hanesyddol a gofnodir yn y cronfeydd data sy'n cael eu cynnal gan y partneriaidi sy'n rhan o'r fframwaith.

# 3. Cynnwys Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru, a sut y Maent yn Cael eu Llunio ¬

## 3.1 Cadw Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru yn Gyfredol ¬

Mae angen rheoli cofnodion amgylchedd hanesyddol yn weithredol er mwyn iddynt adlewyrchu natur newidiol yr amgylchedd hanesyddol a'n dealltwriaeth o'i arwyddocâd.[18] Rhaid diweddaru cofnodion amgylchedd hanesyddol yn rheolaidd â gwybodaeth gywir, gan gynnwys:

- darganfyddiadau a dehongliadau newydd
- dynodiadau statudol newydd a diwygiedig
- yr ymchwil a'r cyhoeddiadau diweddaraf
- cofnodion a chanlyniadau ymchwiliadau newydd
- newidiadau i'r asedau hanesyddol sydd eisoes wedi'u cofnodi.

Daw gwybodaeth o'r fath o amrywiaeth o ffynonellau, o ddarganfyddiadau ar hap gan aelodau o'r cyhoedd a darganfyddiadau annisgwyl gan berchenogion eiddo, datblygwyr a rheolwyr tir, i ymchwiliadau systematig a gynhelir fel rhan o arolygon cenedlaethol, gwaith ymchwil a arweinir gan brifysgolion, gwaith maes a chofnodi a ariennir gan ddatblygwyr, prosiectau cymunedol neu waith ymchwil preifat.

Ni ddylai fod unrhyw derfynau o ran y cyfnodau y mae'r wybodaeth a gofnodir mewn cofnodion amgylchedd hanesyddol yn ymwneud â nhw: dylent gynnwys data sy'n ymwneud â phob cyfnod, o'r gweithgarwch dynol cynharaf i'r oes bresennol. Bydd terfyn daearyddol y cofnod amgylchedd hanesyddol ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yn cael ei ddiffinio gan ffin weinyddol yr awdurdod lleol. Yn achos ardaloedd awdurdodau lleol sydd ag arfordir, bydd estyn cwmpas daearyddol cofnod amgylchedd hanesyddol tua'r môr y tu hwnt i'r ffin weinyddol yn fodd i reoli'r amgylchedd hanesyddol morol ac arfordirol yn fwy effeithiol.

Mae'r berthynas rhwng ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru a'r holl gyrff cyhoeddus a enwir yn y Ddeddf wedi bod yn un gref a chadarnhaol erioed, ac mae sylfeini cadarn ar gyfer y rolau a'r cyfrifoldebau presennol. Mae gan y cyrff cyhoeddus rôl i'w chwarae o hyd o ran sicrhau bod y cofnodion amgylchedd hanesyddol mor gyfredol â phosibl. Mewn rhai achosion, bydd corff cyhoeddus yn gyfrifol am sicrhau bod y cofnodion amgylchedd hanesyddol yn cynnwys gwybodaeth newydd neu wybodaeth wedi'i diweddaru y mae ganddo gyfrifoldeb uniongyrchol amdani, megis gwybodaeth yn ymwneud ag ardaloedd cadwraeth a rhestrau lleol, os ydynt ar gael.

Dylai'r cynnydd a fydd wedi'i wneud o ran cyfrannu ac ychwanegu at gofnodion amgylchedd hanesyddol fod yn un o'r materion a drafodir yn y cyfarfod cyswllt a gynhelir o bryd i'w gilydd rhwng y cyrff cyhoeddus a'r ymddiriedolaethau(au) archaeolegol perthnasol y cyfeirir atynt yn 2.3 uchod. Yn ystod y drafodaeth honno,

bydd angen cytuno ar fformat unrhyw wybodaeth newydd y byddai'n fuddiol ei hychwanegu at y cofnodion amgylchedd hanesyddol, ynghyd â'r weithdrefn a'r amserlen ar gyfer gwneud hynny. Bydd canlyniad y trafodaethau hyn yn cyfrannu at gynlluniau gwaith blynyddol yr ymddiriedolaethau archaeolegol. O wneud hyn, bydd y cofnodion amgylchedd hanesyddol yn parhau i ehangu ac i gynnwys mwy o wybodaeth am yr amgylchedd hanesyddol nag a geir yn y sylfaen archaeolegol gref sydd eisoes yn bodoli.

## 3.2 Cynnwys Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru a Rôl Cyrff Cyhoeddus yn y Gwaith o'u Llunio ¬

Mae'r adran hon yn cynnwys rhestr o'r hyn y disgwylir i gofnodion amgylchedd hanesyddol eu cynnwys o dan adran 35(2) o'r Ddeddf.[19] Caiff y gwahanol elfennau eu grwpio yma i adlewyrchu sut y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol, a Cyfoeth Naturiol Cymru, gyfrannu at lunio cofnodion amgylcheddol hanesyddol a helpu i'w cadw'n gyfredol, neu sut y dylent wneud hynny.

### 3.2.1 Asedau Hanesyddol sydd â Gwarchodaeth Statudol neu sydd wedi'u Cofrestru o dan Ddeddfau 1979 neu 1990[20] ¬

**(a) Manylion pob adeilad yn ardal yr awdurdod sydd wedi'i gynnwys mewn rhestr a luniwyd neu a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 1 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (pennod 9).[21]**

**(b) Manylion pob ardal gadwraeth yn ardal yr awdurdod sydd wedi'i dynodi o dan adran 69 o'r Ddeddf honno.[22]**

**(c) Manylion pob heneb yn ardal yr awdurdod a geir yn yr Atodlen a luniwyd ac a gynhelir o dan adran 1 o Ddeddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 (pennod 46).[23]**

**(d) Manylion pob darn o dir yn ardal yr awdurdod sydd wedi'i gynnwys yn y gofrestr o barciau a gerddi hanesyddol a luniwyd ac a gynhelir gan Weinidogion Cymru o dan adran 41A o'r Ddeddf[24] honno.**

Cadw, ar ran Gweinidogion Cymru, sy'n gyfrifol am nodi a dynodi adeiladau rhestredig (a), henebion cofrestredig (c) a pharciau a gerddi hanesyddol cofrestredig (d).[25] Cadw sy'n rheoli'r rhestrau terfynol a chyfredol o bob un o'r categorïau hyn o asedau hanesyddol. Mae'n rhaid i fanylion yr holl asedau yn y grwpiau hyn gael eu cynnwys yn y cofnodion amgylchedd hanesyddol wrth iddynt gael eu darparu gan Cadw.

Awdurdodau cynllunio lleol sy'n gyfrifol am ddiffinio a dynodi ardaloedd cadwraeth (b). Rhaid i'r awdurdodau hyn ddarparu manylion yr holl ardaloedd cadwraeth i'w cynnwys yn y cofnodion amgylchedd hanesyddol. Dylai'r manylion hynny gynnwys dolenni at wybodaeth sy'n ymwneud ag arfarniadau o ardaloedd cadwraeth.

**Rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ddarparu manylion yr holl ardaloedd cadwraeth i'w cynnwys yn y cofnod amgylchedd hanesyddol perthnasol.**

### 3.2.2 Safleoedd Gwrthdaro ¬

**(e) Manylion pob safle gwrthdaro yn ardal yr awdurdod sydd o ddiddordeb hanesyddol ym marn Gweinidogion Cymru.**

Mae adran 35 (3) o'r Ddeddf yn diffinio 'safle gwrthdaro' fel maes brwydr neu safle lle y digwyddodd math arall o wrthdaro yn cynnwys lluoedd milwrol, neu safle lle y digwyddodd gweithgareddau arwyddocaol mewn perthynas â brwydr neu wrthdaro arall o'r fath.[26]

Ar ran Gweinidogion Cymru, mae'r Comisiwn Brenhinol wedi llunio rhestr o feysydd brwydrau hanesyddol yng Nghymru.[27] Bydd y cofnodion amgylchedd hanesyddol yn cynnwys manylion yr wybodaeth ddiweddaraf o'r rhestr hon. Dylai'r cofnodion amgylchedd hanesyddol hefyd gynnwys dolenni at y rhestr ar-lein sy'n cael ei chadw gan y Comisiwn Brenhinol.

Efallai fod gan y cyrff cyhoeddus a enwir yn y Ddeddf wybodaeth ychwanegol am safleoedd gwrthdaro. Dylid rhoi'r wybodaeth hon i'r Comisiwn Brenhinol i'w chynnwys yn y rhestr.

**Dylai'r cyrff cyhoeddus a enwir yn y Ddeddf roi i'r Comisiwn Brenhinol fanylion unrhyw safle gwrthdaro y gellid ystyried ei gynnwys yn y cofnodion amgylchedd hanesyddol.**

### 3.2.3 Tirweddau Hanesyddol ¬

**(f) Lle bo awdurdod cyhoeddus (p'un ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â phersonau eraill) yn cynnal rhestr o dirweddau hanesyddol yng Nghymru, manylion pob tirwedd hanesyddol yn ardal yr awdurdod lleol a geir yn y rhestr.**

Mae Cadw, y Cyngor Rhyngwladol ar Henebion a Safleoedd (y DU) (ICOMOS (UK)) a Chyngor Cefn Gwlad Cymru (sydd bellach yn rhan o Cyfoeth Naturiol Cymru) wedi mynd ati ar y cyd i lunio rhestr o dirweddau hanesyddol.[28]

Ar ran Gweinidogion Cymru, mae ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru wedi cynnal astudiaethau manwl o nodweddion tirwedd hanesyddol ar gyfer pob un o'r tirweddau hanesyddol cofrestredig hyn. Rhaid i'r cofnodion amgylchedd hanesyddol gynnwys manylion pob tirwedd amgylchedd hanesyddol, ynghyd â manylion y gwaith cysylltiedig i bennu nodweddion, a dolenni at y setiau data ar-lein sy'n cel eu cynnal gan ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru.

**Lle bo corff cyhoeddus a enwir yn y Ddeddf yn cynnal ei restr ei hun o dirweddau hanesyddol, dylid cynnwys manylion yn y cofnodion amgylchedd hanesyddol.**

## 3.2.4 Safleoedd Treftadaeth y Byd ¬

**(g) Manylion pob Safle Treftadaeth y Byd yn ardal yr awdurdod**

Rhaid i'r cofnodion amgylchedd hanesyddol gynnwys manylion pob Safle Treftadaeth y Byd. Dylai'r cofnodion amgylchedd hanesyddol gynnwys dolenni at y cynlluniau rheoli diweddaraf ar gyfer Safleoedd Treftadaeth y Byd ac unrhyw ganllawiau cynllunio atodol cysylltiedig.

**Lle bo awdurdod lleol neu awdurdod Parc Cenedlaethol yn gyfrifol am gynllun rheoli Safle Treftadaeth y Byd neu am unrhyw ganllawiau cynllunio atodol, dylai gynnwys dolenni priodol at y cynllun hwnnw neu'r canllawiau hynny yn y cofnodion amgylchedd hanesyddol.**

## 3.2.5 Safleoedd Eraill o Ddiddordeb Hanesyddol, Archaeolegol neu Bensaernïol ¬

**(h) Manylion pob ardal, safle neu le arall yn ardal yr awdurdod y mae'r awdurdod neu Weinidogion Cymru yn ystyried ei bod/fod o ddiddordeb hanesyddol, archaeolegol neu bensaernïol lleol.**

Nid yw'r rhan fwyaf o asedau hanesyddol mewn ardal awdurdod lleol yn cael eu gwarchod yn statudol. Fodd bynnag, mae pob un ohonynt yn cyfrannu at ei chymeriad hanesyddol, archaeolegol neu bensaernïol a gallent fod yn bwysig yn genedlaethol, rhanbarthol neu leol.

Gallai cofnodion ymwneud â safleoedd archaeolegol sydd heb eu cofrestru, adeiladau neu strwythurau hanesyddol nad ydynt yn rhestredig, parciau a gerddi hanesyddol, meysydd brwydrau a thirweddau nad ydynt i'w gweld ar y cofrestrau na'r rhestrau eiddo perthnasol, neu leoliadau â thystiolaeth baleoamgylcheddol bwysig. Gallai cofnodion hefyd gynnwys lleoliadau nad oes unrhyw dystiolaeth ffisegol weladwy ohonynt, ond y gallent fod yn gysylltiedig â chyfeiriad hanesyddol, cartograffig neu ddogfennol, neu â darganfod arteffact archaeolegol.

Yn achos awdurdodau lleol arfordirol, dylai'r cofnod amgylchedd hanesyddol gynnwys gwybodaeth am dreftadaeth forwrol o ddiddordeb hanesyddol, archaeolegol neu bensaernïol. Dylai'r cofnod amgylchedd hanesyddol fod yn gysylltiedig â chofnod morwrol Cymru, a gynhelir gan y Comisiwn Brenhinol, sy'n cynnwys safleoedd llongddrylliadau ac ardaloedd o botensial archaeolegol mawr ar y môr.

Mae gan awdurdodau lleol rôl allweddol i'w chwarae o ran cyfrannu gwybodaeth am asedau nas dynodwyd at gofnodion amgylchedd hanesyddol. Mae awdurdodau lleol yn casglu gwybodaeth ychwanegol am yr amgylchedd hanesyddol yn aml, yn enwedig am

adeiladau hanesyddol. Er mwyn i'r cofnodion amgylchedd hanesyddol fod yn ffynonellau cynhwysfawr o wybodaeth, mae'n hanfodol eu bod yn cael gwybodaeth newydd am yr holl asedau hanesyddol yn ddi-oed, gan gynnwys y rheini sydd o ddiddordeb hanesyddol, archaeolegol a phensaernïol lleol. Dylai gynnwys gwybodaeth yn ymwneud ag asedau hanesyddol lleol sydd, o bosibl, yn cael eu nodi'n ffurfiol yn ystod y broses gynllunio, yn ogystal ag yn ystod gweithgareddau eraill.

Dylai awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol a Cyfoeth Naturiol Cymru roi gwybodaeth i'r cofnodion amgylchedd hanesyddol am asedau hanesyddol nas dynodwyd er mwyn gwneud yn siŵr bod y cofnodion amgylchedd hanesyddol yn dal i fod yn gynhwysfawr ac yn llawn gwybodaeth sy'n berthnasol i'w gwaith. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys manylion asedau hanesyddol a ddarganfuwyd neu yr ymchwiliwyd iddynt o ganlyniad i raglenni rheoli neu fynediad cyhoeddus.

**Dylai'r cyrff cyhoeddus a enwir yn y Ddeddf ddarparu manylion unrhyw ardal, safle neu le arall y maent o'r farn ei fod o ddiddordeb hanesyddol, archaeolegol neu bensaernïol lleol er mwyn iddynt gael eu cynnwys yn y cofnodion amgylchedd hanesyddol.**

**Lle bo awdurdod lleol neu awdurdod Parc Cenedlaethol yn cynnal rhestr o asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig, rhaid iddo gynnwys manylion diweddaraf pob eitem ar y rhestr er mwyn iddynt gael eu cynnwys yn y cofnodion amgylchedd hanesyddol.**

### 3.2.6 Nodweddion Hanesyddol ¬

**(i) Gwybodaeth am sut mae datblygiad hanesyddol, archaeolegol neu bensaernïol ardal yr awdurdod, neu unrhyw ran ohoni, wedi cyfrannu at nodweddion presennol yr ardal neu ran ohoni, a sut y gellir gwarchod y nodweddion hynny.**

Rhaid i'r cofnodion amgylchedd hanesyddol gynnwys unrhyw waith pennu nodweddion tirwedd hanesyddol (gweler hefyd (f) uchod) a gynhaliwyd, ond hefyd unrhyw waith pennu nodweddion a gynhaliwyd ar drefweddau neu forweddau. Mae Cadw wedi cynnal rhaglen o waith pennu nodweddion hanesyddol ar nifer o drefi hanesyddol ledled Cymru. Dylai pob cofnod amgylchedd hanesyddol gynnwys dolenni at unrhyw astudiaethau o nodweddion sy'n berthnasol i'w ardal.

**Lle y bo corff cyhoeddus a enwir yn y Ddeddf wedi casglu gwybodaeth am ddatblygiad hanesyddol, archaeolegol neu bensaernïol ardal awdurdod, neu ran o ardal awdurdod (megis astudiaethau o nodweddion), dylai ddarparu manylion i'w cynnwys yn y cofnodion amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys dolenni at ragor o fanylion a gwybodaeth gyhoeddedig, gan gynnwys haenau tirwedd hanesyddol a diwylliannol LANDMAP.**

## 3.2.7 Ymchwiliadau Perthnasol ¬

**(j) Manylion unrhyw ymchwiliadau perthnasol a gynhaliwyd yn ardal yr awdurdod a chanfyddiadau'r ymchwiliadau hynny.**

Mae'r cofnodion amgylchedd hanesyddol yn cynnwys manylion ymchwiliadau hanesyddol neu archaeolegol perthnasol, gan gynnwys canfyddiadau'r ymchwiliadau hynny. Gallai enghreifftiau gynnwys asesiadau desg, gwaith dadansoddi hanesyddol, arolygon sy'n gysylltiedig â chofnodi adeiladau hanesyddol, arolygon topograffig neu geoffisegol ac ymyriadau archaeolegol (gan gynnwys casglu arteffactau ar yr wyneb, tyllau prawf, ffosydd prawf, gwaith cloddio archaeolegol a samplu paleoamgylcheddol). Efallai na fydd rhai o'r ymchwiliadau hyn yn rhai archaeolegol, ond byddant, serch hynny, yn datgelu gwybodaeth berthnasol, megis arolygon geodechnegol. Mae llawer o'r ymchwiliadau hyn yn cael eu cynnal gan unigolion, sefydliadau ymchwil neu gymunedau, neu o ganlyniad i raglenni eraill sy'n cael eu hariannu (megis Cronfa Dreftadaeth y Loteri). Fodd bynnag, mae llawer ohonynt yn cael eu cynnal (neu eu symbylu) gan y cyrff cyhoeddus a enwir yn y Ddeddf.

Mae gan bob un o'r cyrff cyhoeddus a enwir yn y Ddeddf rôl i'w chyflawni o ran darparu manylion ymchwiliadau o'r fath i'w cynnwys yn y cofnodion amgylchedd hanesyddol, yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau o ran hawlfraint. Gallai ymchwiliadau o'r fath gael eu cynnal naill ai'n uniongyrchol gan yr awdurdod cyhoeddus ei hun, gan rywun arall ar ei ran, neu ar ôl iddo wneud cais i'r perwyl hwnnw. Gallai hyn gynnwys gwaith a wneir gan Cyfoeth Naturiol Cymru, neu ar ei ran, i reoli coedwigoedd neu goetiroedd, neu gynlluniau rheoli amgylcheddol. Gallai hefyd gynnwys gwaith yn gysylltiedig â'r amgylchedd hanesyddol sy'n cael ei wneud o ganlyniad i'r broses gynllunio. Dylid rhoi gwybod i'rn rheini a fydd yn gwneud gwaith o'r fath fod angen iddynt roi'r canfyddiadau perthnasol i'r cofnodion amgylchedd hanesyddol.

**Dylai'r cyrff cyhoeddus a enwir yn y Ddeddf ddarparu manylion ymchwiliadau i'r amgylchedd hanesyddol, boed yn ymchwiliadau a gynhaliwyd yn uniongyrchol gan yr awdurdod cyhoeddus ei hun neu gan rywun arall ar ei ran, er mwyn i'r manylion hynny gael eu cynnwys yn y cofnodion amgylchedd hanesyddol, yn amodol ar gyfyngiadau o ran hawlfraint. Gallai hyn gynnwys ymchwiliadau i ategu cynlluniau rheoli amgylcheddol neu'r broses gynllunio.**

## 3.2.8 Enwau Lleoedd Hanesyddol ¬

**(k) Ffordd o gael gafael ar fanylion pob enw lle hanesyddol yn ardal yr awdurdod sydd wedi'i gynnwys yn y rhestr a luniwyd ac a gynhelir o dan adran 34 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016.[29]**

Gall enwau lleoedd hanesyddol, naill ar gyfer nodweddion daearyddol neu aneddiadau neu eiddo unigol, fod yn ffynhonnell gyfoethog o wybodaeth am ddatblygiad hanesyddol cymuned, a gallant gyfrannu at hunaniaeth ac at ymdeimlad o le ac o berthyn.

Mae'r Comisiwn Brenhinol yn cynnal rhestr o enwau lleoedd hanesyddol ar ran Gweinidogion Cymru.[30] Wrth lunio'r rhestr hon, mae'r Comisiwn Brenhinol yn defnyddio'r wybodaeth a geir mewn mapiau hanesyddol, ond mae hefyd yn ceisio cyngor arbenigwyr iaith ac arbenigwyr ar enwau lleoedd. Mae'r rhestr hon yn un a fydd yn parhau i ddatblygu a bydd y manylion am bob enw lle ar y rhestr ar gael drwy'r cofnodion amgylchedd hanesyddol.

**Dylai'r cyrff cyhoeddus a enwir yn y Ddeddf roi unrhyw wybodaeth i'r Comisiwn Brenhinol a fydd yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r rhestr o enwau lleoedd hanesyddol.**

# 4. Defnyddio Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru ¬

Mae'r adran hon yn ystyried sut mae'r cyrff cyhoeddus a enwir yn y Ddeddf yn defnyddio'r cofnodion amgylchedd hanesyddol wrth arfer eu swyddogaethau. Fodd bynnag, dylid cydnabod nad dim ond ffynonellau goddefol o wybodaeth i'w defnyddio gan gyrff cyhoeddus yw'r cofnodion amgylchedd hanesyddol: cyflogir personél profiadol i reoli a dehongli pob un o'r cofnodion. Er enghraifft, gall yr aelodau hyn o staff helpu defnyddwyr i ddehongli'r data arbenigol sydd yn y cofnod a thrafod y gofynion ar gyfer cadw, cyfnewid a chasglu data, a'r defnydd o derminoleg. Yn benodol, mae'n bwysig nad dim ond dibynnu ar y data sylfaenol sydd i'w gweld yn Archwilio y mae defnyddwyr. Mae gan yr ymddiriedolaethau archaeolegol wybodaeth ychwanegol a bydd cysylltu'n uniongyrchol â staff sy'n gyfrifol am gofnodion amgylchedd hanesyddol yn hanfodol er mwyn helpu'r cyrff cyhoeddus i arfer eu swyddogaethau.

Mae'r gwaith o gasglu a defnyddio gwybodaeth hefyd yn broses ddwyffordd. Gall yr wybodaeth a geir yn y cofnodion amgylchedd hanesyddol fod o fudd i brosiectau unigol, ac felly hefyd y cymorth a'r cyngor a roddir gan y staff sy'n gyfrifol am y cofnodion. Ond bydd y prosiectau hyn hefyd yn arwain at wybodaeth newydd neu well y mae angen ei bwydo yn ôl i mewn i'r cofnodion. Mae'r 'cylch rhinweddol' o ddefnyddio gwybodaeth o'r cofnodion amgylchedd hanesyddol ac yna wella'r cofnodion hynny â gwybodaeth newydd a gynhyrchir yn creu cofnodion deinamig sy'n gwella'n barhaus a fydd yn elwa ar y bartneriaeth gadarnhaol a sefydlwyd â rhanddeiliaid.

## 4.1 Llywio Polisïau a Chynlluniau Strategol ¬

Dylid defnyddio'r cofnodion amgylchedd hanesyddol fel sail dystiolaeth allweddol i lywio amrywiaeth eang o bolisïau a chynlluniau strategol cenedlaethol, rhanbarthol a lleol; er enghraifft, cynlluniau llesiant lleol sydd eu hangen ar y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus o dan ddarpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Datganiadau Ardal o dan ddarpariaethau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016,[31] neu gynlluniau rheoli Parciau Cenedlaethol.

**Dylai'r cyrff cyhoeddus a enwir yn y Ddeddf ddefnyddio'r cofnodion amgylchedd hanesyddol yn ffynonellau allweddol o dystiolaeth, er mwyn iddynt fedru ystyried yr amgylchedd hanesyddol wrth lunio polisïau a chynlluniau strategol.**

## 4.2 Llywio Cynlluniau Datblygu ¬

Mae *Polisi Cynllunio Cymru* yn nodi bod y cofnodion amgylchedd hanesyddol yn ffynonellau allweddol o wybodaeth y mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol eu defnyddio wrth lunio cynlluniau datblygu.[32] Wrth baratoi cynllun datblygu lleol, mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol gynnal Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Arfarniad o Gynaliadwyedd. Asesiad o'r dreftadaeth ddiwylliannol yw un o astudiaethau sylfaenol y broses hon a dylid defnyddio'r wybodaeth a geir yn y cofnodion amgylchedd hanesyddol, sy'n sylfaen dystiolaeth gyfredol allweddol, i ategu'r asesiad hwnnw.[33]

**Rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ddefnyddio'r cofnodion amgylchedd hanesyddol yn ffynhonnell allweddol o dystiolaeth wrth lunio cynlluniau datblygu.**

## 4.3 Llywio Penderfyniadau ynghylch Rheoli Datblygu ¬

Mae'r cofnodion amgylchedd hanesyddol yn ffynonellau allweddol o wybodaeth y dylid eu defnyddio i gefnogi'r broses gynllunio, gan gynnwys penderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae'r wybodaeth a geir yn y cofnodion amgylchedd hanesyddol yn helpu i sicrhau bod yr effaith a gaiff cynnig ar yr amgylchedd hanesyddol yn cael ei hystyried yn briodol, gan gynnwys cyngor ar gynlluniau i osgoi neu liniaru unrhyw effeithiau andwyol.

**Dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried yr wybodaeth a geir yn y cofnodion amgylchedd hanesyddol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.**

## 4.4 Llywio Prosiectau Cadwraeth a Rheoli ¬

Mae gan y cyrff cyhoeddus a enwir yn y Ddeddf gyfrifoldebau am reoli a gwarchod yr amgylchedd hanesyddol. Gall hyn olygu gwarchod asedau hanesyddol y maent yn gyfrifol amdanynt, megis adeiladau hanesyddol neu barciau a gerddi. Gallai'r gwaith o reoli'r amgylchedd hanesyddol hefyd fod yn rhan o raglen gadwraeth ehangach sy'n canolbwyntio ar agweddau ar yr amgylchedd naturiol.

**Dylai'r cyrff cyhoeddus a enwir yn y Ddeddf ddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cofnodion amgylchedd hanesyddol fel ffynhonnell allweddol o dystiolaeth wrth ystyried prosiectau cadwraeth a rheoli sy'n effeithio ar yr amgylchedd hanesyddol.**

## 4.5 Llywio Ymatebion Addasol i Effaith Newid yn yr Hinsawdd ¬

Mae cyfrifoldeb ar y cyrff cyhoeddus a enwir yn y Ddeddf i ymateb i effaith newid yn yr hinsawdd, er enghraifft, drwy gynlluniau lliniaru llifogydd neu addasu asedau hanesyddol er mwyn eu gwneud yn fwy cydnerth.

**Dylai'r cyrff cyhoeddus a enwir yn y Ddeddf ddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cofnodion amgylchedd hanesyddol fel ffynhonnell allweddol o dystiolaeth wrth ystyried ymatebion addasol i effaith newid yn yr hinsawdd.**

## 4.6 Llywio'r Gwaith o Enwi ac Ailenwi Lleoedd ¬

Mae gan y cyrff cyhoeddus a enwir yn y Ddeddf gyfrifoldeb am enwi ac ailenwi lleoedd y maent yn gyfrifol amdanynt. Hefyd, mae gan awdurdodau lleol rôl statudol o ran ystyried cynigion i enwi lleoedd neu strydoedd newydd a cheisiadau i newid enwau strydoedd ac eiddo.

**Dylai'r holl gyrff cyhoeddus a enwir yn y Ddeddf ystyried y rhestr o enwau lleoedd hanesyddol, sydd ar gael drwy'r cofnodion amgylchedd hanesyddol, wrth ystyried enwi ac ailenwi strydoedd, eiddo a lleoedd eraill, boed hynny'n uniongyrchol neu gan barti arall.**

**Dylai awdurdodau lleol ystyried y rhestr o enwau lleoedd hanesyddol wrth arfer eu rôl statudol o ran enwi ac ailenwi strydoedd ac eiddo (gweler yr Atodiad).**

## 4.7 Llywio Gwaith Adfywio a Arweinir gan Dreftadaeth ¬

Gall yr amgylchedd hanesyddol fod yn sbardun pwysig ar gyfer adfywio economaidd yn ein trefi a chefn gwlad. Mae angen i lwyddiant prosiectau o'r fath fod yn seiliedig ar wybodaeth awdurdodol o ansawdd da.

**Dylai'r cyrff cyhoeddus a enwir yn y Ddeddf ddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cofnodion amgylchedd hanesyddol fel ffynhonnell allweddol o dystiolaeth i gefnogi a llywio prosiectau a rhaglenni adfywio a arweinir gan dreftadaeth. Gall nodi'r hyn sy'n unigryw am ardal, drwy ddefnyddio astudiaethau o nodweddion, fod yn gam cyntaf pwysig mewn menter o'r fath.**

## 4.8 Cefnogi Twristiaeth Ddiwylliannol a Datblygu Economaidd ¬

Mae rôl yr amgylchedd hanesyddol o ran cefnogi'r diwydiant twristiaeth wedi cael cryn sylw.[34] Mae'n sbardun pwysig ar gyfer twf economaidd sydd â'r potensial i greu llawer o swyddi. Mae'r cyrff cyhoeddus a enwir yn y Ddeddf yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o hyrwyddo twristiaeth, boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Mae'r cofnodion amgylchedd hanesyddol yn sail dystiolaeth allweddol i gefnogi'r swyddogaethau hyn.

**Dylai'r cyrff cyhoeddus a enwir yn y Ddeddf ddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cofnodion amgylchedd hanesyddol fel ffynhonnell allweddol o dystiolaeth i gefnogi a llywio mentrau twristiaeth ddiwylliannol. Er enghraifft, gall y cofnodion amgylchedd hanesyddol helpu i lywio mentrau twristiaeth awdurdodau lleol sy'n hyrwyddo ymweliadau â chanol trefi neu gefn gwlad hanesyddol. Gall Cyfoeth Naturiol Cymru ddefnyddio'r cofnodion amgylchedd hanesyddol i lywio'r gwaith o hyrwyddo coetiroedd a choedwigoedd Cymru, a mwynhad ohonynt.**

## 4.9 Cefnogi Addysg a Chynhwysiant Cymdeithasol ¬

Mae'r amgylchedd hanesyddol yn cael ei ddefnyddio fwyfwy fel adnodd i gefnogi cydlyniant cymunedol a dysgu gydol oes. Mae'r gorffennol yn rhoi ymdeimlad o falchder a lle, ac yn cynnig cyfleoedd ar gyfer dysgu ffurfiol ac anffurfiol.

**Dylai'r cyrff cyhoeddus a enwir yn y Ddeddf ddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cofnodion amgylchedd hanesyddol fel ffynhonnell allweddol o dystiolaeth i gefnogi a llywio prosiectau dysgu gydol oes a chydlyniant cymunedol. Er enghraifft, gall awdurdodau addysg lleol ddefnyddio'r cofnodion amgylchedd hanesyddol i lywio gweithgareddau cwricwlwm sy'n canolbwyntio ar gymunedau lleol ac ymdeimlad lleol o le.**

## 4.10 Cefnogi Cyfranogiad y Cyhoedd mewn Archwilio, Gwerthfawrogi a Mwynhau Treftadaeth Leol ¬

Gall y cofnodion amgylchedd hanesyddol fod yn adnodd pwysig i gefnogi cyfranogiad gweithredol yn yr amgylchedd hanesyddol, gan lywio llwybrau treftadaeth, prosiectau cadwraeth lleol a gwaith cymdeithasau treftadaeth a dinesig.

**Dylai'r holl gyrff cyhoeddus a enwir yn y Ddeddf ddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cofnodion amgylchedd hanesyddol fel ffynhonnell allweddol o dystiolaeth i annog y cyhoedd i ymgysylltu â'r amgylchedd hanesyddol a chymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau a gynhelir ynddo.**

## 4.11 Hybu Gwybodaeth a Dealltwriaeth ¬

Mae'r cofnodion amgylchedd hanesyddol yn ffynhonnell allweddol o wybodaeth ar gyfer ystod eang o brosiectau ymchwil — o astudiaethau hanes teulu i brosiectau ymchwil mawr mewn prifysgolion.

**Dylai'r cyrff cyhoeddus a enwir yn y Ddeddf ddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cofnodion amgylchedd hanesyddol fel ffynhonnell allweddol o dystiolaeth i gefnogi a llywio rhaglenni ymchwil a dealltwriaeth — gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol â'r amgylchedd hanesyddol.**

# Atodiad ¬

## Canllawiau ar gyfer yr Awdurdodau Lleol ar Ddefnyddio'r Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol sydd ar gael drwy'r Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol ¬

Bydd y Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol, sydd ar gael drwy'r cofnodion amgylchedd hanesyddol, yn helpu'r awdurdodau lleol wrth iddynt ystyried ceisiadau i enwi ac ailenwi strydoedd ac eiddo.

Mae'r broses o enwi a rhifo strydoedd ac eiddo mewn ffordd resymegol a chyson, er mwyn helpu'r gwasanaeth post a'r gwasanaethau brys, yn cael ei rheoleiddio gan ddeddfwriaeth sy'n bodoli eisoes (Deddf Cymalau Gwella Trefi 1847[35] a Deddf Iechyd y Cyhoedd 1925[36]).

Dylai fod gan bob awdurdod lleol yng Nghymru bolisïau ar enwi a rhifo strydoedd ac eiddo. Dylent nodi'n glir yr egwyddorion y byddant yn eu defnyddio wrth roi enwau a rhifau i strydoedd ac eiddo newydd, ac wrth ymdrin â cheisiadau i newid enwau. Dylai'r polisïau hyn gydnabod pwysigrwydd enwau lleoedd hanesyddol yn yr amgylchedd hanesyddol lleol, a dylid annog pobl i barhau i'w defnyddio, naill ai'n sail ar gyfer enwau newydd neu drwy gadw enwau sy'n bodoli eisoes.

Os oes bwriad i newid yr enw a ddefnyddir yng nghyfeiriad ffurfiol eiddo, mae gofyn gwneud cais ffurfiol i'r awdurdod lleol. Pe bai'r enw newydd arfaethedig yn arwain at ddryswch, er enghraifft, os yw'r un enw yn cael ei ddefnyddio yn yr un gymdogaeth, bydd yr awdurdod lleol yn gwrthod y cais. Os yw'r cynnig yn dderbyniol, bydd yr awdurdod lleol yn newid y Rhestr Tir ac Eiddo Lleol.

Wrth ystyried ceisiadau i newid yr enw a ddefnyddir yng nghyfeiriad ffurfiol eiddo, dylai'r awdurdod lleol bellach gyfeirio hefyd at y rhestr o enwau lleoedd hanesyddol. Gellir gwneud hynny drwy gynnal chwiliad syml o'r rhestr ar sail cod post neu gyfeirnod grid cenedlaethol, naill ai drwy system GIS yr awdurdod ei hun (os yw set ddata'r rhestr wedi'i lawrlwytho) neu drwy edrych ar y rhestr ar-lein[37]. Os oes tystiolaeth dda bod gan yr eiddo enw hanesyddol sydd wedi'i ddefnyddio ar fapiau hanesyddol, yna dylai'r awdurdod lleol ofyn i'r ymgeisydd ailystyried y newid arfaethedig a chadw, neu efallai fabwysiadu'r, enw hanesyddol.

Mae rhai o awdurdodau lleol Cymru (Ceredigion, Gwynedd ac Ynys Môn) yn defnyddio'r polisi hwn eisoes ac mae'r dystiolaeth yn awgrymu ei bod yn ffordd effeithiol o annog pobl i barhau i ddefnyddio enwau lleoedd hanesyddol mewn cyfeiriadau post.

Yr awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am enwi strydoedd newydd y bydd angen eu cofnodi yn y Rhestr Tir ac Eiddo Lleol. Mae Llywodraeth Cymru yn annog yr awdurdodau lleol i ddefnyddio enwau lleoedd hanesyddol yn sail ar gyfer enwi strydoedd newydd neu ddatblygiadau eraill pryd bynnag y bo modd. Wrth ystyried cais gan ddatblygwr i enwi lle newydd, dylai'r awdurdod lleol gyfeirio at y rhestr o enwau lleoedd hanesyddol. Os oes enw hanesyddol priodol (er enghraifft, enw sy'n deillio o enw hanesyddol ar gyfer cae neu anheddiad), yna bydd y datblygwr yn cael gwybod hynny ac yn cael ei annog i'w ddefnyddio. Mater i'r awdurdod lleol yw'r penderfyniad terfynol ar enwi stryd.

Wrth gwrs, mae'r rhestr o enwau lleoedd hanesyddol ar gael i'r cyhoedd, felly bydd perchenogion eiddo unigol a datblygwyr yn cael eu hannog i'w defnyddio cyn cyflwyno cais i enwi neu ailenwi lle i'r awdurdod lleol.

# Cyfeiriadau ¬


1 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, adran 37 ¬
http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/4/part/4/crossheading/cofnodion-amgylchedd-hanesyddol/enacted/welsh

2 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, adrannau 35 a 36 ¬
http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/4/part/4/crossheading/cofnodion-amgylchedd-hanesyddol/enacted/welsh

3 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), adrannau 35-37 ¬
http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/4/part/4/crossheading/cofnodion-amgylchedd-hanesyddol/enacted/welsh

4 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, adran 35 ¬
http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/4/part/4/crossheading/cofnodion-amgylchedd-hanesyddol/enacted/welsh

5 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, adrannau 35 a 36 ¬
http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/4/part/4/crossheading/cofnodion-amgylchedd-hanesyddol/enacted/welsh

6 *Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru: Safonau a Meincnodau* ¬
http://cadw.gov.wales/historicenvironment/recordsv1/?skip=1&lang=cy

7 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, adran 37 ¬
http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/4/part/4/crossheading/cofnodion-amgylchedd-hanesyddol/enacted/welsh

8 Archwilio ¬
www.archwilio.org.uk

9 Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru ¬
http://cbhc.gov.uk/hafan/

10 Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1958 ¬
http://www.legislation.gov.uk/ukpga/Eliz2/6-7/51

11 *Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru: Safonau a Meincnodau* ¬
http://cadw.gov.wales/historicenvironment/recordsv1/?skip=1&lang=cy

12 Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru sy'n gweithio i sicrhau amgylchedd hanesyddol hygyrch a ddiogelir yn dda i Gymru ¬
www.cadw.cymru.gov.uk
Crynodeb o archwiliad o gofnodion amgylchedd hanesyddol yng Nghymru
http://cadw.gov.wales/historicenvironment/recordsv1/?skip=1&lang=cy

13 Cof Cymru – Asedau Hanesyddol Cenedlaethol Cymru ¬
http://cadw.gov.wales/historicenvironment/recordsv1/cof-cymru/?skip=1&lang=cy

14 Coflein ¬
www.coflein.gov.uk

15 National Trust Heritage Records Online ¬
https://heritagerecords.nationaltrust.org.uk

16 Fframwaith Strategol ar gyfer Cofnodion yn Ymwneud ag Amgylchedd Hanesyddol Cymru ¬
https://cbhc.gov.uk/darganfod/y-fframwaith-strategol/

17 Cymru Hanesyddol ¬
www.cymruhanesyddol.gov.uk

18 Am wybodaeth am arwyddocâd, gweler *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli'r Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru mewn Ffordd Gynaliadwy*, Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011 ¬
http://cadw.gov.wales/historicenvironment/conservation/conservationprinciples/?skip=1&lang=cy

19 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, adran 35(2) ¬
http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/4/part/4/crossheading/cofnodion-amgylchedd-hanesyddol/enacted/welsh
Mae'r llythrennau yn yr adrannau sydd mewn blwch yn cyfeirio at fathau o asedau fel y'u rhestrir yn adran 35(2) o'r Ddeddf.

20 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 ¬
http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1990/9/contents
Deddf Henebion ac Ardaloedd Archaeolegol 1979
http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1979/46/contents

21 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, adran 1 ¬
http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1990/9/section/1

22 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, adran 69 ¬
http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1990/9/section/69

23 Deddf Henebion ac Ardaloedd Archaeolegol 1979, adran 1 ¬
http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1979/46/section/1

24 Deddf Henebion ac Ardaloedd Archaeolegol 1979, adran 41A ¬
http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/4/part/2/crossheading/historic-parks-and-gardens

25 Nid yw adran 41A o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 mewn grym ar hyn o bryd. ¬
http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/4/part/2/crossheading/parciau-a-gerddi-hanesyddol/enacted/welsh

26 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, adran 35(3) ¬
http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/4/part/4/crossheading/cofnodion-amgylchedd-hanesyddol/enacted/welsh

27 Y Rhestr o Feysydd Brwydro Hanesyddol yng Nghymru ¬
http://meysyddbrwydro.cbhc.gov.uk/rheoli-meysydd-brwydrau-hanesyddol/

28 ICOMOS UK ¬
www.icomos-uk.org;
Cyfoeth Naturiol Cymru
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

29 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, adran 34 ¬
http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/4/part/4/enacted/welsh

30 Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru ¬
https://enwaulleoeddhanesyddol.cbhc.gov.uk/

31 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, adran 39 ¬
http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/section/39/enacted
Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, adran 11
http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/3/section/11/enacted/welsh

32 *Polisi Cynllunio Cymru* (Argraffiad 9), Pennod 6: Yr Amgylchedd Hanesyddol, para. 6.4.3 ¬
http://gov.wales/topics/planning/policy/ppw/?skip=1&lang=cy

33 *Polisi Cynllunio Cymru* (Argraffiad 9), Pennod 6: Yr Amgylchedd Hanesyddol,, para. 6.4.4 ¬
http://gov.wales/topics/planning/policy/ppw/?skip=1&lang=cy

34 Gwerthfawrogi Amgylchedd Hanesyddol Cymru, 2010 ¬
http://cadw.gov.wales/about/partnershipsandprojects/research/5273011/?skip=1&lang=cy

35 Deddf Cymalau Gwella Trefi 1847 ¬
http://www.legislation.gov.uk/ukpga/Vict/10-11/34/crossheading/precautions-during-repairs/enacted

36 Deddf Iechyd y Cyhoedd 1925 ¬
http://www.legislation.gov.uk/ukpga/Geo5/15-16/71

37 Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru ¬
https://enwaulleoeddhanesyddol.cbhc.gov.uk/

# Rhagor o Wybodaeth ¬

## Deddfwriaeth a Chynllunio

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/3/contents/enacted/welsh

Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016
http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/4/contents/enacted/welsh

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents/enacted/welsh

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/contents/enacted

*Polisi Cynllunio Cymru* (Argraffiad 9), — Pennod 6: Yr Amgylchedd Hanesyddol
http://gov.wales/topics/planning/policy/ppw/?skip=1&lang=cy

*Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol*
http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/?skip=1&lang=cy

*Llawlyfr Rheoli Datblygu*
http://gov.wales/topics/planning/policy/development-management-manual/?skip=1&lang=cy

## Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru

*Conodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru: Safonau a Meincnodau*
http://cadw.gov.wales/historicenvironment/recordsv1/?skip=1&lang=cy

Fframwaith Strategol ar gyfer Cofnodion yn Ymwneud ag Amgylchedd Hanesyddol Cymru
https://cbhc.gov.uk/darganfod/y-fframwaith-strategol/

## Cofnodion

**Archwilio** — adnodd ar-lein lle gall y cyhoedd weld yr wybodaeth sylfaenol yn y cofnodion amgylchedd hanesyddol. Mae Archwilio yn cael ei gynnal gan ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru, sydd hefyd yn darparu gwybodaeth ychwanegol ar ei gyfer
www.archwilio.org.uk

**Cof Cymru** — cofnod ar-lein Cadw o asedau hanesyddol cenedlaethol Cymru, sy'n cynnwys adeiladau rhestredig, henebion cofrestredig, llongddrylliadau a warchodir, Safleoedd Treftadaeth y Byd a thirweddau hanesyddol cofrestredig. Bydd parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig yn cael eu hychwanegu at Cof Cymru yn ystod 2018.
http://cadw.gov.wales/historicenvironment/recordsv1/cof-cymru/?skip=1&lang=cy

**Coflein** — y catalog ar-lein ar gyfer Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru, y casgliad archifau cenedlaethol o wybodaeth am amgylchedd hanesyddol Cymru.
http://www.coflein.gov.uk/

**Cynefin** — mapiau degwm hanesyddol sy'n ffynhonnell ddefnyddiol iawn o wybodaeth am yr amgylchedd hanesyddol.
http://cynefin.archiveswales.org.uk/cy/

**Cymru Hanesyddol** — porth ar-lein i gofnodion amgylchedd hanesyddol cenedlaethol a rhanbarthol
http://cymruhanesyddol.gov.uk

**LANDMAP** Methodoleg Tirweddau Hanesyddol a Thirweddau Diwylliannol (2016)
https://naturalresources.wales/media/677812/historic-landscape-landmap-methodology-2016.pdf
http://www.naturalresources.wales/media/677808/cultural-landscape-landmap-methodology-2016.pdf
http://landmap-maps.naturalresources.wales/ adnodd ar-lein i gael gafael ar fapiau ac arolygon
Cyhoeddir setiau data LANDMAP i'w lawrlwytho hefyd fel y bo modd eu defnyddio mewn system gwybodaeth ddaearyddol (GIS) ar
http://lle.gov.wales/Catalogue?text=landmap&lang=cy

**Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru** — mae'n cofnodi'r amryfal ffurfiau a sillafiadau a ddefnyddir ar gyfer enwau nodweddion topograffig, cymunedau, tramwyfeydd, strwythurau ac agweddau eraill ar y dirwedd a gofnodwyd mewn ffynonellau sy'n rhagflaenu'r Rhyfel Byd Cyntaf.
https://historicplacenames.rcahmw.gov.uk/

**National Trust Heritage Records Online** — maent yn rhoi gwybodaeth am asedau hanesyddol ar dir sy'n eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.
https://heritagerecords.nationaltrust.org.uk/

**Y Rhestr o Feysydd Brwydrau Hanesyddol yng Nghymru**
http://meysyddbrwydro.cbhc.gov.uk/

# Cysylltiadau ¬

**Llywodraeth Cymru**
Y Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol (Cadw)
Plas Caeriw, Uned 5/7 Cefn Coed, Parc Nantgarw, Caerdydd CF15 7QQ
Ffôn. 03000 256000
cadw@cymru.gsi.gov.uk
www.cadw.cymru.gov.uk

**Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru**
Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3BU
Ffôn. 01970 621200
nmr.wales@rcahmw.gov.uk
www.rcahmw.gov.uk

Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru
nmr.wales@rcahmw.gov.uk
www.coflein.gov.uk

Gallwch drefnu i ymweld â'r ystafell chwilio gyhoeddus yn Aberystwyth lle y bydd y staff yn egluro'r adnoddau sydd ar gael yng Nghofnod Henebion Cenedlaethol Cymru.

**Awdurdodau Cynllunio Lleol**
Gellir cysylltu â swyddogion cadwraeth a (phan fo angen caniatâd cynllunio ar gyfer cynigion) swyddogion cynllunio yr awdurdodau cynllunio lleol drwy wefan yr awdurdod lleol perthnasol.

**Awdurdodau Parciau Cenedlaethol**
Gellir cysylltu â swyddogion cadwraeth awdurdodau Parciau Cenedlaethol drwy'r wefan berthnasol.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
http://www.bannaubrycheiniog.org//

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/default.asp?pid=4&LangID=2

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
http://www.eryri-npa.gov.uk/

**Cyfoeth Naturiol Cymru**
d/o Y Ganolfan Gofal Cwsmeriaid, Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd, Caerdydd CF24 0TP
Ffôn: 0300 065 3000
ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
http://cyfoethnaturiol.cymru/

Gall Cyfoeth Naturiol Cymru roi gwybodaeth a chyngor ynglŷn â defnyddio gwybodaeth LANDMAP am dirweddau a morweddau hanesyddol a diwylliannol.

**Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru**

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys
41 Stryd Lydan, Y Trallwng SY21 7RR
Ffôn. 01938 553670
trust@cpat.org.uk
www.cpat.org.uk

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed
Corner House, 6 Stryd Caerfyrddin, Llandeilo
SA19 6AE
Ffôn. 01558 823121
info@dyfedarchaeology.org.uk
www.dyfedarchaeology.org.uk

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg
Gwent
Heathfield House, Heathfield, Abertawe SA1 6EL
Ffôn. 01792 655208
enquiries@ggat.org.uk
www.ggat.org.uk

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd
Craig Beuno, Ffordd y Garth, Bangor LL57 2RT
Ffôn. 01248 352535
gat@heneb.co.uk
www.heneb.co.uk

## Dolenni o'r ddogfen hon

Lle mae'r ddogfen hon yn cynnwys dolenni i wefannau ac adnoddau eraill a ddarperir gan drydydd partïon, darperir y dolenni hyn er gwybodaeth i chi yn unig. Ni ddylid ystyried bod rhestru dolenni yn gymeradwyaeth o unrhyw fath. Nid oes gan Cadw reolaeth dros gynnwys nac argaeledd tudalennau y ceir dolenni iddynt ac nid ydym yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb amdanynt nac am unrhyw golled neu niwed a allai ddeillio o'ch defnydd ohonynt.

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

**ATODIAD B**

# Polisi Enwi a Rhifo Strydoedd
# Ionawr 2021

Cyhoeddwyd Ionawr 2021

# Polisi Enwi a Rhifo Strydoedd

## Feriswn y Ddogfen

| Fersiwn | Dyddiad cyhoeddi | Awdur | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| 1.0 | 27 Mai 2014 | David Morgan a Karen Hawkes | Dim |
| 2.0 | 6 Mehefin 2018 | Emma Jones | Ychwanegwyd Cae fel rhagddodiad Cymraeg cymeradwy ar gyfer enw stryd |
| 3.0 | Ionawr 2021 | Emma Jones | Adolygiad mewn perthynas â strydoedd ag enwau Cymraeg yn unig ac nid strydoedd sydd wedi'u henwi ar ôl unigolion |

# Polisi Enwi a Rhifo Strydoedd

## Cynnwys


Adran A: Cyflwyniad 5

1. Beth yw enwi strydoedd a rhifo? 5
2. Pam fod enwi strydoedd a rhifo yn bwysig? 5
3. Pwy sy’n gyfrifol am enwi strydoedd a rhifo? 6
4. Datganiad Polisi 6
5. Ystyriaethau’r iaith Gymraeg 6
6. Pryd i wneud cais – canllawiau ar gyfer ymgeiswyr 7
7. Sut i wneud cais – canllawiau ar gyfer ymgeiswyr 8

Adran B: Enwi Strydoedd 9

1. Egwyddor gyffredinol 9
2. Enwau Strydoedd Newydd 10
3. Defnyddio enwau marchnata answyddogol 12
4. Ailenwi Stryd / newid enw stryd 12
5. Enwi strydoedd dienw sy’n bodoli eisoes 14
6. Arddangos enwau strydoedd (placiau enwau strydoedd) 14

Adran C: Enwi a Rhifio Eiddo 15

1. Dilyniant rhifo eiddo 15
2. Canolfannau siopa, parciau manwerthu ac ystadau diwydiannol 17
3. Gweithredu cyfeiriadau newydd 17
4. Ychwanegu enw neu ailenwi eiddo sydd eisoes wedi’i rifo 17

5. Trawsnewid adeilad presennol 18

6. Ailrifio eiddo presennol 18

7. Arddangos enwau a rhifau eiddo 19

Adran D: Cyfeiriad Post 20

1. Neilltuo cyfeuruadau post 20

2. Codau post 20

3. Enw’r Sir 21

4. Hysbysu partneriaid mewnol ac allanol am newid i wybodaeth cyfeiriadau 21

5. Rhestr Cyfeiriadau Corfforaethol Cyngor Sir Ddinbych 22

Adran E: Gosod placiau enwau strydoedd 25

Adran F: Adolygu’r Polisi 27

Adran G: Cysylltiadau defnyddiol 27

# Polisi Enwi a Rhifo Strydoedd

## Adran A: Cyflwyniad

Diben y ddogfen hon yw nodi'r polisi ar gyfer dyrannu, rheoli a defnyddio'r holl gyfeiriadau o fewn Sir Ddinbych gan gynnwys neilltuo enwau strydoedd, newid i enwau eiddo ac ychwanegu enwau newydd.

### 1. Beth yw enwi strydoedd a rhifo?

1.1. Mae enwi strydoedd a rhifo yn caniatáu neilltuo hunaniaeth unigryw i stryd, ac wedyn unrhyw eiddo cysylltiedig y gellir cael mynediad iddo oddi ar y stryd.

### 2. Pam fod enwi strydoedd a rhifo yn bwysig?

2.1. Mae cyfeiriad eiddo yn dod yn fater pwysig iawn. Mae pob sefydliad sector cyhoeddus a phreifat, y gwasanaethau brys a'r cyhoedd angen modd effeithlon a chywir o leoli a chyfeirnodi eiddo.

2.2. Mae cynnal safon gynhwysfawr, gyson, ac uchel ar gyfer enwi strydoedd a rhifo neu enwi eiddo yn hanfodol gan ei fod yn caniatáu:

- Y Gwasanaethau Brys i ddod o hyd i eiddo'n gyflym – gall oedi gostio bywydau ac arian
- Dosbarthu post, gwasanaethau a chynnyrch yn ddibynadwy ac yn effeithlon
- Cadw cofnodion o ddarparwyr gwasanaeth mewn modd effeithiol
- Cwmnïau i dderbyn cyfeiriad at ddibenion swyddogol wrth ddarparu gwasanaethau teleathrebu, yswiriant, bancio, gwirio statws credyd ac yn y blaen
- Ymwelwyr i ganfod eu cyrchfan

## 3. Pwy sy’n gyfrifol am enwi strydoedd a rhifo?

3.1. Mae gan Gyngor Sir Ddinbych gyfrifoldebau a grymoedd statudol, yng nghyd-destun deddfwriaeth a fabwysiadwyd, ar gyfer enwi strydoedd, newid enwau strydoedd, a nodi enwau strydoedd. Mae gan y Cyngor hefyd bwerau dewisol i ddarparu rhif neu enw i eiddo.

3.2. Dylid nodi nad oes gan y Post Brenhinol unrhyw gyfrifoldebau na phwerau statudol i enwi stryd nac enwi, rhifo, ailenwi nac ail-rifo eiddo. Y Post Brenhinol sydd â chyfrifoldeb llwyr dros neilltuo cod post wedi i Gyngor Sir Ddinbych eu hysbysu am gyfeiriad newydd neu ddiwygiedig.

## 4. Datganiad Polisi

4.1. Mae’r polisi hwn yn darparu fframwaith i Gyngor Sir Ddinbych weithredu ei swyddogaeth enwi strydoedd a rhifo yn effeithiol ac effeithlon er budd trigolion, busnesau ac ymwelwyr. Bydd hefyd yn ganllaw i ddatblygwyr pan fyddant yn ystyried enwau newydd i strydoedd.

4.2. Mae’r Polisi yn diffinio:

- Fframwaith cyfreithiol ar gyfer gweithredu gwasanaeth enwi strydoedd a rhifo
- Protocolau er mwyn penderfynu ar enwau strydoedd a rhifau swyddogol

4.3. Gellir enwi a rhifo o dan y Ddeddfwriaeth hon: Deddf Iechyd Cyhoeddus 1925 (ar gyfer enwi strydoedd) a Deddf Cymalau Gwella Trefi 1847 (ar gyfer rhifo eiddo).

4.4. Caiff swyddogaeth enwi strydoedd a rhifo ei darparu o dan Gynllun Dirprwyo’r Cyngor. Y swyddog dirprwyedig yw’r Pennaeth Gwasanaeth ar gyfer Gwella Busnes a Moderneiddio. O hyn allan ‘y swyddog â phwerau dirprwyedig’.

## 5. Ystyriaethau’r iaith Gymraeg

5.1. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn atebol am y darpariaethau sydd wedi’u cynnwys yn Neddf Iaith Gymraeg 1993, Mesur Iaith Gymraeg (Cymru) 2011, strategaeth iaith

Gymraeg Llywodraeth Cymru, Iaith fyw: Iaith Byw – Strategaeth iaith Gymraeg 2012 i 2017 a Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016.

5.2. Comisiynydd yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu pob agwedd o'r iaith Gymraeg.

5.3. Mae cynllun iaith Gymraeg yr Awdurdod yn sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal.

5.4. Y polisi mewn perthynas ag enwau strydoedd fydd mabwysiadu enw Cymraeg sy'n cyd-fynd â threftadaeth leol a hanes yr ardal.

5.5. Nid fydd enwau strydoedd sydd ar hyn o bryd mewn un iaith yn unig yn cael eu cyfieithu oni bai bod cais wedi'i wneud i ail-enwi'r stryd yn unol â'r broses ail-enwi yn Adran B, paragraff 4 (isod).

5.6. Lle bod ymholiad yn codi ynghylch enw lle, bydd y cyngor yn ymgynghori â gwasanaeth ymgynghorol ynglŷn ag enwau lleoedd Comisiynydd yr Iaith Gymraeg.

5.7. Cydnabyddir mai un fersiwn o gyfeiriad yn unig y gall sawl cronfa ddata ei dal. Gyda chyfeiriadau dwyieithog, polisi y Post Brenhinol yw cyhoeddi'r fersiwn Saesneg o'r cyfeiriad yn unig, a chadw'r fersiwn Gymraeg yn y cefndir neu fel enw arall. Nid oes gan yr Awdurdod Lleol unrhyw awdurdodaeth dros sut mae cwmnïau preifat yn cyhoeddi data am gyfeiriadau.

## 6. Pryd i wneud cais – canllawiau ar gyfer ymgeiswyr

6.1. Dylai ceisiadau am wasanaethau Enwi Strydoedd a Rhifo gael eu gwneud gan:

- Perchnogion / datblygwyr eiddo neu dir sydd yn dymuno ailenwi eiddo sydd ag enw eisoes
- Perchnogion / datblygwyr eiddo neu dir sydd yn dymuno ailenwi eiddo sydd ag enw eisoes

- Perchnogion / datblygwyr eiddo neu dir sy’n adeiladu eiddo newydd gan gynnwys eiddo preswyl, eiddo masnachol, unedau diwydiannol ac ati.

- Perchnogion / datblygwyr eiddo neu dir sy’n dymuno newid cynlluniau ar gyfer datblygiadau newydd sydd eisoes wedi mynd drwy’r broses enwi a rhifo ffurfiol.

- Perchnogion / datblygwyr eiddo neu dir sy’n trawsnewid eiddo presennol fydd yn golygu creu eiddo preswyl neu eiddo busnes newydd. Bydd hyn yn cynnwys adeiladau presennol sydd wedi eu hisrannu’n fflatiau neu’n swyddfeydd, ysguboriau a droswyd yn eiddo preswyl, a rhannu unedau masnachol

- Preswylwyr sy’n dymuno ailenwi stryd

- Gwasanaethau Brys sy’n dymuno ail-enwi stryd

- Unigolion a busnesau sy’n gofyn am gadarnhad i gyfeiriad

6.2. Gan fod y broses o enwi strydoedd a rhifo yn cynnwys ymgynghori a pharatoi amserlenni a gymeradwywyd, dylai ymgeiswyr ymgynghori gyda'r cyngor cyn gynted â phosib er mwyn osgoi oedi. Dylid cyflwyno ceisiadau cyn gynted ag sy’n bosib ar ôl derbyn cymeradwyaeth caniatâd cynllunio ac / neu reoliadau adeiladu ffurfiol ar gyfer y cais a chyn i waith ar y safle ddechrau.

## 7. Sut i wneud cais – canllawiau ar gyfer ymgeiswyr

7.1. Cofrestru enw stryd neu enw neu rif eiddo ar wefan Sir Ddinbych.

7.2. Fel arall gallwch gael ffurflen gais drwy:

- Ffôn: 01824 706000

- E-bost: llpgrequests@sirddinbych.gov.uk

# Polisi Enwi a Rhifo Strydoedd

## Adran B: Enwi Strydoedd

### 1. Egwyddor gyffredinol

1.1. Caiff strydoedd newydd eu henwi yn Sir Ddinbych yn unol â darpariaeth Deddf Iechyd Cyhoeddus 1925.

1.2. Rhaid i ddatblygwyr gynnal unrhyw gyswllt hanesyddol â'r tir neu'r ardal wrth awgrymu enw.

1.3. Mae'n bwysig fod datblygwyr yn cysylltu â'r Cyngor am enwi strydoedd a rhifo cyn i waith adeiladu gael ei gychwyn. Gall methu gwneud hynny arwain at oedi gan fod yn rhaid rhoi cymeradwyaeth er mwyn enwi strydoedd a rhifo cyn i unrhyw arwyddion gael eu gosod neu cyn y darperir cyfeiriadau post.

1.4. Bydd holl gostau cyflenwi a chodi placiau enwau strydoedd newydd yn cael eu talu gan y datblygwr. Dylid anfon cynllun manwl yn dangos y stryd(oedd) a rhifau plotiau bwriedig yn glir at y Swyddog Enwi Strydoedd a Rhifo. Mae'n bosib y bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal gyda'r Gwasanaeth Amgylchedd a Phriffyrdd o ran addasrwydd lleoliadau bwriedig y placiau enwau strydoedd. Gall manyleb arwyddion a manylion cyswllt cyflenwr gael eu darparu i'r datblygwr. Ar gyfer unrhyw stryd a fabwysiadwyd, bydd cynnal y plac(iau) enw yn dod yn gyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol.

1.5. Ni ddylai enwau strydoedd newydd ddyblygu unrhyw enw tebyg sydd eisoes yn cael ei ddefnyddio yn y dref bost. Ni fydd amrywio'r gair cyntaf, h.y. 'stryd', 'ffordd', 'rhodfa' ac ati yn cael eu derbyn fel rhesymau digonol i ddyblygu enw.

1.6. Ni fydd unrhyw gynnig i enwi stryd ar ôl unigolion penodol (byw neu farw) yn cael eu cymeradwyo.

1.7. Ni chaniateir unrhyw enwau strydoedd sy'n hyrwyddo cwmni, gwasanaeth na chynnyrch gweithredol gan y gellid ystyried hyn yn hysbysebu.

1.8. Mae'r awdurdod yn cadw'r hawl i wrthwynebu unrhyw enw a awgrymwyd y mae'n ystyried yn amhriodol.

## 2. Enwau Strydoedd Newydd

Dylid ymdrechu i ddechrau/gorffen gydag un o'r rhagddodiaid/ôl-ddodiaid canlynol:

| | |
|---|---|
| **Stryd / Street** | ar gyfer unrhyw ffordd |
| **Ffordd / Road** | ar gyfer prif ffyrdd |
| **Rhodfa / Avenue** | ar gyfer ffyrdd preswyl |
| **Dreif / Drive** | ar gyfer ffyrdd preswyl |
| **Llwyn / Grove** | ar gyfer ffyrdd preswyl |
| **Lôn / Lane** | ar gyfer ffyrdd preswyl |
| **Gerddi / Gardens** | ar gyfer ffyrdd preswyl (ar yr amod nag oes dryswch gydag unrhyw fan agored lleol) |
| **Maes / Place** | |
| **Trem / View** | |
| **Llys / Court** | ar gyfer ffordd bengaead |
| **Clôs / Close** | ar gyfer ffordd bengaead |
| **Cilgant / Crescent** | ar gyfer ffordd siâp cilgant |
| **Sgwâr / Square** | ar gyfer sgwâr yn unig |
| **Bryn / Hill** | ar gyfer ffordd ar ochr bryn yn unig |
| **Cylchfan / Circus** | ar gyfer cylchfan fawr |
| **Teras or Rhes / Terrace** | ar gyfer teras o dai (cyn belled nad yw'n enw ategol) |
| **Dyffryn / Vale** | ar gyfer ffyrdd preswyl yn unig dan amgylchiadau eithriadol |
| **Dôl / Meadow** | ar gyfer ffyrdd preswyl yn unig dan amgylchiadau eithriadol |

| | |
|---|---|
| **Gallt / Rise** | ar gyfer ffyrdd preswyl yn unig dan amgylchiadau eithriadol |

Ni fydd y canlynol yn dderbyniol fel rhagddodiaid:

- Pen / End
- Croes / Cross
- Ochr / Side
- Glanfa / Wharf
- Parc / Park

Gellir wrth gwrs ymgorffori pob un o'r geiriau hyn mewn enw stryd ar yr amod eu bod yn dechrau gyda rhagddodiad priodol e.e. Ffordd Pen y Filltir).

2.1. Dylai pob enw ffordd newydd i gerddwyr gychwyn gydag un o'r rhagddodiaid a ganlyn:

- Rhodfa / Walk
- Llwybr / Path
- Ffordd or Lôn / Way

2.2. Byddwn yn osgoi enwau sy'n anaddas yn esthetig fel Tŷ'r Omen, Lôn y Twll, neu enwau y gellir eu camddehongli'n fwriadol fel Hoare Road, Typple Avenue, Swag House ac ati.

2.3. Bydd defnyddio Gogledd, Dwyrain, De neu Orllewin (fel Gogledd Ffordd Alfred a De Ffordd Alfred) ond yn dderbyniol lle mae'r ffordd yn un barhaus ac yn parhau heibio i gyffordd fawr. Nid yw'n dderbyniol pan fydd y ffordd mewn dwy ran unigol heb fynediad i gerbydau rhwng y ddwy. Mewn achos o'r fath dylid ailenwi un hanner yn gyfan gwbl.

2.4. Ni fyddwn yn caniatáu dau enw sy'n debyg o ran sain o fewn ardal bost e.e. Ffordd Alfred a Clôs Alfred neu Ffordd Churchill a Ffordd Birch Hill neu Ffordd Talargoch a Rhodfa Talargoch.

2.5. Mae cyfrifoldeb ar Gyngor Sir Ddinbych fel awdurdod enwi strydoedd a rhifo i roi cymeradwyaeth derfynol i enw stryd.

2.6. Os oes anghytundeb heb ei ddatrys, bydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan y swyddog â phwerau dirprwyedig i gymeradwyo enwau strydoedd yng nghyfansoddiad y cyngor. Os yw'r unigolyn sy'n cynnig enwi'r stryd yn parhau i anghytuno gyda phenderfyniad y cyngor, gallant apelio yn erbyn y gwrthwynebiad i Lys Ynadon, o fewn un diwrnod ar hugain.

2.7. Bydd swyddfa Comisiynydd yr Iaith Gymraeg yn gyfrifol am benderfynu ar enwau lleoedd o ran cyfieithiadau Cymraeg a gymeradwywyd.

## 3. Defnyddio enwau marchnata answyddogol

3.1. Rhaid i ddatblygwyr nodi'n glir mewn unrhyw lenyddiaeth marchnata a ddosberthir i ddarparwyr bod enwau marchnata'n amodol ar gymeradwyaeth ffurfiol ac y gallent newid o ganlyniad.

## 4. Ailenwi Stryd / newid enw stryd

4.1. Mae ailenwi stryd ac ailrifo adeiladau yn broses sy'n cymryd llawer o amser a gall achosi costau neu aflonyddwch i breswylwyr a pherchnogion unigol a byddwn yn ei osgoi lle bynnag bo'n bosib. Byddwn fel arfer ond yn ystyried ailenwi stryd os yw problemau cyson yn codi i'r Gwasanaethau Brys a byddwn ond yn ystyried ailrifo eiddo pan fod datblygiadau mewnlenwi ac ati mor fawr, fel na ellir neilltuo rhifau ar gyfer yr eiddo newydd. Yna gallai cynllun ailrifo gael ei gynnal ar y stryd bresennol.

4.2. Gall y canlynol ail-enwi stryd, gan gynnwys newid enw stryd o enw uniaith i enw dwyieithog:

- Trethdalwr unigol sy'n preswylio yn y stryd a effeithir ar yr amod eu bod yn cyflwyno llythyr yn cynnig newid gyda llofnod 5 neu 25% (pa un bynnag yw'r lleiaf) o'r trethdalwyr sy'n preswylio ar y stryd.

- Y Gwasanaethau Brys.

4.3. Y cyngor fydd yn talu'r gost o ailenwi ac ailosod arwyddion ar strydoedd ar gais y Gwasanaethau Brys.

4.4. Os yw stryd yn cael ei hailenwi ar gais trethdalwr (neu grŵp o drethdalwyr ) ar y stryd, bydd yn rhaid i'r preswylwyr dalu'r gost o ailosod arwyddion y stryd. Bydd Cyngor Sir Ddinbych wedyn yn talu costau cynnal a chadw parhaus yr arwyddion.

4.5. Cyn ailenwi unrhyw stryd / addasu enw, bydd y Swyddog Enwi Strydoedd a Rhifo yn cynnal ymgynghoriad llawn gyda'r trethdalwyr ar y stryd a effeithir a'r rhai ar y rhestr ymgynghori a amlinellir ym mharagraff 4.1. Adran D. Bydd llythyr a ffurflen yn cael eu hanfon at bob trethdalwr ar y stryd a'r rhai ar y rhestr ymgynghori yn amlinellu'r rhesymau o blaid a goblygiadau'r newid arfaethedig. Bydd y cyfnod ymgynghori yn para 28 diwrnod. Rhaid cael mwyafrif o ran cefnogaeth gan yr ymgyngoreion er mwyn i gais fynd yn ei flaen.

4.6. Bydd adroddiad yn manylu ar ganlyniadau'r ymgynghoriad yn cael ei gyflwyno i'r swyddog â phwerau dirprwyedig a fydd yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r newid. Gallai rhesymau dros beidio â bwrw ymlaen â'r newid arfaethedig gynnwys y canlynol, ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt:

- Diffyg cefnogaeth gan drethdalwyr

- Costau afresymol

- Gwrthwynebiad dilys a difrifol gan fudd-ddeiliad na ellir ei ddatrys yn hawdd.

Bydd yr adroddiad yn cynnwys cost gosod unrhyw blaciau enw strydoedd newydd ac a fyddai'r newid arfaethedig yn golygu newid i god post y Post Brenhinol.

4.7. Ow yw'r swyddog â phwerau dirprwyedig yn penderfynu bwrw ymlaen â newid enw, bydd yr Awdurdod Lleol yn cyhoeddi rhybudd o fwriad i greu gorchymyn ailenwi stryd bresennol. Bydd yr hysbysiad hwn yn cael ei arddangos ar ben bob stryd neu mewn man amlwg ar y stryd neu ran o'r stryd yr effeithir arni dan Adran 18 Deddf Iechyd Cyhoeddus 1925 a rhaid iddynt aros yn eu lle am un mis cyn y gellir gwneud gorchymyn i newid yr enw. Gall unrhyw unigolion sydd wedi'u tramgwyddo gan orchymyn arfaethedig yr Awdurdod Lleol, apelio i'r Llys Ynadon o fewn 21 diwrnod o osod yr hysbysiad. Os gwneir apêl i'r Llys Ynadon, rhaid i'r Awdurdod Lleol aros nes bod apêl wedi'i chlywed cyn cymeradwyo unrhyw enw stryd.

## 5. Enwi strydoedd dienw sy'n bodoli eisoes

5.1. Bydd strydoedd dienw ond yn cael eu hailenwi pan fydd trethdalwr ar y stryd yn gwneud cais i enwi eu stryd (ac awgrymu enw) gan fod y diffyg enw yn achosi oedi cyn i'r Gwasanaethau Brys ddod o hyd i'r stryd. Bydd y weithdrefn yn unol ag Adran 2.3 ar gyfer ailenwi stryd ac mae'n rhaid i'r enw newydd gadw at yr egwyddorion a amlinellir yn y polisi hwn.

## 6. Arddangos enwau strydoedd (placiau enwau strydoedd)

6.1. Cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol yw arddangos placiau enwau strydoedd ar ffyrdd sy'n cael eu cynnal gan yr Awdurdod Lleol (priffyrdd a fabwysiadwyd).

6.2. Cyfrifoldeb y perchennog, datblygwr neu breswylwyr ffyrdd preifat yw gosod a chynnal planciau enwau strydoedd. Os tynnir sylw Awdurdod Lleol at y ffaith nad oes plac enw stryd wedi'i arddangos ar ffordd breifat bydd yr Awdurdod yn rhoi 21 diwrnod o rybudd i berchnogion / preswylwyr y ffordd i arddangos yr enw cywir.

6.3. Lle na chydymffurfir â'r Hysbysiad, bydd yr Awdurdod hwn yn rhoi 14 diwrnod o rybudd y bydd yn achosi i'r placiau enwau i gael eu harddangos ar y ffordd breifat, yn ddiofyn, ac adennill y costau oddi wrth berchnogion neu breswylwyr y ffordd, yn unol ag adran 18 (2), Deddf 1925. Gallai'r Awdurdod hwn hefyd ddechrau achos i adennill dirwy.

# Polisi Enwi a Rhifo Strydoedd

## Adran C: Enwi a Rhifio Eiddo

### 1. Dilyniant rhifo eiddo

1.1. Caiff strydoedd newydd eu rhifo yn Sir Ddinbych yn unol â darpariaethau Deddf Cymalau Gwella Trefi 1847.

1.2. Bydd strydoedd newydd yn cael eu rhifo fel bod eilrifau ar ochr dde'r stryd, wrth deithio allan o ganol y dref, o ddechrau i ddiwedd y stryd a bod odrifau yn cael eu neilltuo ar y chwith.

1.3. Bydd lonydd pengaead a datblygiadau ar raddfa fach yn cael eu rhifo'n olynol mewn cyfeiriad clocwedd. Bydd datblygiadau lôn bengaead hirach unwaith eto yn cael eu rhifo gydag eilrifau'n cael eu neilltuo i eiddo ar y ochr dde ac odrifau'n cael eu neilltuo i eiddo ar y chwith.

1.4. Bydd rhifau (gan gynnwys rhif 13) yn parhau i fod yn olynol ac ni fydd unrhyw rif yn cael ei eithrio o ganlyniad i ofergoel neu ddewis personol. Bydd ceisiadau i hepgor unrhyw rif o gyfres o rifau, am ba bynnag reswm, yn cael eu gwrthod.

1.5. Bydd eiddo (gan gynnwys rhai ar safleoedd cornel) yn cael eu rhifo yn ôl y stryd y lleolir y brif fynedfa arni.

1.6. Lle nad yw dilyniant rhifo strydoedd yn bodoli, yn bennaf mewn ardaloedd gwledig, bydd yn briodol i neilltuo enwau eiddo y cytunwyd arnynt. Argymhellir y dylid cynnal cysylltiad hanesyddol neu ddiwylliannol neu'r ardal leol yn enw'r eiddo.

1.7. Bydd datblygiadau mewnlenwi (eiddo newydd a adeiladwyd rhwng eiddo sydd eisoes yn bodoli neu ar dir eiddo presennol) ar stryd a rifwyd yn ael yr un rhif tŷ a'r eiddo cyn y mewnlenwi, a'i ddilyn gan ôl-ddodiad 'A', 'B'. Er enghraifft, 10A, 10B ac ati.

1.8. Ni chaiff enw busnes gymryd lle rhif neu enw adeilad.

1.9. Bydd atodiadau i adeiladau e.e. fflatiau nain neu lety ategol, yn derbyn y rhagddodiad "Anecs". Bydd gweddill y cyfeiriad yr un fath â'r prif eiddo e.e. Anecs, 1 Stryd Fawr.

1.10. Ar gyfer unrhyw annedd sydd â mynediad mewnol iddo trwy gynsail masnachol, bydd y llety yn derbyn rhagddodiad i gyd-fynd â'r math o lety e.e. fflat. Bydd gweddill y cyfeiriad yr un fath â'r prif eiddo, e.e. lle mae fflat uwchben tafarn ac mai dim ond mynediad mewnol sydd iddo, ei gyfeiriad fydd Fflat, Enw'r Dafarn, Rhif yr Eiddo ac Enw'r Stryd.

1.11. Gellir rhoi enw i flociau o fflatiau a fflatiau aml-lawr, ond bydd pob fflat neu fflat aml-lawr unigol yn cael eu rhifo'n olynol.

1.12. Yn ddelfrydol dylai enw pob bloc o ddatblygiadau newydd arfaethedig ddechrau gydag un o'r rhagddodiaid canlynol (neu ôl-ddodiaid yn achos cyfieithiadau Saesneg):

- Llys
- Tŷ
- Man
- Tŵr
- Llety
- Fflatiau
- Plastai
- Ucheldir

1.13. Bydd y gair "fflat" yn berthnasol i'r eiddo hynny lle mae llety ar un llawr yr adeilad yn unig. Os yw llety preswyl yn ymdrin â dau neu fwy o loriau a bod ganddo ei risiau mewnol ei hun, bydd y term "fflat aml-lawr" yn cael ei ddefnyddio.

1.14. Rhoddir rhif yn hytrach na llythyren neu ddisgrifiad i bob fflat e.e. Fflat 1 yn hytrach na Fflat A neu Fflat Llawr Cyntaf.

## 2. Canolfannau siopa, parciau manwerthu ac ystadau diwydiannol

2.1. Mae enwau ar gyfer Canolfannau Siopa, Parciau Manwerthu ac Ystadau Diwydiannol ac ati yn dilyn yr un egwyddorion â'r rhai a amlinellwyd ar gyfer enwau strydoedd neu adeiladau.

## 3. Gweithredu cyfeiriadau newydd

3.1. Pan fod datblygiad newydd wedi ei gymeradwyo, caiff cyfeiriadau eu creu gan y Cyngor fel endidau 'dros dro'. Mae manylion y datblygiad arfaethedig yn cael eu rhannu gyda'r Post Brenhinol sydd wedyn yn 'Dal a chofnodi' y cyfeiriadau ar eu cronfa ddata cyfeiriadau "Heb eu Creu Eto". Er mwyn osgoi unrhyw broblemau lle caiff post ei anfon at eiddo nad ydynt yn bodoli, nid yw'r cyfeiriadau'n cael eu gweithredu hyd nes bod preswylwyr yn yr eiddo neu eu bod wedi'u cwblhau ac felly'n gallu derbyn gwasanaethau post.

## 4. Ychwanegu enw neu ailenwi eiddo sydd eisoes wedi'i rifo

4.1. Lle bod rhif ar eiddo, rhaid iddo gael ei ddefnyddio a'i arddangos. Pan fydd enw'n cael ei roi i eiddo ynghyd â'i rif swyddogol, rhaid cynnwys y rhif bob amser. Ni ellir ystyried yr enw fel dewis arall yn lle'r rhif.

4.2. Gall perchennog (nid tenant) eiddo ofyn i ychwanegu, diwygio neu ddileu enw ar gyfer eu heiddo. Pan fydd eiddo wedi'i rifo, bydd unrhyw enw yn ychwanegol at y rhif.

4.3. Os ceir cais i ychwanegu enw i eiddo sydd eisoes wedi cael ei rifo, bydd yr awdurdod yn rhoi'r arweiniad canlynol:

- Ni ddylai fod unrhyw wrthdaro ag enwau ar eiddo neu stryd bresennol yn yr ardal bost.
- Ni ddylid enwi eiddo ar ôl unigolion penodol (byw neu farw).

- Ni ddylai'r enw bwriedig gynnwys iaith sarhaus neu amhriodol.

4.4. Pan fydd yr awdurdod lleol wedi rhifo tŷ a bod y preswylydd wedi rhoi enw arno hefyd, bydd y Post Brenhinol ond yn cynnwys y rhif yn y cyfeiriad post.

## 5. Trawsnewid adeilad presennol

5.1. Os caiff eiddo preswyl ei drawsnewid neu ei isrannu gan arwain at greu un pwynt mynediad lle ceir mynediad i bob fflat, bydd yn cael ei rifo yn hytrach na'i ddisgrifio neu ei nodi â llythrennau. Er enghraifft, Fflat 1 yn hytrach na Fflat Llawr Cyntaf neu Fflat A

5.2. Os caiff eiddo preswyl ei drawsnewid neu ei isrannu gan arwain at greu mwy nag un pwynt mynediad gyda drws ffrynt unigol ar gyfer pob fflat o'r stryd a ddynodwyd, bydd yn cynnwys ôl-ddodiad i'r prif gyfeiriad neu i'r cyfeiriad cragen. Er enghraifft bydd 'A', 'B', 'C' yn dod yn 10A, 10B, 10C

5.3. Bydd eiddo cyfun yn defnyddio rhifau'r eiddo gwreiddiol os yw rhifau eiddo'n cael eu defnyddio. Er enghraifft bydd cyfuno dau eiddo o'r enw 4 Stryd Fawr a 6 Stryd Fawr neu Uned 1 Stad Fasnachu ac uned 2 Stad Fasnachu yn arwain at greu'r cyfeiriadau newydd 4 – 6 Stryd Fawr ac Uned 1 – 2 Stad Fasnachu yn y drefn honno.

## 6. Ailrifio eiddo presennol

6.1. Byddwn yn ystyried ailrifo eiddo presennol pan fo newidiadau'n digwydd sy'n achosi (neu'n debygol o achosi) problemau o ran darparu gwasanaethau neu faterion a nodir gan y gwasanaethau brys. Gallai hyn fod yn berthnasol pan na ellir cynnwys datblygiad newydd o fewn y dilyniant rhifo presennol. Gan y gall y broses gymryd llawer o amser ac y gall arwain at gostau, amhariad neu anghyfleustra ychwanegol i breswylwyr unigol, dylid ei osgoi lle bynnag fo modd.

6.2. Ar gyfer datblygiadau newydd o fewn stryd bresennol ffefrir defnyddio ôl-ddodiaid neu ailrifo lle mai dim ond ychydig o eiddo a fydd yn cael eu heffeithio yn hytrach nac ailrifo'r stryd gyfan. Fodd bynnag, nid yw hyn bob amser yn bosibl a bydd

strydoedd yn cael eu hailenwi ac eiddo’n cael eu hailrifo yn ôl disgresiwn Cyngor Sir Ddinbych.

## 7. Arddangos enwau a rhifau eiddo

7.1. Mae’n rhaid bod modd gweld pob rhif eiddo o’r briffordd. Gallai hyn gynnwys gosod rhifau ar bolion, gatiau neu ffensys (ac nid o reidrwydd ar ddrws yr eiddo) er mwyn ei gwneud yn hawdd adnabod yr eiddo, yn enwedig os oes argyfwng.

# Polisi Enwi a Rhifo Strydoedd

## Adran D: Cyfeiriad Post

### 1. Neilltuo cyfeuruadau post

1.1. Nid yw neilltuo cyfeiriadu post yn gyfystyr â chadarnhad bod unrhyw adeilad neu adeiledd wedi'i awdurdodi dan Reoliadau Cynllunio, Adeiladu neu unrhyw Ddeddfwriaeth arall. Gallai perchnogion / preswylwyr wynebu'r posibilrwydd o gamau gorfodi os na sicrhawyd unrhyw gymeradwyaeth angenrheidiol.

1.2. Nid yw'r Awdurdod Lleol yn atebol nac yn gyfrifol am sicrhau fod unrhyw drydydd parti, gan gynnwys y Post Brenhinol, yn diweddaru gwybodaeth cyfeiriadau ar eu cronfeydd data.

1.3. Ni ellir rhoi cyfeiriad post i ddarn o dir neu adeilad ategol gwag, e.e. cae fferm. Dim ond eiddo ar y darn hwnnw o dir all dderbyn cyfeiriad at ddibenion ddosbarthu post a gwasanaeuthau

### 2. Codau post

2.1. Caiff pob elfen o gyfeiriad, ac eithrio cod post, eu diffinio gan Gyngor Sir Ddinbych. Eiddo Deallusol yr awdurdod yw rhifau ac enwau a gaiff eu neilltuo i eiddo a'r enwau swyddogol a gaiff eu neilltuo i strydoedd. Y Post Brenhinol sy'n rheoli'r broses o neilltuo codau post a rhaid iddynt eu darparu ar ôl derbyn y cynllun enwi a rhifo swyddogol gan yr Awdurdod Lleol ond bydd y cod post yn cael ei gadw "wrth gefn" gan y Post Brenhinol hyd nes eu bod yn cael eu hysbysu bod preswylwyr yn yr eiddo.

2.2. Nid yw'r Post Brenhinol yn cyhoeddi cyfeiriadau ar eu gwefan nad ydynt wedi'u cwblhau a / neu â phreswylwyr. Mewn achosion penodol, mae hyn yn golygu bod posibilrwydd na fydd modd, am gyfnod, i unrhyw sy'n defnyddio gwefan y Post Brenhinol i ddilysu cyfeiriad, weld cyfeiriadau sydd wedi eu neilltuo a'u cyhoeddi'n swyddogol gan yr Awdurdod Lleol. Gall hyn hefyd olygu na fydd modd i sefydliadau eraill sy'n defnyddio cronfa ddata gyfeiriadau'r Post Brenhinol (Ffeil Cyfeiriadau Cod Post) wneud hynny er mwyn dilysu cyfeiriadau.

2.3. Dylai datblygwyr, perchnogion a thenantiaid fod yn ymwybodol bod posibilrwydd na fydd gan eu heiddo'r un cod post ag eiddo cyfagos neu sydd eisoes yn bodoli.

2.4. Cyfrifoldeb y Post Brenhinol yw cynnal gwybodaeth am godau post, ac unrhyw newid yn y dyfodol i godau post unigol neu sectorau cod post.

## 3. Enw'r Sir

3.1. Nid yw'r sir yn rhan o unrhyw gyfeiriad post ac felly nid yw newidiadau iddo wedi'u cynnwys o dan God Ymarfer Ffeil Cyfeiriadau Cod Post y Post Brenhinol.

3.2. Roedd hen siroedd post y Deyrnas Unedig, a elwir yn swyddogol bellach yn hen siroedd post, yn israniadau post a ddefnyddiwyd yn rheolaidd gan y Post Brenhinol tan 1996. Raison d'être y sir bost - yn wahanol i unrhyw fath arall o sir – oedd helpu didoli post drwy alluogi gwahaniaethu rhwng trefi post a oedd yn swnio'n debyg i'w gilydd. Ers 1996 mae hyn wedi'i wneud drwy ddefnyddio cod allanol (hanner cyntaf) y cod post yn lle hynny. Tynnwyd y sir bost o gronfa ddata'r Ffeil Cyfeiriadau Cod Post yn 2000 ac nid yw'n rhan o god ymarfer y Post Brenhinol ar gyfer newid cyfeiriadau.

3.3. Er gwaethaf hyn, gwerthir data sirol yn rheolaidd i gwmnïau, yn ôl pob golwg er mwyn iddynt dacluso eu data cyfeiriadau eu hunain. Gan mai data'r hen siroedd post oedd yr olaf i gael eu defnyddio'n rheolaidd, mae rhai sefydliadau wedi parhau i ddefnyddio'r hen ddata hwn fel rhan o gyfeiriadau post. Am y rheswm hwn mae sir Clwyd yn ymddangos ar rai eitemau o bost.

## 4. Hysbysu partneriaid mewnol ac allanol am newid i wybodaeth cyfeiriadau

4.1. Ar ôl cwblhau cais Enwi Strydoedd a Rhifo, bydd y Cyngor yn cynnwys y partneriaid canlynol fel rhan o'r broses hysbysu ffurfiol:

- Y Cynghorydd Sir lleol perthnasol
- Y Cyngor Dinas, Tref neu Gymuned berthnasol

- Gwasanaethau mewnol y Cyngor
- Gwasanaeth Ambiwlans y Cyngor
- Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru
- Heddlu Gogledd Cymru
- Y Post Brenhinol
- Y Gofrestrfa Tir

## 5. Rhestr Cyfeiriadau Corfforaethol Cyngor Sir Ddinbych

5.1. Mae dwy brif ffynhonnell o wybodaeth am gyfeiriadau yn cael eu defnyddio ar draws y DU – y Rhestr Cyfeiriadau ac Enwau Strydoedd Cenedlaethol a Ffeil Cyfeiriadau Post y Post Brenhinol.

5.2. Fel awdurdod lleol, mae'n rhaid i'r Cyngor, dan Gytundeb Mapio'r Sector Cyhoeddus, reoli a chynnal Rhestr Cyfeiriadau ac Enwau Strydoedd Corfforaethol gan ddarparu diweddariadau ar newidiadau'n rheolaidd i ganolfan ganolog y Rhestr Cyfeiriadau ac Enwau Strydoedd Cenedlaethol priodol.

5.3. Y Rhestr Cyfeiriadau ac Enwau Strydoedd Corfforaethol, sy'n cael eu rheoli a'u cynnal gan bob awdurdod lleol ac unedol ledled Cymru, Lloegr a'r Alban, yw'r conglfaen ar gyfer datblygu parhaus a darparu rhaglen isadeiledd cyfeiriadau cenedlaethol ar gyfer Prydain.

5.4. Rheolir y Rhestr Cyfeiriadau ac Enwau Strydoedd Cenedlaethol gan GeoPlace (partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig y sector cyhoeddus rhwng y Gymdeithas Llywodraeth Leol a'r Arolwg Ordnans) sy'n darparu ffynonellau wedi'u diweddaru a therfynol o gyfeiriadau cyfredol a data strydoedd sy'n eiddo i'r cyhoedd.

5.5. Cydnabyddir y Rhestrau Cenedlaethol fel elfennau hanfodol ar gyfer datblygu cofrestr gynhwysfawr o wybodaeth gywir am gyfeiriadau a strydoedd ar gyfer y sectorau cyhoeddus a phreifat.

5.6. Mae’r Rhestrau Corfforaethol yn cydymffurfio â Safon Brydeinig BS7666 – Setiau Data Gofodol ar gyfer Cyfeirio Daearyddol Rhan 1 a 2 a Chanllawiau’r Confensiwn Mewnfudo Data Cenedlaethol fel y cytunwyd gan yr awdurdodau cynnal dynodedig.

5.7. Dyluniwyd ffeil cyfeiriadau cod post (PAF) y Post Brenhinol yn benodol i gefnogi’r gwaith o ddarparu gwasanaethau dosbarthu post ac nid yw’r Post Brenhinol yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb nac atebolrwydd am y defnydd o PAF at unrhyw ddiben neu ddefnydd arall arfaethedig y tu hwnt i ddarparu’r gwasanaethau hyn.

5.8. Bwriad y Rhestr Cyfeiriadau Corfforaethol yw hwyluso cyflwyno pob gwasanaeth yn gywir ac mae’n seiliedig ar leoliad daearyddol gwirioneddol yr eiddo, ond mae hefyd yn cynnwys y dref bost a ddefnyddir gan y Post Brenhinol.

5.9. Yn ogystal â hynny, mae’r Rhestr Cyfeiriadau Corfforaethol yn cynnwys gwrthrychau ychwanegol nad ydynt yn ymwneud â phost fel tir datblygu ac amaethyddol, coetiroedd, parciau, eglwysi, neuaddau, toiledau cyhoeddus ac ati nad ydynt wedi’u cynnwys yn y PAF.

5.10. Rhestr Cyfeiriadau Corfforaethol y Cyngor yw’r brif gofrestr gyfeiriadau a ddefnyddir wrth ddarparu gwasanaethau’r Cyngor.

5.11. Mae’n bwysig cydnabod mai un cyfeiriad pendant sy’n cael ei ddefnyddio gan yr holl wasanaethau wrth gysylltu â thrigolion a busnesau, ac ar gyfer ein cwsmeriaid drwy gyfrwng y wefan. Bydd cael un system gyfeiriadau derfynol yn caniatáu canfod pob manylyn am eiddo neu ddarn o dir o holl systemau cefn swyddfa’r Cyngor ac yn caniatáu ymateb wedi’i gydgysylltu i ymholiadau cwsmeriaid.

5.12. Mae integreiddio’r brif gronfa ddata gyfeiriadau â systemau mewnol eraill yn osgoi dyblygu data a chynnal data ac yn caniatáu cyfnewid gwybodaeth mewn modd haws a mwy cywir rhwng adrannau, awdurdodau ac asiantaethau.

5.13. Mae darparu gwybodaeth gywir ar gyfeiriadau’n hanfodol bwysig i wasanaethau brys lleol.

# Polisi Enwi a Rhifo Strydoedd

5.14. Rhaid i bob system cronfa ddata newydd y mae’r awdurdod yn eu caffael neu eu datblygu sy’n defnyddio data cyfeiriadau gydymffurfio â BS7666 a gallu derbyn diweddariadau LLPG yn llwyddiannus.

# Polisi Enwi a Rhifo Strydoedd

## Adran E: Gosod placiau enwau strydoedd

1. Dylid gosod placiau enwau strydoedd mor agos â phosibl at gorneli strydoedd, fel bod modd i yrwyr a cherddwyr eu darllen yn hawdd. Fel rheol, dylai placiau enwau fod o fewn 3m i groesffordd y llinellau palmant, ond lle nad yw hyn yn ymarferol, gellid amrywio'r pellter am hyd at uchafswm o 6m.

2. Dylid gosod placiau enwau strydoedd fel bod ymyl isaf y plac tua 1m uwchben y ddaear mewn safleoedd lle maent yn annhebygol o gael eu cuddio gan gerddwyr neu gerbydau ac am oddeutu 2.5m lle mae rhwystr yn broblem. Ni ddylent fyth fod yn is na 600mm nac yn uwch na 3.6m.

3. Fel arfer, dylid gosod placiau enwau ar gornel pob stryd. Ar groesffyrdd llai, yn enwedig mewn ardaloedd preswyl, gallai un plac ar bob ochr i'r stryd wedi eu gosod yr ochr bellaf i draffig sy'n gadael y ffordd fod yn ddigonol, ac eithrio pan fo enw'r ffordd yn newid neu os credir y byddai paragraff 8 yn berthnasol.

4. Ar gyffyrdd siâp T dylid gosod prif blac enw'r stryd yn uniongyrchol gyferbyn â thraffig su'n nesáu o'r ffordd ymyl.

5. Os yw enw'r stryd yn newid mewn man ar wahân i groesffordd, dylid arddangos y ddau enw yn y man lle mae'r newid yn digwydd ac mae llawer o Awdurdodau Lleol wedi penderfynu ei bod yn ddefnyddiol i gynnwys saethau i nodi'n glir at ba rannau o'r stryd y mae'r enw'n cyfeirio atynt.

6. Ar ddarnau syth o ffyrdd heb groesffyrdd, dylid ailadrodd placiau enwau o fewn pellter rhesymol gan roi blaenoriaeth i lefydd fel gorsafoedd bysiau a threnau, a gyferbyn â mynedfeydd i safleoedd a ddefnyddir yn rheolaidd fel meysydd parcio.

7. Os yw dwy stryd yn fforchio ar letraws o gyffordd gyffredin gyda thrydedd stryd, gall placiau ar fynegbyst fod yn ddefnyddiol, cyn belled nad ydynt yn cuddio unrhyw arwyddion traffig.

8. Lle y byddai'n rhesymol i ddisgwyl, er enghraifft bob hyn a hyn ar ddarnau syth o ffordd neu ar groesffordd neu gyffyrdd siâp T, mae llawer o Awdurdodau Lleol wedi

penderfynu ei bod yn ddefnyddiol i ymgorffori, ar y plac enw, wybodaeth sy’n nodi rhifau’r stryd bob ochr i’r groesffordd.

9. Pan fo hynny’n ymarfer, dylid gosod placiau enwau strydoedd ar waliau, adeiladau neu adeileddau ffiniol eraill ar ochr gefn y llwybr troed. Dylid ond gosod placiau ar bolion neu fynegbyst os na fyddai eu gosod yn y modd arferol yn gwneud y plac yn amlwg (e.e. lle mae mynedfa gul i ffordd ymyl bwysig neu dan yr amgylchiadau eithriadol a nodwyd ym mharagraff 7 uchod, neu lle y bydd yn cael ei guddio’n aml gan symudiadau cerddwyr ac na ellir ei osod ar yr uchder o 2.5m).

10. Dylid gosod y placiau enwau gan sicrhau fod o leiaf 300 mm o ofod clir i bob cyfeiriad rhyngddynt ac unrhyw hysbysiadau, hysbysebion neu ddeunydd printiedig neu ysgrifenedig arall. Lle bo’n bosib, dylid darparu mwy o ofod. Dylid cymryd gofal i sicrhau nad yw’r olygfa o blaciau enwau yn cael ei rhwystro gan goed neu dyfiant arall.

11. Lle bo modd, dylid gosod placiau enwau fel eu bod yn cael eu goleuo gan lampau stryd, yn enwedig ar gyffyrdd pwysig, cyn belled eu bod yn dal yn weladwy i gerbydau ar y brif ffordd.

12. Gellir arddangos enwau strydoedd mewn paneli ar folardiau sy’n wynebu troedffyrdd, yn ychwanegol i, ond nid yn lle, placiau enwau eraill.

# Polisi Enwi a Rhifo Strydoedd

## Adran F: Adolygu'r Polisi

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu bob tair blynedd neu'n gynharach os oes angen newid mawr yn y broses yn sgil cyflwyno deddfwriaeth newydd, er enghraifft.

## Adran G: Cysylltiadau defnyddiol

Gallwch gysylltu â'r Swyddog Enwi Strydoedd a Rhifo drwy'r ffyrdd canlynol:

**Gwefan**: Cofrestru enw stryd neu enw neu rif eiddo.

**E-bost**: llpgrequests@sirddinbych.gov.uk

**Ffôn**: 01824706000 a gofyn i siarad â'r Swyddog Enwi Strydoedd a Rhifo.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | **Pwyllgor Craffu Cymunedau** |
| **Dyddiad y cyfarfod** | **20 Ionawr 2022** |
| **Swyddog Arweiniol** | **Rhian Evans - Cydlynydd Craffu** |
| **Awdur yr Adroddiad** | **Rhian Evans - Cydlynydd Craffu** |
| **Teitl** | **Rhaglen Waith Craffu** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn gofyn i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau adolygu ei raglen gwaith i'r dyfodol drafft. Wrth wneud hyn gofynnir i'r Pwyllgor adlewyrchu ar oblygiadau'r ffocws ar weithrediadau critigol i fusnes yn ystod cyfnod argyfwng y pandemig COVID -19 a'r gwaith sy'n digwydd neu'n cael ei gynllunio dan y trefniadau adfer, tra ar yr un pryd yn cadw mewn côf yr eitemau busnes hynny oedd eisoes ar ei raglen gwaith cyn y pandemig.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

Gofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ar ei raglen gwaith i'r dyfodol, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau ar faterion perthnasol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn:

3.1 ystyried yr wybodaeth a ddarparwyd ac yn cymeradwyo, diwygio neu'n newid ei raglen gwaith i'r dyfodol fel y gwêl yn briodol; ac

3.2 yn penderfynu os oes unrhyw prif bwyntiau neu themau o'r cyfarfod hwn y dymuna dynnu sylw atynt trwy'r wasg a/neu'r cyfryngau cymdeithasol.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae Erthygl 7 Cyfansoddiad Cyngor Sir Ddinbych yn nodi cylch gorchwyl, swyddogaethau ac aelodaeth pob Pwyllgor Craffu, yn ogystal â rheolau gweithdrefnau a trafodaethau.

4.2 Mae’r Cyfansoddiad yn amodi bod yn rhaid i bwyllgorau craffu’r Cyngor osod, ac adolygu’n rheolaidd, rhaglen ar gyfer eu gwaith i’r dyfodol. Trwy adolygu a blaenoriaethu materion, gall aelodau sicrhau bod y rhaglen waith yn cyflwyno agenda a arweinir gan yr aelodau.

4.3 Arfer sydd wedi’i fabwysiadu yn Sir Ddinbych ers nifer o flynyddoedd yw bod pwyllgorau craffu’n cyfyngu ar nifer yr adroddiadau a ystyrir mewn unrhyw gyfarfod i uchafswm o bedwar, yn ogystal ag adroddiad rhaglen waith y Pwyllgor ei hun. Nod y dull hwn yw hwyluso trafodaeth fanwl ac effeithiol ar bob pwnc.

4.4 Yn y blynyddoedd diweddar mae Llywodraeth Cymru (LlC) ac Archwilio Cymru wedi tynnu sylw at yr angen i gryfhau rôl craffu ar draws llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys defnyddio craffu fel modd o ymgysylltu â phreswylwyr a defnyddwyr gwasanaeth. O hyn allan, disgwylir i graffu ymgysylltu'n well ac yn amlach â'r cyhoedd gyda bwriad i sicrhau penderfyniadau gwell a fydd yn y pen draw yn arwain at well canlyniadau i ddinasyddion. Bydd Archwilio Cymru yn mesur effeithiolrwydd craffu wrth gyflawni'r disgwyliadau hyn.

4.5 Gan ystyried y weledigaeth genedlaethol ar gyfer craffu a chanolbwyntio ar yr un pryd ar flaenoriaethau lleol, mae’r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu (GCIGC) wedi argymell y dylai pwyllgorau craffu’r Cyngor, wrth benderfynu ar eu rhaglenni gwaith, ganolbwyntio ar y meysydd allweddol canlynol:

- arbedion ar y gyllideb;
- cyflawni Amcanion y Cynllun Corfforaethol (gyda phwyslais arbennig ar y modd o’u cyflawni yn ystod cyfnod o galedi ariannol);
- unrhyw eitemau eraill a gytunwyd gan y Pwyllgor Craffu (neu'r GCIGC) fel blaenoriaeth uchel (yn seiliedig ar y meini prawf profion PAPER - gweler ochr gefn y ‘Ffurflen Cynnig gan Aelodau’ yn Atodiad 2);
- Materion brys, na ragwelwyd, neu flaenoriaeth uchel; a

- Cefnogi gwaith adfer y Cyngor mewn perthynas ag effeithiau'r argyfwng COVID-19 ar wasanaethau'r Cyngor, yr economi leol a chymunedau'r sir

4.6 Ffurflenni Cynnig ar gyfer Craffu

Fel y crybwyllwyd ym mharagraff 4.2 uchod, mae Cyfansoddiad y Cyngor yn gofyn i bwyllgorau craffu baratoi ac adolygu rhaglen ar gyfer eu gwaith i'r dyfodol. Er mwyn cynorthwyo'r broses o flaenoriaethu adroddiadau, os yw'r swyddogion o'r farn fod pwnc yn haeddu'r amser i gael ei drafod ar raglen fusnes y Pwyllgor, mae'n rhaid iddynt wneud cais ffurfiol i'r Pwyllgor i ystyried derbyn adroddiad ar y pwnc hwnnw. Gwneir hyn trwy gyflwyno 'ffurflen gynnig' sy'n egluro pwrpas, pwysigrwydd a chanlyniadau posibl y pynciau a awgrymir. Does dim un ffurflen gynnig wedi dod i law gan swyddogion i'w ystyried yn y cyfarfod cyfredol.

4.7 Er mwyn gwneud gwell defnydd o amser craffu drwy ganolbwyntio adnoddau pwyllgorau i archwilio testunau'n fanwl, gan ychwanegu gwerth drwy'r broses o wneud penderfyniadau a sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer preswylwyr, penderfynodd y GCIGC y dylai'r aelodau, yn ogystal â swyddogion, lenwi 'ffurflenni cynnig ar gyfer craffu' yn amlinellu pam eu bod yn credu y byddai'r testun yn elwa o fewnbwn craffu. Mae copi o'r 'ffurflen gynnig gan aelod' i'w gweld yn Atodiad 2. Mae ochr gefn y ffurflen hon yn cynnwys siart lif sy'n rhestru'r cwestiynau y dylai aelodau eu hystyried wrth baratoi i gynnig eitem ar gyfer craffu, ac y dylai pwyllgorau eu gofyn wrth benderfynu ar addasrwydd testun i'w gynnwys ar y rhaglen gwaith i'r dyfodol craffu. Os, ar ôl cwblhau'r broses hon, y penderfynir nad yw'r testun yn addas i'w archwilio'n ffurfiol gan bwyllgor craffu, yna gellir ystyried dulliau eraill o rannu'r wybodaeth neu archwilio'r mater e.e. darparu 'adroddiad gwybodaeth', neu os yw'r mater yn un o natur leol gellir ei archwilio gan y Grŵp Ardal Aelodau (GAA) perthnasol. Ni ddylid cynnwys unrhyw eitemau ar raglen gwaith i'r dyfodol heb i 'ffurflen gynnig ar gyfer craffu' gael ei chwblhau ac i'r pwnc dderbyn cymeradwyaeth i'w gynnwys ar y rhaglen gan y Pwyllgor neu'r GCIGC. Mae cymorth ar gael i lenwi'r ffurflenni gan y Cydlynydd Craffu.

Rhaglen Adfywio'r Rhyl

4.8 Yn wreiddiol, roedd adroddiad cynnydd ar y rhaglen uchod wedi'i amserlennu i'w gyflwyno yn y cyfarfod cyfredol. Gan fod y Cyngor ar hyn o bryd yn aros am ganlyniad cais i gronfa Codi'r Gwastad Llywodraeth y DU am adnoddau ariannol tuag at y rhaglen ac hefyd y bydd adnoddau newydd i gefnogi Rheolaeth y Rhaglen

yn cael ei rhoi mewn lle yn gynnar yn 2022, gofynnodd swyddogion i gyflwyniad yr adroddiad gael ei ohirio tan ddiwedd y gwanwyn/dechrau'r haf. Caniataodd y Cadeirydd y cais ac mae'r adroddiad bellach wedi'i amserlennu yn rhaglen waith y Pwyllgor ar gyfer ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2022 (gweler Atodiad 1).

Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet

4.9 Wrth benderfynu ar eu rhaglen gwaith i'r dyfodol mae'n bwysig fod pwyllgorau craffu yn ystyried amserlen rhaglen waith y Cabinet. At y diben hwn, mae copi o rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet ynghlwm yn Atodiad 3.

Y Diweddaraf am Benderfyniadau'r Pwyllgor

4.10 Yn Atodiad 4 o'r adroddiad hwn mae tabl yn crynhoi penderfyniadau diweddar y Pwyllgor ac yn cynghori'r aelodau ar ddatblygiadau yn sgîl y penderfyniadau.

## 5. Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu

5.1 Dan drefniadau craffu'r Cyngor mae'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu (GCIGC) yn gweithredu fel pwyllgor cydlynu. Cyfarfu'r Grŵp ar 25 Tachwedd 2021. Ni chyfeiriodd y Grŵp unrhyw bynciau i'r Pwyllgor hwn i'w hystyried. Cynhelir cyfarfod nesaf y Grŵp yn ystod prynhawn yr 20 Ionawr 2022.

## 6. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Bydd craffu effeithiol yn gymorth i'r Cyngor ddarparu y blaenoriaethau corfforaethol yn unol ag anghenion cymunedau a dymuniadau trigolion. Bydd datblygu ac adolygu rhaglen waith gydlynol yn barhaus yn cynorthwyo'r Cyngor i ddarparu ei flaenoriaethau corfforaethol, i wella canlyniadau i breswylwyr tra hefyd yn dygymod â phwysau ar adnoddau ac ar y gyllideb.

## 7. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae’n bosib y bydd yn rhaid i wasanaethau neilltuo amser swyddog i gynorthwyo’r Pwyllgor gyda’r eitemau a nodwyd yn y rhaglen waith a chydag unrhyw gamau gweithredu yn dilyn ystyried yr eitemau hynny.

## 8. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o’r Effaith ar Les?

Nid oes Asesiad o Effaith ar Les wedi ei wneud mewn perthynas â phwrpas neu gynnwys yr adroddiad hwn.  Ond bydd y Pwyllgor Craffu, drwy ei waith yn archwilio darpariaeth gwasanaethau, polisïau, gweithdrefnau a chynigion yn ystyried eu heffaith neu eu heffaith posib ar yr egwyddor o ddatblygu cynaliadwy a'r amcanion o ran lles a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## 9. Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Does dim angen cynnal ymgynghoriad ar yr adroddiad hwn  Fodd bynnag, mae’r adroddiad ei hun a’r ystyriaeth a roir gan y Pwyllgor i’w raglen waith ar gyfer y dyfodol yn gyfystyr ag ymgynghoriad gyda’r Pwyllgor o ran ei raglen waith.

## 10. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?

Nid oes risg wedi ei ganfod o ran y Pwyllgor yn ystyried ei raglen waith.  Fodd bynnag, drwy adolygu ei raglen gwaith i'r dyfodol yn rheolaidd, gall y Pwyllgor sicrhau y rhoddir ystyriaeth ac yr archwilir meysydd risg pan eu bod yn cael eu nodi, a gwneir argymhellion gyda’r bwriad o fynd i’r afael â’r risgiau hynny.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

11.2 Mae Adran 7.11 Cyfansoddiad y Cyngor yn datgan y bydd pwyllgorau craffu ac/neu’r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu yn gyfrifol am osod eu rhaglenni gwaith eu hunain, gan ystyried dymuniadau Aelodau o’r Pwyllgor nad ydynt yn aelodau o’r grŵp gwleidyddol mwyaf ar y Cyngor.

## Swyddog Cyswllt:

Rhian Evans - Cydlynydd Craffu

Rhif Ffôn: (01824) 712554

E-bost: rhian.evans@sirddinbych.gov.uk

Communities Scrutiny Committee Forward Work Plan

**Note: Items entered in italics have not been approved for submission by the Committee. Such reports are listed here for information, pending formal approval.**

| Meeting | Lead Member(s) | Item (description / title) | | Purpose of report | Expected Outcomes | Author | Date Entered |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| 10 March | ***Leader*** | *1.* | *Draft Tourism Signage Strategy for Denbighshire (tbc)* | *To examine the draft Tourism Signage Strategy for the county developed by the Working Group including potential funding sources and the anticipated timescale for the Strategy's delivery* | *The development of a tourism signage strategy that complements trunk road signage and technological innovations in the field of tourism, takes into account the aims of 'The Wales Way' project, attracts visitors and increases the value of tourism spend in the county in line with the corporate priority relating to the Environment, and in-keeping with the outcomes of Denbighshire's Tourism Strategy* | *Mike Jones/Peter McDermott* | *March 2020 (rescheduled due to COVID-19 (Sept & Dec 20 & Sept 2021))* |
| | ***Cllr. Mark Young*** | *2.* | *Mistreatment of Dogs* | *To examine the extent of legal and illegal dog sales within Denbighshire (particularly during the COVID-19 pandemic) – including the number of complaints received, investigated and substantiated and how various agencies work together to tackle* | *Determination of whether working relationships need to be strengthened or improved in order to deal with any problems or deter future problems in relation to this matter with a view to supporting the viability of properly licensed traders to operate thus reducing the suffering of the animals* | *Emlyn Jones/Gareth Roberts/Glesni Owen* | *By SCVCG September 2021* |

Communities Scrutiny Committee Forward Work Plan



| Meeting | Lead Member(s) | Item (description / title) | | Purpose of report | Expected Outcomes | Author | Date Entered |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | *any problems are reported* | | | |
| | ***Cllr. Mark Young*** | *3.* | *Second Homes and Short-Term Holiday Lets* | *To examine the planning requirements in relation to these types of properties/dwelling* | *Determination on whether the requirements of Planning legislation in relation to these types of properties are sufficiently robust and are effectively applied to ensure that local residents are not deprived of the availability of affordable properties to buy or rent in Denbighshire. This will support the delivery of the Council's Corporate Priority relating to Housing* | *Emlyn Jones/Paul Mead/Angela Loftus* | *By SCVCG September 2021* |
| | **Cllr. Mark Young** | 4. | Planning Compliance Charter | To examine the effectiveness of the Planning Compliance Charter with the county's city, town and community councils in addressing planning contraventions, non-compliance and enforcement issues across the county | An evaluation of the Charter's effectiveness in order to determine whether recommendations are required to strengthen the Charter or increase resources available for planning enforcement across the county | Emlyn Jones/Adam Turner | By SCVCG October 2020 (rescheduled by Committee January 2021 due to COVID-19 and December 2021) |
| | | | | | | | |
| 30 July | ***TBA*** | *1.* | *New Waste and Recycling Model (timing tbc)* | *To detail the outcomes of the pilot projects in West Rhyl (use of microchips in* | *Following assessing the lessons learnt from the pilot projects and initiatives to make recommendations that will support the effective roll-out and delivery of the new waste and* | *Tony Ward/Tara Dumas* | *December 2021* |

Communities Scrutiny Committee Forward Work Plan

| Meeting | Lead Member(s) | Item (description / title) | | Purpose of report | Expected Outcomes | Author | Date Entered |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | *waste containers), Bron y Crêst (communal bin service change) and the Elected Members Recycling Experience initiatives (tbc)* | *recycling with a view to enhancing the benefits of the project for the Council and for local residents* | | |
| | ***Leader*** | *1.* | *Rhyl Regeneration Programme* | *To examine the effectiveness of the Programme Board's work in delivering the regeneration programme* | *Identification of any barriers or slippages and the formulation of recommendations to try and address them and sustain the delivery of the programme to secure the regeneration of Rhyl to benefit the economy and the lives of the town's residents and the county in general* | *Emlyn Jones/Nicola Caie* | *January 2021 (rescheduled January 2022)* |
| | | | | | | | |
| 8 September | ***TBA*** | *1.* | *Wildflower Meadow Project* | To:<br>(i) evaluate the effectiveness of the steps taken to improve engagement and increase publicity with all stakeholders in relation of the project;<br>(ii) consider the progress made to date in delivering its | (i) To secure the delivery of the expected outcomes which will support the realisation of the Council's corporate priority relating to the Environment as well as contributing towards the delivery of its Ecological and Climate Change Strategy; and<br>(ii) Re-inforce elected members' support for the project and its aims and objectives to enable them to explain to residents the rationale behind the project and how it contributes towards the | *Tony Ward/Emlyn Jones/Joel Walley* | *September 2021* |

Communities Scrutiny Committee Forward Work Plan

| Meeting | Lead Member(s) | Item (description / title) | | Purpose of report | Expected Outcomes | Author | Date Entered |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | expected benefits; and<br>(iii) seek members' support for the Project | wider national environmental, health and well-being objectives | | |
| | | | | | | | |
| 20 October | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| 8 December | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| June/July 2023 | ***TBA*** | *1.* | *Llangollen Car Park Tariff Pilot Scheme* | *To outline the effectiveness of the pilot scheme for varying car park tariffs in Llangollen* | *Identification of lessons learnt from the pilot scheme's implementation and operation in readiness for the introduction of similar schemes in other areas in future* | *Emlyn Jones/Mike Jones/Peter Lea* | *January 2021* |



**Future Issues**

Communities Scrutiny Committee Forward Work Plan

| Item (description / title) | Purpose of report | Expected Outcomes | Author | Date Entered |
|---|---|---|---|---|
| Flood Risk Management and Riparian Land Ownership<br><br>(early 2022 tbc) | To present the findings and conclusions of the Task and Finish Group established to examine methods of strengthening interaction and working relationships between public flood risk management authorities and riparian landowners across the county | To identify methods and make recommendations in relation to the provision of clear communication channels, building levels of mutual trust, and strengthening working relationships between public flood risk flood management authorities, riparian landowners and their representatives to ensure effective management of watercourses with a view to reducing the risk of flooding in future | Tony Ward/Wayne Hope | December 2020 |



**For future years**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

**Information/Consultation Reports**

| Information / Consultation | Item (description / title) | Purpose of report | Author(s) | Date Entered |
|---|---|---|---|---|
| **INFORMATION** (for circulation Feb 2022 *once COVID-19 restrictions permit the work to take place*) | Community Impact Assessment on the communities of Rhewl and Llanynys | To present the findings of the community impact assessment undertaken following the closure of Ysgol Rhewl as agreed as part of the modernising education programme | Geraint Davies/James Curran | December 2020 |

Communities Scrutiny Committee Forward Work Plan

**Note for officers – Committee Report Deadlines**

| Meeting | **Deadline** | Meeting | **Deadline** | Meeting | **Deadline** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| 10 March | **24 February** | 30 July | **16 July** | 8 September | **25 August** |

06/01/2022 RhE

**Atodiad 2**

| Ffurflen Gynnig ar gyfer Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Craffu | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | |
| **AMSERLEN I'W HYSTYRIED** | |
| **TESTUN** | |
| **Beth sydd angen ei graffu arno (a pham)?** | |
| **Ydi'r mater yn un o bwys i drigolion/busnesau lleol?** | **YDI/NAC YDI** |
| **Ydi craffu yn gallu dylanwadu ar bethau a'u newid?**<br>(Os 'ydi' nodwch sut rydych chi'n meddwl y gall craffu ddylanwadu neu newid pethau) | **YDI/NAC YDI** |
| **Ydi'r mater yn ymwneud â gwasanaeth neu faes sy'n tanberfformio?** | **YDI/NAC YDI** |
| **Ydi'r mater yn effeithio ar nifer fawr o drigolion neu ardal fawr o'r Sir?**<br>(Os 'ydi', rhowch syniad o faint y grŵp neu'r ardal yr effeithir arni) | **YDI/NAC YDI** |
| **Ydi'r mater yn gysylltiedig â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor?**<br>(Os 'ydi' nodwch pa flaenoriaethau) | **YDI/NAC YDI** |
| **Hyd y gwyddoch, oes yna rywun arall yn edrych ar y mater hwn?**<br>(Os 'oes', nodwch pwy sy'n edrych arno) | **OES/NAC OES** |
| **Os derbynnir y testun ar gyfer craffu, pwy fyddai arnoch chi eisiau eu gwahodd e.e. Aelod Arweiniol, swyddogion, arbenigwyr allanol, defnyddwyr y gwasanaeth?** | |
| **Enw'r Cynghorydd/Aelod Cyfetholedig** | |
| **Dyddiad** | |

## Ystyried addasrwydd pwnc ar gyfer craffu

**Ffurflen Gynnig / Cais a dderbyniwyd**

(dylid rhoi ystyriaeth ofalus i'r rhesymau dros wneud cais)

**Ydi o'n bodloni'r gofynion canlynol?**

- **Diddordeb Cyhoeddus** – ydi'r mater o bwys i drigolion?
- **Effaith**– fedr craffu yn gael effaith ar bethau a'u newid?
- **Perfformiad** – ydi o'n wasanaeth neu faes sy'n tanberfformio?
- **Graddfa** – ydi o'n effeithio ar nifer o drigolion neu ardal ddaearyddol fawr?
- **Ailadrodd** – ydi'r mater yn destun craffu/ymchwiliad gan berson neu gorff arall?

**NAC YDI**

Dim gweithredu pellach gan y Pwyllgor Craffu. Gellir ei gyfeirio at gorff arall neu ofyn am adroddiad er gwybodaeth.

**YDI**

- Penderfynu ar y canlyniadau a ddymunir
- Penderfynu ar gwmpas a swmp y gwaith craffu sydd ei angen a'r dull mwyaf priodol o graffu (h.y. adroddiad pwyllgor, ymchwiliad grŵp tasg a gorffen neu aelod cyswllt ac ati)
- Os penderfynir sefydlu grŵp tasg a gorffen, dylid penderfynu ar amserlen yr ymchwiliad, pwy fydd yn rhan o'r ymchwiliad, beth yw'r gofynion ymchwilio, a oes angen cyngor arbenigol a thystion, a beth yw'r trefniadau adrodd ac ati.

**Appendix 3**

# Cabinet Forward Work Plan

| Meeting | Item (description / title) | | Purpose of report | Cabinet Decision required (yes/no) | Author – Lead member and contact officer |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| **15 Feb** | 1 | Regional Memory Assessment Service Invitation Tender | To seek final approval of the tender award | Yes | Councillor Bobby Feeley / Catrin Roberts / Catrin Perry |
| | 2 | Queens Market Phase 1 – award construction contract | To seek approval to award a contract for the delivery of Phase 1 of the Queens Building Rhyl | Yes | Councillor Hugh Evans / Russell Vaughan |
| | 3 | Contract Award approval for new Waste Fleet to support new Waste Service Model | To award the contract for the new Waste Fleet | Yes | Councillor Brian Jones / Tony Ward / Chris Brown / Joanne Taylor |
| | 4 | Contract Award - Renovation of terraced houses at 2-16 Aquarium Street in Rhyl | To award a construction contract for housing development | Yes | Councillors Tony Thomas and Julian Thompson-Hill / Mark Dixon |
| | 5 | Proposed scheme of delegated decision making for land acquisition (freehold and leasehold) for carbon sequestration and ecological improvement purposes | A decision is required on whether or not to introduce the new scheme of delegated decision making as proposed | Yes | Councillor Brian Jones / Tony Thomas and Julian Thompson-Hill / Andrew Cutts / Alan Smith / Steve Gadd |
| | 6 | Queen’s Jubilee Celebrations | To consider proposals for the Queen’s Platinum Jubilee Beacons as part of the official Platinum Jubilee celebrations June 2022 | Tbc | Councillor Hugh Evans / Gary Williams |
| | 7 | Recommendations of the | To seek support of projects | Tbc | Councillor Julian Thompson- |

# Cabinet Forward Work Plan



| Meeting | Item (description / title) | | Purpose of report | Cabinet Decision required (yes/no) | Author – Lead member and contact officer |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Strategic Investment Group | identified for inclusion in the 2022/23 Capital Plan. | | Hill / Steve Gadd / Richard Humphries |
| | 8 | Housing Support Programme Strategy | To seek approval of the Strategy. | Yes | Councillor Bobby Feeley / Ann Lloyd /Claire Owens / Nigel Jones |
| | 9 | Finance Report | To update Cabinet on the current financial position of the Council | Tbc | Councillor Julian Thompson-Hill / Steve Gadd |
| | 10 | Items from Scrutiny Committees | To consider any issues raised by Scrutiny for Cabinet's attention | Tbc | Scrutiny Coordinator |
| | | | | | |
| **22 March** | 1 | Contract Award approval for Phase 2 Construction Works – DCC Waste Transfer Station to support new Waste Service Model | To award the contract for Phase 2 construction works | Yes | Councillor Brian Jones / Tony Ward / Peter Clayton |
| | 2 | Finance Report | To update Cabinet on the current financial position of the Council | Tbc | Councillor Julian Thompson-Hill / Steve Gadd |
| | 3 | Items from Scrutiny Committees | To consider any issues raised by Scrutiny for Cabinet's attention | Tbc | Scrutiny Coordinator |
| | | | | | |
| **26 April** | 1 | Finance Report | To update Cabinet on the | Tbc | Councillor Julian Thompson- |

**Appendix 3**

# Cabinet Forward Work Plan

| Meeting | Item (description / title) | | Purpose of report | Cabinet Decision required (yes/no) | Author – Lead member and contact officer |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | current financial position of the Council | | Hill / Steve Gadd |
| | 2 | Items from Scrutiny Committees | To consider any issues raised by Scrutiny for Cabinet's attention | Tbc | Scrutiny Coordinator |
| | | | | | |
| | | | | | |
| **7 June** | 1 | Council Performance Self-Assessment | To consider the Council's self-assessment of its performance in delivering against the council's strategic plan and services | Tbc | Iolo McGregor |
| | 2 | Finance Report | To update Cabinet on the current financial position of the Council | Tbc | Steve Gadd |
| | 3 | Items from Scrutiny Committees | To consider any issues raised by Scrutiny for Cabinet's attention | Tbc | Scrutiny Coordinator |
| | | | | | |

**FUTURE ITEMS**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **22 Nov** | Council Performance Update – July to | To consider the Council's performance in delivering | Iolo McGregor |

# Cabinet Forward Work Plan

| | | | |
|---|---|---|---|
| | September | against the council's strategic plan and services | |

*Note for officers – Cabinet Report Deadlines*

| *Meeting* | ***Deadline*** | *Meeting* | ***Deadline*** | *Meeting* | ***Deadline*** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| *January* | ***4 January*** | *February* | ***1 February*** | *March* | ***8 March*** |

Updated 22/12/2021 - KEJ

Cabinet Forward Work Programme.doc

**Appendix 4**

**Progress with Committee Resolutions**

| Date of Meeting | Item number and title | Resolution | Progress |
|---|---|---|---|
| **9 December 2021** | **5. Stakeholder/Community Engagement Activity for Potential Central Rhyl and Central Prestatyn Coastal Defence Schemes** | ***Resolved*: -** *that the Committee -*<br>*(i) having examined the scope and findings of the stakeholder and public consultations for the schemes, recommends to Cabinet that it is satisfied with the approach taken for the consultations and their findings; and*<br>*(ii) confirmed that, as part of its consideration, it had read, understood and taken account of the Well-being Impact Assessments (attached at Appendices 3a and 3b to the report).* | Lead Member and officers advised of the Committee's recommendations. |
| | **6. New Waste and Recycling Operating Model General Update and Communications Progress** | ***Resolved*: -** *subject to the above observations –*<br>*(i) to note the progress made to date by Project Team delivering the new Waste and Recycling Service to residents by summer 2023;*<br>*(ii) to endorse the suite of household waste and recycling policies (included at Appendix II to the report) and note the Head of Highways and Environmental* | Lead Member and officers informed of the Committee's recommendations. A report on the outcomes of the pilot projects and the Elected Members Recycling Experience has been scheduled into the Committee's forward work programme for July 2022 (see Appendix 1) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | *Services' intention to ensure that the policies be adopted through the delegated decision process by March 2022; and*<br>*(iii) request that the Head of Highways and Environmental Services submits a future report to Communities Scrutiny Committee on the outcomes of the pilot projects in West Rhyl (use of microchips in waste containers), Bron y Crêst (communal bin service change) and the Elected Members Recycling Experience initiatives.* | |
| | **9. Denbighshire's Gypsy and Traveller Accommodation Assessment (2021)** | ***Resolved***: -<br>(i) *to endorse the conclusions of the Task and Finish Group that –*<br>*(a) the work on the Gypsy and Traveller Accommodation Assessment had met the requirements of the Work Brief and Stakeholder Communication and Engagement Plan as endorsed by Communities Scrutiny Committee on 26th July 2021; and*<br>*(b) the Welsh Government methodology had been applied* | Lead Member and officers advised of the Committee's recommendations which were presented on the Committee's behalf by the Vice-Chair to Cabinet at its meeting on 14 December 2021. Cabinet duly approved the recommendations. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | appropriately to the analysis of need.<br>(ii) to confirm its support for the approach adopted for the delivery of Denbighshire's Gypsy and Traveller Accommodation Assessment as being robust and in line with Welsh Government guidance;<br>(iii) to confirm that it had read, understood and taken account of the Well-being Impact Assessment (Appendix 3 to the report) as part of its consideration; and<br>(iv) to recommend to Cabinet that the draft Gypsy and Traveller Accommodation Assessment should be approved for submission to Welsh Government. | |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag